------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Rhagfyr 2025

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru


# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Cyfarfod cyhoeddus

09.30 - 11.00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2024 - 2025

09.30 - 11.00 (Tudalennau 1 - 19)

Paul Bevan, Cadeirydd, Cymwysterau Cymru

Philip Blaker, Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru [drwy Zoom]

Bydd Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2024 - 2025

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Papurau i'w nodi

11.00

### 3.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 20 - 21)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth ColegauCymru

### 3.2 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalen 22)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (Saesneg yn unig)

### 3.3 Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr

(Tudalennau 23 - 29)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### 3.4 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

(Tudalennau 30 - 51)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**3.5 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 52 - 100)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol oddi wrth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

**3.6 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 101 - 103)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Cymwysterau Cymru

**3.7 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 104 - 105)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth CBAC (Saesneg yn unig)

**3.8 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 106 - 107)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth CBAC (Saesneg yn unig)

**3.9 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 108 - 109)

Dogfennau atodol:

Llythyr at y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**3.10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

(Tudalennau 110 - 111)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth gan y Rhaglen Taith (Saesneg yn unig)

**3.11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

(Tudalennau 112 - 116)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Lywodraeth Cymru

**3.12 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalen 117)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**3.13 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 118 - 128)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**3.14 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 129 - 134)

Dogfennau atodol:

Llythyr at y Prif Weinidog gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### 3.15 Blaenraglen Waith

(Tudalen 135)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth y Prif Weinidog

### 3.16 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 136 - 137)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### 3.17 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 138 - 139)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Brif Weithredwr Medr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.00

## Cyfarfod preifat

11.00 - 12.30

## 5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru - trafod y dystiolaeth

11.00 - 11.15

## Egwyl

11.15 – 11.20

## 6 Recriwtio a Chadw Athrawon – trafod yr adroddiad drafft

11.20 – 12.30 (Tudalennau 140 – 290)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ms Buffy Williams AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Tachwedd 2025

Annwyl Ms Williams AS,

Fel y gwyddoch o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol ac o'ch ymweliadau eich hun â cholegau yn eich etholaeth ac mewn mannau eraill yng Nghymru, bu cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl a gymerodd ran yn y sector addysg bellach dros flwyddyn academaidd 2024/25. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cynnydd yn y galw am feysydd penodol o addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ond hefyd oherwydd mwy o bobl ifanc yn ymuno ar lefelau cymhwyster is.

Yn eich sesiwn dystiolaeth ar 19 Tachwedd, tynnodd James Owen, Prif Weithredwr Medr, sylw at y pwysau ariannol ar golegau yn y flwyddyn academaidd bresennol o ganlyniad i flwyddyn arall o gynnydd par Haus yn y niferoedd sy'n cymryd rhan. Roeddem am ysgrifennu at y Pwyllgor i ategu'r sylwadau a wnaed gan Medr yn y sesiwn ac i nodi rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu'r sector.

Mae'r colegau wedi cael blwyddyn gryf arall o ran recriwtio gyda niferoedd uchel o bobl ifanc wedi cofrestru ym mis Medi. Ar y dyddiad 'recriwtio wedi cau' ym mis Tachwedd, roedd nifer y dysgwyr amser llawn yn 43,400, sef 4,400 yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru a Medr. Gwnaed rhywfaint o ddarpariaeth eleni i gefnogi twf cynyddol, ond hyd yn oed o ystyried hyn, mae'r sector yn darparu tua £15m - £20m o ddarpariaeth heb ei hariannu.

Mae hyn, wrth gwrs, yn stori gadarnhaol am wydnwch a llwyddiant sector addysg bellach Cymru ac am ddysgwyr sy'n gwneud dewisiadau cadarnhaol ynghylch eu taith addysg ôl-16. Yr her nawr yw sicrhau bod y dysgwyr ychwanegol hyn yn cwblhau eu cyrsiau ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu i gyflogaeth.

Yn benodol, nifer yr ychwanegiadau i'r cohort a'r anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â'u proffil demograffig ac addysgol sy'n cyfrannu at y pwysau ariannol. Fel yn y flwyddyn academaidd 2024/25, proffil y dysgwyr ychwanegol yw eu bod â'r ychydig iawn o gymwysterau ac yn ymuno ar lefelau astudio is, gydag anghenion sylweddol o ran cymorth llythrennedd a rhifedd sydd wedi rhoi straen ychwanegol ar adnoddau'r coleg. Yn ogystal â hyn, i gyflawni cymhwyster Lefel 3 bydd angen i lawer o'r dysgwyr astudio yn y coleg am dair blynedd. Yn aml maent yn bobl ifanc o'r cartrefi tlotaf ac mae angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt i allu fforddio costau teithio a chostau cysylltiedig eraill. Dyma'r dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf a'r rhai sydd gennym i gyd ddyletswydd i'w cefnogi.

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Colegau.Cymru helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182
Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
Colleges.Wales hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

O’n dadansoddiad ni o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27, mae’n glir y bydd y pwysau hyn hyd yn oed yn fwy heriol i golegau y flwyddyn nesaf. Mae ariannu ychwanegol yn ystod y flwyddyn ac adnoddau ychwanegol ar gyfer 2026/27 yn gwbl hanfodol os ydym am allu cefnogi ein dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau.

Rydym eisiau nodi’n glir i’r Pwyllgor pa mor bwysig yw’r eiliad hon i gymaint o bobl ifanc ledled Cymru. Mae colegau eisoes yn gorfod gwneud penderfyniadau anhygoel o anodd ynghylch pwy y gallant eu cefnogi’n ariannol a sut y gallant ddarparu’r cymorth dysgu ychwanegol y mae angen ar gymaint o’n pobl ifanc. Bydd cefnogaeth ariannol ychwanegol i’r sector yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau a dyfodol y bobl ifanc hyn.

Dyma pam mae ColegauCymru yn galw am:

- Ariannu brys, yn ystod y flwyddyn academaidd hon, i helpu colegau i ddarparu’r cymorth ariannol a bugeiliol ychwanegol sydd ei angen ar ddysgwyr i aros yn y coleg a chwblhau eu cyrsiau.

- Adolygiad o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 i adlewyrchu’r galw a’r costau disgwyliedig o ran recriwtio a chadw dysgwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Byddem yn hapus i drefnu ymweliad i chi neu i unrhyw Aelodau o’r Pwyllgor i gwrdd â dysgwyr a staff mewn unrhyw goleg yng Nghymru fel y gallwch weld drosoch eich hun y heriau sy’n wynebu’r sector, ond hefyd y cyfle sydd gennym i gefnogi dysgwyr ar y cam hollbwysig hwn yn eu haddysg.

Cofion gorau,



David Hagendyk
**Prif Weithredwr**

**Women's Equality Network (WEN) Wales – New Report**

Thank you for sharing the headline findings from our research on childcare in Wales with the Children, Young People and Education Committee earlier this year.

We are pleased to now share the final report Transforming Early Childhood Education and Care in Wales and would be grateful if you could bring this to the Committee's attention.

**New report Transforming Early Childhood Education and Care in Wales launched**

Our findings and recommendations are informed by quantitative and qualitative research with **over 780 parents in Wales**, a comprehensive review of **recent proposals for ECEC reform**, interviews with **expert stakeholders** within local authorities, the third sector, and the early years sector and a **substantial review of academic and other studies**.

**The report covers the following areas:**

- What is ECEC for?
- The ECEC landscape in Wales
- The relationship between parental employment, poverty mitigation, and child development
- Does Wales' ECEC system meet key policy objectives?
- What helps or hinders meeting ECEC objectives?
- How Wales can do better

It identifies **five key principles** for effective ECEC, together with a number of recommendations to implement these:

1. Target investment where it has the **biggest impact**
2. Leverage funding to ensure provision is **high-quality, sustainable and equitable**
3. Provide the **right number of hours**
4. **Ensure flexibility** to meet families' needs
5. Provide **integrated services**

**Read the full report and executive summary.**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

26 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy

Gweler isod yr wybodaeth yr ymrwymais i'w darparu yn ystod fy ymddangosiad yn sesiwn y Pwyllgor ar Wella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr ar 6 Tachwedd. Mae'r wybodaeth yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau Dysgu a'i gydweithrediad ag awdurdodau lleol; nodyn ar y prosiect 'eFSM a Mwy'; a gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Byddaf yn rhannu argymhellion panel arbenigol Llywodraeth Cymru ar lythrennedd pan fyddant ar gael.

**Cylch gwaith Dysgu a'i drosiant**

Mae amcanion Dysgu, a nodir yn ei lythyr cylch gwaith ar gyfer y cyfnod o'i sefydlu ar 1 Medi 2025 hyd at haf 2026, yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Sefydlu Dysgu fel sefydliad strategol gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol, llywodraethu cadarn, a threfniadau ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid
- Datblygu prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd i wneud yn sicr bod ei ddysgu proffesiynol yn bodloni'r meini prawf a bennwyd, a threfniadau cadarn i fonitro effaith ei weithgaredd
- Arwain datblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr, gan gynnwys drwy adolygu'r ddarpariaeth arweinyddiaeth bresennol, cynllunio darpariaeth at y dyfodol, a chyflwyno'r rhaglen beilot Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH)
- Darparu ystod gydlynol o gyfleoedd ansawdd uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol i gynorthwywyr addysgu ac athrawon
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol yn cael eu harwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn ymateb i anghenion ymarferwyr mewn ysgolion, arweinwyr a chynghorwyr gwella ac yn bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd, gan gynnwys blaenoriaethau allweddol y Cwricwlwm i Gymru, fel llythrennedd, rhifedd, a llunio ac asesu'r cwricwlwm

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cynyddu i'r eithaf mynediad i bob ymarferydd ysgol yng Nghymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i ddatblygiad proffesiynol a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar Hwb gan sicrhau mynediad teg yn Gymraeg a Saesneg.

Mae Dysgu eisoes yn cyflwyno'r rhaglen beilot NPQH ar gyfer ei dwy garfan gyntaf, ac yn adolygu a chynllunio darpariaeth arweinyddiaeth bellach. Mae Dysgu hefyd yn cefnogi cyflwyno'r rhaglen beilot ar gyfer dysgu proffesiynol Dosbarth Braf, Meddwl Bywiog, sy'n hyrwyddo cynhwysiant a lles trwy ddwysau gwybodaeth ymarferwyr am ddatblygiad plant, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl.

Mae Dysgu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynllun pontio ar gyfer meysydd â blaenoriaeth a fydd yn trosglwyddo i Dysgu yn ystod ei flwyddyn drosiannol (blwyddyn academaidd 2025/26). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Wyth o grantiau Rhaglen Gymorth Cwricwlwm i Gymru i gefnogi llythrennedd a rhifedd
- Secondio staff llythrennedd a rhifedd
- Parhau i ariannu'r rhaglen Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hilaeth (DARPL)
- Parhau i ariannu'r rhaglenni MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) a Doethuriaeth Genedlaethol mewn Addysg (Cymru).

Yn ogystal, bydd Dysgu hefyd yn datblygu dysgu proffesiynol arall mewn ymateb i fy mlaenoriaethau allweddol eraill sef lles a chynhwysiant, ochr yn ochr â chefnogaeth i ymarferwyr ddatblygu eu harfer a'u haddysgeg gydol eu llwybrau gyrfaol. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru a datblygu adnoddau dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth ar Hwb.

Bydd y cyfrifoldeb am ariannu dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau ymarferwyr wrth ymgymryd â gwaith ymchwil ac ymholi, a ddarperir gan brifysgolion, yn trosglwyddo i Dysgu yn ddiweddarach.

**Cydweithrediad Dysgu ag awdurdodau lleol**
Bydd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i'r ffordd y mae Dysgu yn gweithredu, a bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, MEDR, Estyn, Adnodd a phrifysgolion) i sicrhau bod ei ddarpariaeth yn cael ei arwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn ymateb i anghenion ymarferwyr mewn ysgolion, arweinwyr a chynghorwyr gwella ac yn diwallu anghenion y blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd.

Mae cylch gwaith a darpariaeth Dysgu wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar y meysydd lle bydd cynnig cenedlaethol cydlynol a chyson yn cael mwy o ffaith na'r ddarpariaeth leol, felly ni ddylai trefniadau lleol ddyblygu darpariaeth genedlaethol Dysgu.

Bydd Tîm Gwella Addysg (EIT) Llywodraeth Cymru yn arwain ymgysylltiad strategol ag awdurdodau lleol a rhai sy'n cynnal prosiectau cydweithredol rhwng ysgolion i ddatblygu llif gwell o ddeallusrwydd ar draws systemau, i annog diwylliant o hunan-wella ar draws pob rhan o'r sector, ac i gysylltu'r drafodaeth o amgylch blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer gwella. Byddant hefyd yn helpu i sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth eu rhannu rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i lywio gwaith Dysgu wrth ddatblygu ei

ddarpariaeth, gan sicrhau bod y dysgu proffesiynol a'r gefnogaeth i arweinwyr yn adlewyrchu anghenion y system, ac mae'n gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol.

Bydd mewnbwn awdurdodau lleol yn arbennig o bwysig wrth ddatblygu dysgu proffesiynol Dysgu ar gyfer cynghorwyr gwella ysgolion.
Bydd Dysgu yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol ar gyflawni mewn nifer o feysydd:

- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG): Mae darparu dysgu proffesiynol i Athrawon Newydd Gymhwyso yn ofyniad statudol i awdurdod lleol. Bydd Dysgu yn cydlynu ac yn datblygu'r rhaglen i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno'n gyson ac yn gydlynol ledled Cymru i gefnogi pob ANG.
- Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu Bydd cyllid i ddarparu'r Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu yn parhau i gael ei ddyrannu i awdurdodau lleol. Bydd Dysgu yn cydlynu ac yn datblygu'r rhaglen i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno'n gyson ac yn gydlynol ledled Cymru i gefnogi'r holl Gynorthwywyr Addysgu.
- Y Gymraeg a darpariaeth yn y Gymraeg: Bydd Dysgu yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cydag ac eraill i gynllunio a chyflawni ei ddarpariaeth yn y Gymraeg. Bydd Dysgu yn cydgysylltu ac yn datblygu'r gefnogaeth i ymarferwyr i addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a fydd yn parhau i gael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, yn seiliedig ar ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o addysgeg effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr i atgyfnerthu ac adeiladu ar sgiliau iaith presennol. Bydd darpariaeth i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn parhau i gael ei darparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol maes o law. Bydd Dysgu yn cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel hyfforddiant a rhwydweithio i ddatblygu arbenigedd pwnc, ac addysgeg effeithiol o ran addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**Prosiect 'eFSM a Mwy'**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol (SED). I wneud hynny, mae angen data cadarn a dilys ar y rhai sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) yw'r dynodwr a ddefnyddir fwyaf ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol ar lefel dysgwyr, gan fod prydau ysgol am ddim yn fudd-dal prawf modd, ac felly'n adlewyrchu incwm yr aelwyd. Mae'r llywodraeth a sefydliadau eraill yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gyffredinol, ac yn dibynnu arni fel "dirprwy" ddangosydd ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol i lywio amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys:
**Cefnogi dysgwyr:** nodi anghenion unigol dysgwyr a'r rhai sy'n fwy agored i brofi effaith amgylchiadau o anfantais economaidd-gymdeithasol;
**Datblygu, cyflwyno a monitro polisi**: deall lefel y rhwystrau sy'n wynebu ein dysgwyr mewn perthynas ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gwerthuso effaith ymyrraeth, trwy ystadegau ac ymchwil sydd ar gael i'r cyhoedd;
**Cyllid a chefnogaeth:** cefnogi dysgwyr ac ysgolion ar sail nifer y dysgwyr sy'n eFSM, targedu adnoddau a chymorth lle mae eu hangen;

Cyfyngiadau'r data eFSM fel dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae sawl ffactor wedi achosi pryder cynyddol bod terfynau ar ddefnyddioldeb data eFSM, gan gynnwys eu bod yn tanamcangyfrif lefelau tlodi, oherwydd rhwystrau cymhwyso, ac nad yw'n cyfrif yn llawn am ystod o ffactorau eraill sy'n berthnasol i anfantais yn hytrach nag incwm yn unig. Mae ffactorau diweddar eraill y mae eu heffaith wedi cynyddu yn cynnwys:

**Newidiadau i bolisi llywodraeth y DU:** newidiodd rheolau cymhwysedd pan gyflwynwyd Credyd Cynhwysol, gan ddisodli ystod o fudd-daliadau etifeddol, a olygodd nad oedd rhai dysgwyr b yn gymwys bellach. Cefnogodd Llywodraeth Cymru y dysgwyr hyn drwy barhau i ddarparu prydau bwyd am ddim drwy gyflwyno amddiffyniad trosiannol, ond nid oeddent wedi'u cynnwys yn y dirprwy ddata eFSM ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol os nad oeddent bellach yn bodloni meini prawf cymhwysedd y prawf modd newydd. Cyflwynwyd trothwy incwm i'r meini prawf cymhwysedd o 1 Ebrill 2019.

**Newidiadau polisi Llywodraeth Cymru** Mae cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn golygu nad oes angen i rieni plant oed ysgol gynradd wneud cais am gymhwysedd mwyach er mwyn i'w plentyn gael prydau am ddim. Er mwyn cefnogi dysgwyr, fe wnaethom sefydlu ymgyrch gyfathrebu genedlaethol 'Hawliwch help gyda chostau ysgol', mewn cydweithrediad â holl awdurdodau lleol Cymru, i annog rhieni i barhau i wirio eu cymhwysedd a chofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn cael mynediad at ffynonellau cymorth ychwanegol.

**Meini prawf costau byw, codiadau cyflogau a throthwy incwm statig:** Mae nifer y dysgwyr eFSM yn gyffredinol wedi gostwng bob blwyddyn ers 2021/22, yn ystod cyfnod o gynnydd mewn costau byw a lle mae tlodi cymharol wedi aros yn sefydlog. Felly, mae'n debygol nad yw'r dirprwy anfantais economaidd-gymdeithasol eFSM yn adlewyrchu'r un amrywiaeth o heriau sy'n gysylltiedig ag incwm sy'n wynebu'r grŵp o ddysgwyr a gynhwysir yn y data. Mae hyn yn lleihau ein dealltwriaeth o bwy sydd fwyaf angen ein cefnogaeth a'n gallu i werthuso a monitro effeithiolrwydd ein cyflawni.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, ac argymhellion adroddiadau blaenorol, mae Llywodraeth Cymru yn ailystyried sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei fesur ymhlith dysgwyr ac yn cychwyn ar brosiect ymchwil 'eFSM a Mwy'.

Tri phrif nod y gwaith ymchwil hwn yw:

**Deall anghenion rhanddeiliaid** - Darganfod beth mae ar randdeiliaid ei angen gan ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol a sut maen nhw'n defnyddio data eFSM a/neu ffynonellau data eraill ar anfantais economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd

**Archwilio ystod o ffynonellau data a allai fodloni anghenion a nodwyd am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol** - Nodi gwelliannau posibl i ffynonellau data presennol ac archwilio ffynonellau data amgen posibl ar gyfer mesur anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys unrhyw fodelu ystadegol i ddeall perthynas â chanlyniadau addysgol.

**Darparu argymhellion ar gyfer ffordd ymlaen** – ystyried y dangosyddion mwyaf priodol neu ddulliau gwell i oresgyn cyfyngiadau presennol eFSM i ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion sydd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid o ran data am anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr.

Y sefyllfa bresennol

Disgwylir i adroddiad gael ei gyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2025, yn amlinellu'r cynnydd hyd yma a'r canfyddiadau o gam cyntaf y prosiect. Drwy sefydliad ymchwil annibynnol dan gontract, roedd y cam hwn yn cynnwys casglu gwybodaeth oddi wrth ystod o randdeiliaid fel swyddogion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Y ffocws oedd deall arferion cyfredol ynghylch data anfantais economaidd-gymdeithasol, beth yw eu hanghenion, at ba ddibenion, a pha ddata sy'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys deinameg amrywiol o ran anghenion data a'r nodweddion sydd eu hangen (megis amseroldeb, amlder, ar lefel unigol neu ddaearyddol). Roedd ffocws ar sut mae'r data eFSM yn cael ei ddefnyddio o fewn hynny a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â hyn ac ystyried ymhellach ddata amgen neu ddulliau gwahanol.

Y camau nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, mae swyddogion yn bwriadu cynnal dadansoddiad pellach er mwyn:

- archwilio'r data sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys eFSM, a'r gwelliannau posibl a nodwyd.
- Asesu dichonoldeb a phriodoldeb dangosyddion amgen.

Bydd hyn yn cynnwys ymchwil desg yn bennaf, gan ganolbwyntio ar ddefnydd Lywodraeth Cymru o'r data ac ystyried goblygiadau i gyrff cyhoeddus eraill sydd hefyd yn dibynnu arnynt.
Wrth edrych ymlaen, efallai y bydd yr ymchwil yn argymell symud oddi wrth ddibyniaeth gyffredinol ar ddata eFSM ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'n debygol mai amrywiaeth o wahanol ffynonellau fydd yn gweddu orau i anghenion gwahanol ar gyfer darparu'r dystiolaeth fwyaf priodol, ond y bydd angen cydbwyso hyn â'r angen i gadw ymagwedd wedi'i alinio ar draws gwahanol feysydd at ddibenion penodol. Cydnabyddir hefyd y bydd angen hanfodol yn parhau at rai dibenion am ddata ar lefel unigolyn.

Tra bo'r prosiect hwn yn mynd rhagddo, mae'r dirwedd yn parhau i newid. Byddai unrhyw newidiadau pellach sy'n ymwneud â mynediad at ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn effeithio ymhellach ar ddefnyddioldeb y data eFSM. Yn ogystal, bydd gwaith parhaus mewn meysydd portffolio eraill yn newid ac o bosibl yn gwella defnyddioldeb data eFSM fel dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol, e.e. symleiddio budd-daliadau Cymru, a dichonoldeb defnyddio ffynonellau data amgen i gefnogi e.e. Deddf yr Economi Ddigidol.

Ochr yn ochr â'r prosiect hwn, mae Llywodraeth Cymru yn edrych eto ar y ffordd y dyrennir y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Mae cyllid GDD yn cael ei ddyrannu'n bennaf yn defnyddio data eFSM. Fodd bynnag, oherwydd y materion a amlinellir uchod, rydym yn ystyried opsiynau amgen ar gyfer dyrannu cyllid GDD yn y dyfodol. Bydd ffrydiau gwaith GDD ac eFSM a Mwy yn cydweithio ar sut i ganfod yn well disgyblion yr effeithir arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Crynodeb o'r Polisi Bwlch o ran Cyrhaeddiad oherwydd Tlodi**

Mae effaith tlodi yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf arwyddocaol a pharhaus sy'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Fe'i gwaethygwyd gan effeithiau cymhleth pandemig COVID-19, cyni a'r argyfwng costau byw. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu creu system addysg decach a mwy cynhwysol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar Theori Newid i wella ein dealltwriaeth o'r bwlch cyrhaeddiad oherwydd tlodi a'r hyn sy'n mynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Rydym wedi nodi chwe egwyddor ar sail tystiolaeth ryngwladol a'r blaenoriaethau yng Nghymru i lywio ein gwaith:

- Tegwch a chynhwysiant
- Gwneud penderfyniadau ar sail data
- Meddwl yn y tymor hir a chynllunio cynaliadwy
- Cydweithio a phartneriaeth gymunedol
- Addysg ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel
- Cymorth cyfannol i'r plentyn

Bydd yr egwyddorion hyn, sy'n cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael eu defnyddio i ddatblygu strategaeth glir, gydweithredol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth gyda rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori'r egwyddorion yn yr ymyriadau presennol a nodi meysydd sydd angen gwaith pellach er mwyn cyflawni gwelliannau ystyrlon a mesuradwy mewn cyrhaeddiad.

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion i gael gwared ar rwystrau rhag cyrhaeddiad i ddisgyblion sydd â phrofiad o ofal neu sy'n dod o aelwydydd incwm isel. Mae cyllideb o tua £128 miliwn wedi'i dyrannu ar gyfer 2025-26.

Yn dilyn adolygiad dwy ran o'r GDD yn 2023 a 2024 gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae fy swyddogion wedi bod yn edrych ar sut mae'r GDD yn cael ei ariannu a'i ddyrannu, a sut y gallwn ddeall yn well y ffordd y caiff ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw i ymgorffori egwyddorion y Theori Newid a gwella'r ffordd y mae'r cyllid yn gweithio.

Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â'r Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF) i ddatblygu cyfres o adnoddau cyfarwyddyd atodol, gan gynnwys canllawiau penodol ar gyfer y GDD ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Nod y rhain yw cefnogi ysgolion i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ddarparu addysg deg o ansawdd uchel i bob dysgwr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adnoddau hyn yn y flwyddyn newydd.

Mae ein partneriaeth â'r EEF yn darparu mynediad i ymarferwyr addysg at dystiolaeth ryngwladol o ansawdd uchel i wella polisi ac ymarfer addysg. Mae hyn yn cynnwys fersiynau Cymraeg o'u pecynnau cymorth addysg i'w helpu i nodi ymyriadau a'u rhoi ar waith i dorri'r cysylltiad rhwng incwm teulu a chyflawniad addysgol.

Rydym wedi sicrhau bod £13.1 miliwn ar gael ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion ar gyfer 2025-26 i barhau i ariannu'r grant ar lefel o £125/£200 fesul dysgwr, fel yn 2024-25. Elwodd dros 89,000 (94%) o ddysgwyr cymwys ar y Grant Hanfodion Ysgolion yn 2024-25. Mae'r grant yn helpu i leihau'r pryder ynghylch prynu gwisg ysgol a chyfarpar arall, gan alluogi plant i fynd i'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr un ffordd â'u cyfoedion.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Children North East i gynnal cyfres o gynlluniau peilot "Diogelu rhag Tlodi" ar draws chwe chlwstwr yng Nghymru. Mae'r cynlluniau peilot hyn

yn gweithio gydag ysgolion, dysgwyr a theuluoedd i ddeall gwir effaith tlodi ar brofiadau addysgol o ddydd i ddydd; ac i fynd i'r afael â stigma tlodi a'i effaith ar gyrhaeddiad.

Hwylusodd y peilot Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad, a ddaeth i ben ym mis Awst 2025, fentora gan gymheiriaid ymhlith arweinwyr ysgolion er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Mae gwerthusiad allanol ar y cyd o'r cynlluniau peilot Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad a Diogelu Rhag Tlodi ar y gweill. Bydd canfyddiadau mewnol ar gael o wanwyn 2025 a byddant yn cael eu defnyddio i lywio ein strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Rydym yn rhagweld y bydd canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol yn barod i'w cyhoeddi yn Haf 2025.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol a hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i chi am eich gwaith parhaus a'ch cefnogaeth ar y mater hwn.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Eitem 3.4

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd. CF99 1SN.

24 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Awst ynglŷn â'ch gwaith dilynol a'ch cwestiynau mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac absenoldeb disgyblion.

Mae'r ymateb hwn yn darparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Byddaf yn ysgrifennu ar wahân mewn perthynas ag absenoldeb.

Rwy'n amgáu dau atodiad hunanesboniadol gyda'r llythyr hwn.

- Mae Atodiad A yn darparu ymateb manwl mewn perthynas â chwestiwn 1 (bwledi 1 i 4) yn eich llythyr.
- Mae Atodiad B yn darparu'r manylion mewn perthynas â chwestiynau 2 a 3.

Mewn perthynas â chwestiwn 4, 'Unrhyw faterion eraill yr ydych yn meddwl sy'n berthnasol i'r mater hwn, y dylem eu hystyried fel rhan o'n gwaith dilynol', nid wyf wedi darparu ymateb gan fy mod yn credu bod yr wybodaeth fanwl a gynhwysir yn atodiadau A a B yn rhoi diweddariad cynhwysfawr.

Rwy’n parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo’r maes gwaith pwysig hwn, a byddaf yn parhau i weithredu ar y camau a amlinellwyd. Bwriad y camau a nodwyd yma yw sicrhau cynnydd ac effaith ystyrlon.

Dymuniadau gorau,

Lynne Neagle

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A - aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion**

**C1 A fyddech cystal â nodi eich safbwynt diweddaraf ar y canlynol:**

- **aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion**

Roedd rhan yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2023 o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) yn cynnwys cwestiynau ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae'r arolwg yn un trawstoriadol sydd wedi'i seilio ar ysgolion ac a gyflwynir bob dwy flynedd i bobl ifanc 11-16 oed. Yn 2023, cymerodd 129,761 o fyfyrwyr o 201 o ysgolion ran yn yr arolwg.

Y cwestiynau perthnasol oedd:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml y mae rhywun wedi dy alw di'n enwau sarhaus yn rhywiol yn yr ysgol? [gan fechgyn / gan ferched]

- I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?: Mae fy athrawon yn gweithredu i atal disgyblion rhag galw [merched / bechgyn] yn enwau sy'n dramgwyddus yn rhywiol yn yr ysgol hon.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml y mae rhywun wedi dy alw di'n enwau sarhaus yn rhywiol yn yr ysgol? [gan fechgyn / gan ferched]

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau sy'n golygu nad ydym yn gallu rhannu, na dibynnu ar y data. Er enghraifft, efallai na fydd 'cyffwrdd heb fod eisiau' yn cael ei ystyried fel rhywiol ei natur. Gall achosion mwy niferus gyffwrdd neu gusanu heb fod eisiau adlewyrchu cyfraddau uwch o gyffwrdd heb fod eisiau nad yw'n rhywiol (e.e. gwthio a hergydio yng nghoridorau' ysgol). Roedd ymgynghoriad diweddar ar y cwestiwn arolwg hwn gyda grŵp cynghori pobl ifanc canolfan ymchwil DECIPHer (sy'n gweinyddu SHRN) yn cefnogi'r safbwynt hwn. Yn ogystal, nid yw'r arolwg yn adlewyrchu'r mathau o enwau rhywiol sarhaus y gallai pobl ifanc fod yn eu disgrifio, nac yn gallu dirnad a oedd achosion o alw enwau wedi'u bwriadu fel 'jôc' neu a gawsant eu gweld fel pethau sy'n rhoi loes. Yn ogystal, nid yw'r arolwg ar hyn o bryd yn gallu nodi galw enwau rhywiol sarhaus gan y rhai sy'n ymateb "does y naill na'r llall yn fy nisgrifio i" i'r cwestiwn hunaniaeth rhywedd.

Rwy'n awyddus i ni gael data mwy cadarn i gefnogi ein gwaith yn y maes hwn. I'r perwyl hwn, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda thîm SHRN i fireinio'r cwestiynau arolwg ar gyfer ymarfer casglu data SHRN 2025. Rwy'n awyddus i ni gasglu gwybodaeth fwy penodol am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan gynnwys ymddygiadau corfforol ac ar-lein, yn ogystal â ph'un a yw'r person ifanc wedi adrodd am y profiad hwn wrth athro neu oedolyn arall. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn ar gael yn 2026.

Gan ddibynnu ar y canfyddiadau, efallai y byddaf o'r farn y gallai fod angen mwy o ymchwil ansoddol i archwilio pam fo rhai grwpiau o bobl ifanc yn adrodd mwy o brofiad o alw enwau rhywiol sarhaus a chyffwrdd neu gusanu heb fod eisiau. Yn ogystal, byddai ymchwil bellach yn werthfawr o ran archwilio sut mae ysgolion yn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn eu polisïau a'u harferion ynghyd â beth sy'n effeithiol.

Rwyf eisoes wedi bwrw iddi yn y maes hwn Mae tystiolaeth yn dangos bod aflonyddu rhywiol yn gyffredin mewn ysgolion, mewn mannau cyhoeddus, ac yn gyffredin ar-lein. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos fwyfwy nad yw aflonyddu rhywiol yn gyfyngedig i bobl ifanc hŷn ond yn hytrach mae'n digwydd ym mywydau bob dydd plant iau na'r arddegau.

Mae'n bwysig peidio â fframio aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol yn nhermau achosion neilltuol neu unigryw, ond yn hytrach deall y ffyrdd y mae diwylliannau cymdeithas, ysgol a phobl ifanc yn atgyfnerthu gwahaniaethu ar sail rhyw a sut mae hyn yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol. Rhwystr allweddol rhag mynd fynd i'r afael â'r mater yw bod bwlio rhywiol, rhywiaeth ac aflonyddu yn ddigwyddiadau bob dydd sy'n cael eu normaleiddio. Yn anffodus, maen nhw'n cael eu gweld fel rhan annatod o dyfu i fyny. Mae'r ffordd y mae'r math hwn o ymddygiad yn cael ei normaleiddio, ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc yn teimlo nad oes modd iddynt ei ddatgelu, yn debygol o arwain at danamcangyfrif maint y broblem.

Dyna pam y mae'r cynllun gweithredu ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi tynnu sylw at ein bwriad i ystyried pa ymchwil sydd ei angen i ddeall achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd" (cam gweithredu 7.1).

Credaf fod hwn yn ddarn pwysig o waith sydd hefyd yn berthnasol i sawl maes arall, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru a chod ymarfer addysg Cydberthynas a rhywioldeb (RSE), sy'n gosod maes dysgu sy'n briodol i ddatblygiad y plentyn ac sydd â'r bwriad o fynd i'r afael â materion fel bwlio, aflonyddu rhywiol a gwahaniaethu; hefyd, ein cynlluniau i wella diogelwch ar-lein sydd bellach wedi'u mynegi yn y cynllun gweithredu gwytnwch digidol mewn addysg ar gyfer plant a phobl ifanc; a'r strategaeth Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), yn enwedig drwy gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach sy'n eu grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

Er mwyn cefnogi hyn, rwyf wedi cytuno ein bod yn comisiynu ymchwil i archwilio dealltwriaeth a phrofiadau plant cyn-arddegau o gydberthnasau diogel ac iach â chyfoedion, gan ganolbwyntio'n benodol ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddirnad o safbwynt plant yn eu cyn-arddegau yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau polisi a fersiynau yn y dyfodol o'r cynllun gweithredu ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, yn enwedig ynghylch sut i

hyrwyddo cydberthnasau diogel ac iach rhwng cyfoedion, atal a lleihau aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a chryfhau cefnogaeth i ddioddefwyr a thramgwyddwyr.

Byddaf yn sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo.

- **bwlio mewn ysgolion**

Ym mis Tachwedd 2024 gwnes Ddatganiad Llafar i'r Senedd fel rhan o wythnos gwrth-fwlio. Ynddo, tynnais sylw at y ffaith fod bwlio yn parhau i fod yn broblem a'i fod yn cael effaith sylweddol, yn enwedig ar lesiant emosiynol plant. Dywedais hefyd fod mynd i'r afael â bwlio a'i effaith yn flaenoriaeth allweddol i mi. Mae arnaf eisiau mynegi'r neges yn glir, nad yw bwlio yn dderbyniol ac na fydd yn cael ei oddef. Rydym hefyd yn dymuno bod yn glir y byddwn yn cefnogi'r dioddefwr, ac yn gweithio gyda'r tramgwyddwyr i'w cael i gydnabod y niwed y maen nhw wedi'i wneud, gan eu helpu i ddod o hyd i ffordd gadarnhaol i symud ymlaen.

Unwaith eto, mae'r data SHRN yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni ar raddfa a natur bwlio. Dywedodd bron 38% o bobl ifanc eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y misoedd blaenorol, wedi cynyddu o 32% yn 2021. Mae canlyniadau'r arolwg yn uwch nag erioed o'r blaen, ac roedd mwy na 40% o ferched yn cael eu bwlio o'u cymharu â dros 30% o fechgyn.

Dywedodd un ar hugain y cant eu bod wedi cael eu seiberfwlio o leiaf unwaith neu ddwywaith yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd erledigaeth drwy seiberfwlio yn sylweddol uwch ymhlith pobl ifanc a nododd nad oeddent yn uniaethu fel bachgen na merch (44%), o'u cymharu â bechgyn (17%) a merched (24%).

Dangosodd data erledigaeth drwy fwlio rywfaint o dystiolaeth o raddiant cymdeithasol, gan fod dysgwyr o deuluoedd llai cefnog wedi nodi cyfraddau ychydig yn uwch o gael eu bwlio na'r rhai o deuluoedd eithaf cefnog neu gefnog iawn.

Yn ogystal, yn ystod 2023/24, darparodd Childline ychydig o dan 7000 o sesiynau cwnsela am fwlio (heb gynnwys ar-lein). Roedd hyn yn ostyngiad bach (-1%) o'i gymharu â 2022/23. Ymhlith y sesiynau cwnsela am fwlio lle'r oedd rhywedd yn hysbys, roedd 69% ohonynt wedi'u cynnal â merched, roedd 26% â bechgyn ac roedd 5% â phobl ifanc a oedd yn uniaethu fel pobl draws neu anneuaidd. Yn ystod yr un cyfnod, darparodd Childline 932 o sesiynau cwnsela i blant a phobl ifanc am fwlio ar-lein – ffigur tebyg i'r flwyddyn flaenorol.

Rwy'n pryderu am y cysylltiad rhwng stigma a gwahaniaethu ynghylch iechyd meddwl gwael fel achosion bwlio; fodd bynnag, yn yr un modd, gall bwlio hefyd gyfrannu at ddatblygu iechyd meddwl a llesiant gwael. Gall mynd i’r afael ag achos gwreiddiol bwlio gael ei ddilyn gan welliant yn llesiant meddyliol y plentyn neu’r person ifanc.

Rwyf eisiau gweld cefnogaeth i gamau gwrth-fwlio a lles pob plentyn a pherson ifanc yn mynd law yn llaw. Yn gynharach eleni fe wnaethom ymgynghori ar ganllawiau gwrth-fwlio diwygiedig – 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb'. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn yr ysgol a'u bod yn ffynnu yn yr amgylchedd feithringar a chefnogol y mae'r ysgol yn ei chynnig. Denodd yr ymgynghoriad dros 240 o ymatebion, sy'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, a disgwylir i'r ddogfen ddiwygiedig gael ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

- **ymddygiad amhriodol gan ddisgyblion tuag at staff yr ysgol (rhywiol neu fel arall); ac**
- **unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ymddygiad disgyblion tuag at ei gilydd neu tuag at staff.**

Byddaf yn ymdrin â'r ddau bwynt gyda'i gilydd gan fod cysylltiad agos rhyngddynt.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddata ar ymddygiad rhywiol amhriodol gan ddysgwyr tuag at staff ysgolion. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod ymddygiad gwael yn gyffredinol ar gynnydd ac yn bryder difrifol ac mae gennym rywfaint o ddata a deallusrwydd cyfyngedig ar effaith ymddygiad ar staff ein hysgolion.

Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd Education Support, yr elusen sy'n cefnogi lles staff ysgolion yn benodol, ei wythfed adroddiad ymchwil blynyddol, Mynegai Lles Athrawon, a oedd yn tynnu sylw at gyfraddau pryderus o uchel o straen, gorbryder, a gorflino gan straen yn parhau i effeithio ar staff addysg yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei waethygu gan ymddygiad disgyblion a rhieni, a diffyg cefnogaeth y tu allan i'r ysgol i blant a phobl ifanc. Er nad yw'n ystadegol gadarn, mae Education Support yn defnyddio YouGov yn hytrach na sampl wedi'i dargedu, ac mae'n rhoi blas o sut mae athrawon yn teimlo. Dangosodd fod 58% o staff yng Nghymru (a ymatebodd i'r arolwg gwreiddiol) yn dweud eu bod wedi profi mwy o achosion o ymddygiad heriol o'i gymharu â'r llynedd ac o'r grŵp hwn mae 80% o staff yn dweud bod hyn yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Hefyd, mae 70% o staff yn dweud bod ymddygiadau heriol gan rieni a gwarcheidwaid wedi cynyddu, sydd hefyd wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Fel rwyf wedi'i ddweud yn glir, mae unrhyw fath o drais neu gamdriniaeth yn erbyn staff neu ddysgwyr yn ein hysgolion yn gwbl annerbyniol. Fodd bynnag, mae rheswm bob tro pam fo plentyn yn ymddwyn yn wael ac rydw i eisiau inni symud oddi wrth system sy'n cosbi ymddygiad gwael i un sy'n ceisio deall a delio â'r cyflyrau sylfaenol sy'n dod i'r fei ymddygiad gwael. Gallai hyn gynnwys problemau gydag iechyd meddwl a lles, anghenion dysgu ychwanegol heb eu diwallu, argaeledd gwasanaethau cymorth dysgu penodol, neu effeithiau costau

byw sy'n cynyddu'n ddiddiwedd. Weithiau mae'r ymddygiad i wneud ag agweddau rhieni a dysgwyr tuag at yr ysgol yn fwy cyffredinol.
Mae rhai plant yn cymryd mwy o amser i ddysgu sut i gadw eu hymddygiad dan reolaeth, sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnynt i reoli eu hemosiynau yn briodol.

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd amser i ddeall beth sy'n achosi ymddygiad gwael. Rydym yn  cefnogi defnyddio arferion adferol a rhai sydd wedi'u llywio gan drawma mewn ysgolion. Dylid mynd i'r afael ag ymddygiad gwael drwy weithredu polisïau ymddygiad priodol yn gyson a thrwy gymryd camau i ddeall y rhesymau sydd wrth eu gwraidd.

Cynhaliwyd ein Huwchgynhadledd Ymddygiad ym mis Mai lle clywais gan ysgolion a cholegau a phartneriaid eraill am y materion ehangach y maent yn eu hwynebu y tu hwnt i drais. Yn union fel y llwyddwyd i'w wneud yn y ford gron gynharach ar ddiogelwch a thrais, helpodd yr Uwchgynhadledd i sefydlu camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartïon eraill i fynd i'r afael ô phob agwedd ar ymddygiad gwael. Nododd y Ford Gron a'r Uwchgynhadledd Ymddygiad gychwyn strategaeth wedi'i seilio ar bartneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad yn ein hysgolion a cholegau.

Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gynnal arolwg o ddarparwyr addysg a staff cymorth a chyhoeddi'r canlyniadau yn gynharach eleni. Maent yn ategu canfyddiadau Education Support gyda bron pob ymatebydd yn adrodd cynnydd yn amrywiaeth, ystod, maint ac amlder ymddygiadau heriol neu aflonyddgar ers y pandemig coronafeirws (COVID-19). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ymddygiad dysgwyr neu efallai wedi gwaethygu tueddiadau a oedd yn bresennol eisoes sydd yn ei dro wedi arwain at aflonyddwch yn digwydd yn amlach ac mewn ffyrdd mwy amrywiol mewn lleoliadau ysgol.

Roedd y pryderon mwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr yn cynnwys aflonyddwch ar lefel isel, sydd, er nad yw mor ddifrifol ag ymosodiad corfforol, yn dal i fod yn her sylweddol o ran cynnal awyrgylch sy'n ffafriol i ddysgu. Adroddodd dros hanner yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd bryderon ynghylch disgyblion yn dod ag arfau i'r ysgol. Er mai dim ond un o bob pump (19.5%) ddisgrifiodd y pryderon hyn fel rhai 'difrifol' mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynghylch diogelwch a thawelwch meddwl dysgwyr a staff. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei amlygu ymhellach yn dilyn y digwyddiad gyda chyllell yn Ysgol Dyffryn Aman y llynedd.

Disgrifiwyd ymosodiadau corfforol ar athrawon fel pryder difrifol gan bron i hanner (47.7%) y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd, gan dynnu sylw ymhellach at yr angen am fesurau effeithiol i amddiffyn athrawon a sicrhau eu lles.

Nododd bron i naw o bob deg ymatebydd (88.4%) sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd fod trais rhwng disgyblion yn bryder iddynt. Fodd bynnag, roedd y

mwyafrif o ymatebwyr (47.5%) yn ystyried hyn yn fân bryder yn hytrach nag yn bryder difrifol.

Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol a gan rieni, wrth fynd i'r afael ag ymddygiad heriol ac aflonyddgar gan ddysgwyr. Adroddodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr gynnydd yn y cyfrannau o ryngweithiadau negyddol â rhieni. Nododd dros 70% ohonynt gynnydd yn nwyster y rhyngweithiadau hyn.

Adeiladwyd ar y themâu hyn yn ystod yr Uwchgynhadledd Ymddygiad ac rwyf wedi ymrwymo i wrando ac i ddod o hyd i atebion mewn partneriaeth. Mae'r Pum Cam Gweithredu'n Ddiymdroi ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad, a gyhoeddwyd ar ôl yr Uwchgynhadledd, yn nodi'n glir fy ymrwymiad i ddeialog barhaus, agored gydag ymarferwyr, rhieni, a phlant a phobl ifanc. Rwy'n cydnabod bod newid cynaliadwy yn dibynnu ar wrando ar y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o'n system addysg.  Dyna pam yr wyf yn bwrw ymlaen â rhaglen ehangach o ymgysylltu, gyda ffocws penodol ar godi lleisiau ymarferwyr, dysgwyr a rhieni.

Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth wrth i’r gwaith fynd rhagddo.

**Atodiad B**

**C2 Sut mae'r gwaith yn mynd rhagddo wrth weithredu'r argymhellion a dderbyniwyd o adroddiad Estyn ym mis Mehefin 2023 ar aflonyddu rhywiol gan gyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn colegau addysg bellach, a'i adroddiad yn 2021 ar y mater mewn ysgolion uwchradd.**

| |
|---|
| **Argymhelliad 6:**<br>Ei gwneud yn glir pa agweddau ar arweiniad addysg Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol sy'n berthnasol i golegau addysg bellach a chadarnhau unrhyw wahaniaethau rhwng y gofynion mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.<br><br>ac |
| **Argymhelliad 7:**<br>Darparu arweiniad priodol i golegau i'w helpu i fabwysiadu ymagwedd gydlynus a chyson tuag at gofnodi a chategoreiddio achosion o aflonyddu rhywiol. |

| |
|---|
| Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Mae Medr yn parhau i gydweithio â cholegau, yn enwedig drwy Grŵp Profiad y Dysgwyr Colegau Cymru, i nodi meysydd ffocws sy'n bodoli ar hyn o bryd neu'n dod i'r amlwg i helpu colegau i fynd i'r afael â thrais rhywiol, aflonyddu a chamdriniaeth.<br><br>Yn dilyn cyfarfod y colegau yn yr hydref, byddwn yn gweithio tuag at ariannu cam nesaf y prosiect, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Estyn ar gamdriniaeth gan gyfoedion ac adolygiad diweddarach Estyn o ymddygiad dysgwyr Estyn a gyhoeddwyd heddiw. Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach - Estyn. |

**C3 Cynnydd Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r argymhellion a ganlyn a dderbyniwyd, a dderbyniwyd mewn egwyddor neu a dderbyniwyd yn rhannol o'n hadroddiad ym mis Gorffennaf 2022 (gan gynnwys unrhyw gyflawniadau neu heriau sylweddol a wynebwyd wrth eu gweithredu, neu lle mae'r argymhellion wedi cael eu disodli gan ddigwyddiadau, newidiadau polisi neu fel arall):**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru ac Estyn fabwysiadu/parhau i ddefnyddio’r diffiniad o aflonyddu rhywiol a ddefnyddir gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021 ‘Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon’, gan gynnwys yr enghreifftiau penodol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y defnyddiodd Estyn yn ei waith gyda disgyblion. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>**Wedi'i gyflawni.** Mae'r cynllun gweithredu amlasiantaeth yn mabwysiadu'r diffiniad hwn a dyma fydd y diffiniad a ddefnyddir wrth gomisiynu unrhyw ymchwil neu adolygiadau pellach yn y maes hwn. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 2:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl ifanc ledled Cymru i gyd-gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Mae rhoi’r lle canolog i blant yn y broses o lunio polisi, sy’n golygu eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith, yn bwysig i Lywodraeth Cymru. Mae’n rhoi llais iddynt wrth i bolisïau sy’n effeithio arnynt gael eu creu; ac rydym wedi ymrwymo hefyd i’w cynnwys o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i fynegi eu barn, eu teimladau a’u dymuniadau ym mhob mater sy’n effeithio arnynt, a bod y safbwyntiau hynny yn cael eu cymryd o ddifrif.<br><br>Er mwyn cyflawni’r gofyniad hwn, byddwn yn estyn allan at blant a phobl ifanc mewn amrywiol ffyrdd, ac rydym eisoes yn gwneud hynny. Yng nghyd-destun y materion a godir yn yr adroddiad hwn, mae’n bwysig ein bod yn ymgysylltu â nifer fawr o blant a phobl ifanc, a’n bod yn parhau i arloesi yn ein dulliau o wneud hynny. Bydd hyn nid yn unig yn ein galluogi i gofnodi safbwyntiau cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl, ond bydd hefyd yn sicrhau bod y lleisiau a’r profiadau hynny yn cynrychioli’r amrywiaeth ymhlith pobl ifanc Cymru. |

| |
|---|
| Un enghraifft o’r ymgysylltu sy’n digwydd ar hyn o bryd yw cydweithredu â Phlant yng Nghymru, er mwyn ymgorffori barn y plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ar Bobl Ifanc er mwyn helpu i ddatblygu ein hymateb i’r argymhelliad hwn. Byddwn hefyd yn ceisio cysylltu â chyfranogwyr eraill Llais Ifanc, a nodi sefydliadau addas sydd â gwybodaeth arbenigol ac sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyd-lunio'r ymateb.<br><br>Mae Grŵp Ieuenctid Cadw’n Ddiogel Ar-lein yn parhau yn 2025-26, a bydd yr aelodau newydd a benodwyd yn dod ynghyd ar gyfer eu cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd. Mae’r sesiynau a hwylusir yn gyfle i aelodau rannu eu profiadau ar-lein, trafod tueddiadau sy’n datblygu a chodi pryderon. Mae’r mewnwelediad hwn yn help i lywio’r ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi dysgwyr, eu hysgolion a’u teuluoedd gyda materion diogelwch ar-lein o bob math. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, wedi'i chyd-gynllunio â'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc, yn targedu dysgwyr ledled Cymru (gweler Argymhelliad 2), i wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn. Diweddarwyd ddiwethaf Gorffennaf 2025.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu prosiect Our Streets Now, sy'n gweithio gydag ysgolion, staff a phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau cymorth sydd ar gael. Daeth y prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2025, ac mae'r canfyddiadau'n cael eu hystyried gyda’r bwriad o fabwysiadu dull sefydlog ar draws yr holl Awdurdodau Lleol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 4:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd, gan fanteisio ar arbenigedd ac arweiniad gan elusennau plant, academyddion a Chomisiynydd Plant Cymru fel y bo’n briodol. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Rydym yn y broses o gomisiynu prosiect ymchwil a fydd yn archwilio sut mae plant sydd heb gyrraedd eu harddegau yn deall rhywedd a deinameg grym rhywiol gyda'u cyfoedion, yn yr ysgol ac ar-lein. Gan ddefnyddio dulliau cyfranogol, bydd yr astudiaeth yn mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth am brofiadau plant o fwlio ac aflonyddu ar sail rhywedd, gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a lleisiau plant. Rydym yn rhagweld y bydd y prosiect yn cynnwys tua 100 o blant 9-11 oed o gymysgedd amrywiol o ysgolion cynradd ledled Cymru. |

| |
|---|
| Bydd allbynnau yn cynnwys adroddiad ymchwil, crynodeb gweithredol, ac adnodd wedi'i gyd-lunio i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad A. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 5:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data gan ysgolion ar aflonyddu rhywiol yn benodol bob mis, yn dadansoddi’r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yn adrodd ar eu canfyddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid gwneud y canlynol o ran y data: eu casglu ar sail y diffiniad o aflonyddu rhywiol a fabwysiadwyd gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021; a’u dadansoddi yn ôl naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Rhoddwyd sylw i hyn yn yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft y Canllawiau gwrthfwlio Hawliau, Parch, Cydraddoldeb a gynhaliwyd rhwng 19 Mai 2025 a 31 Gorffennaf 2025. Rydym nawr yn dadansoddi'r ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig terfynol ym mis Ionawr 2026. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn mynd i'r afael â materion aflonyddu rhywiol gan gyfoedion a amlygwyd yn adroddiad Estyn ym mis Rhagfyr 2021 ac yn pwysleisio pwysigrwydd casglu data, ac mae nifer o dimau polisi mewn trafodaethau i adolygu casglu data mewn ysgolion. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 6:**<br>Fel rhan o’i fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau ysgol arferol, rhaid i Estyn gynnwys, erbyn mis Ionawr 2023 fan bellaf, ystyriaeth o ddulliau ysgolion o gadw cofnodion o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn benodol, sut mae ysgolion yn archwilio’r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac i ba raddau y mae’r data hyn yn llywio’r gwaith o ddatblygu ymyriadau yn yr ysgol.<br><br>ac<br><br>**Argymhelliad 12:**<br>Mae’n rhaid i Estyn gynnwys ystyriaeth benodol yn ei fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau arferol o ysgolion o’r modd y mae ysgolion a cholegau yn ymateb i ddysgwyr sydd wedi adrodd am aflonyddu rhywiol neu wedi’i brofi, ac yn eu cefnogi, ac yn mynd i’r afael ag ymddygiad unigolion sydd wedi cyflawni’r aflonyddu rhywiol. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>**Wedi’i gwblhau.** |

Er mai argymhellion i Estyn eu gweithredu yw'r ddau hyn, maent wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol inni.

Mae diogelu yn elfen allweddol o waith Estyn. Mae Estyn yn gwerthuso'r diwylliant diogelu ym mhob arolwg ysgol ac uned cyfeirio disgyblion. Fel rhan o hyn, maent yn ystyried dulliau'r darparwyr o ddelio â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Wrth werthuso diwylliant diogelu, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau mae arweinwyr a llywodraethwyr yn dal eu hunain yn atebol am hyrwyddo tegwch a mynd i'r afael ag aflonyddu, ac a yw llais y dysgwr yn llywio penderfyniadau strategol.

Wrth arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol, rhaid i arolygwyr ystyried i ba raddau mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo tegwch yn y system addysg, a chynnwys hynny yn yr adroddiad. Rhaid i arolygwyr asesu pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac atal a mynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio, gan gynnwys mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig.

Mae ysgolion yn cynnal mwy a mwy o arolygon eu hunain a/neu yn defnyddio canfyddiadau arolwg cenedlaethol y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) i nodi materion fel aflonyddu rhywiol gan gyfoedion yn eu lleoliadau eu hunain, ac, yn yr achosion gorau, addasu eu darpariaeth ABCh yn unol â hynny. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae darparwyr yn gwrando ar lais y dysgwyr yn systematig, gan gynnwys drwy arolygon, grwpiau ffocws a chynghorau ysgol a sut maent yn dangos i ddisgyblion bod adborth yn arwain at welliannau diriaethol mewn darpariaeth a diwylliant. Ceir hefyd enghreifftiau o sut mae ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cofnodi gwybodaeth fanwl am agweddau ar fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, i gefnogi disgyblion ac ymateb yn rhagweithiol i ymddygiad annerbyniol. Fodd bynnag, gallai darparwyr elwa o arweiniad pellach ynghylch yr hyn a ddisgwylir mewn perthynas â chadw cofnodion. Byddai hyn yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb yn y cofnodion a gedwir gan ysgolion ac awdurdodau lleol am y mathau o fwlio a brofir gan bobl ifanc.

Y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2024-25) cwblhaodd Estyn ddau adolygiad thematig, gan ganolbwyntio ar ymddygiad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Mae'r adolygiad thematig ar ymddygiad mewn ysgolion uwchradd yn cynnwys adnoddau ar gyfer ysgolion sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo ymddygiad a pherthynas gadarnhaol. Rhannwyd canfyddiadau ac adnoddau'r adolygiad thematig hwn gyda darparwyr yn ystod hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid haf 2025 (mae arolygydd cymheiriaid ym mron pob ysgol uwchradd yng Nghymru). Y flwyddyn academaidd hon, mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig o berthnasoedd iach, a fydd yn dilyn yr adolygiad thematig ar yr un pwnc a gynhaliwyd yn 2017.

Bydd Estyn yn sicrhau bod canfyddiadau adolygiadau thematig yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer effeithiol o ran atal, cadw cofnodion ac ymateb, a bod adnoddau'n cael eu dosbarthu i ddarparwyr i gefnogi gwelliant. Byddwn hefyd yn archwilio a yw darparwyr yn gwerthuso effaith hirdymor eu hymyriadau, gan gynnwys gostyngiadau mewn digwyddiadau a gwelliannau i les dysgwyr.

**Argymhelliad 7:**
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw adolygiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach ac ysgolion cynradd yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion a cholegau yn casglu, yn categoreiddio ac yn dadansoddi data ar aflonyddu rhywiol i nodi tueddiadau a datblygu ymyriadau yn yr ysgol/coleg.

Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:

Mae swyddogion mewn trafodaethau gydag Arweinwyr Awdurdodau Lleol i nodi ffyrdd o wella'r broses o adrodd am fwlio ac aflonyddu mewn ysgolion a dadansoddi'r wybodaeth honno.

Mae'r prosiect ar gamdriniaeth gan gyfoedion (POPA), dan arweiniad Coleg Caerdydd a'r Fro, newydd orffen ei ail flwyddyn a bydd yn cael ei ariannu gan Medr am drydedd flwyddyn.

Mae Medr yn parhau i gydweithio â cholegau, yn enwedig drwy Grŵp Profiad y Dysgwyr Colegau Cymru, i nodi meysydd ffocws sy'n bodoli ar hyn o bryd neu'n dod i'r amlwg i helpu colegau i fynd i'r afael â thrais rhywiol, aflonyddu a chamdriniaeth.

Yn dilyn cyfarfod y colegau yn yr hydref, byddwn yn gweithio tuag at ariannu cam nesaf y prosiect, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Estyn ar gamdriniaeth gan gyfoedion ac adolygiad diweddarach Estyn o ymddygiad dysgwyr Estyn a gyhoeddwyd heddiw. Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach - Estyn.

**Argymhelliad 8:**
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu am achosion sylfaenol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion – fel portreadau afiach o berthnasoedd ac ymddygiadau rhywiol ar draws cymdeithas sy’n cael eu gwaethygu gan bornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau ar-lein ac eraill – fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol cyfredol a’r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol.

Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:

O fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn thema drawsbynciol fandadol i bob dysgwr, gan sicrhau bod y dysgu hanfodol hwn ar gael iddynt. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyflwyno dysg greiddiol sy’n briodol i ddatblygiad y dysgwr, gyda’r nod o fynd i’r afael â materion difrifol fel bwlio, aflonyddu rhywiol a gwahaniaethu. Mae diogelwch ar-lein yn nodwedd allweddol benodol o fewn y Cod, ac mae addysgu pobl ifanc ar sut i ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd ddiogel yn fater trawsgwricwlaidd. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ym mhob ysgol gynradd ac ym mlynyddoedd 7, 8, 9 a 10 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, a bydd yn cael ei chyflwyno'n llawn ar draws pob ysgol a lleoliad erbyn mis Medi 2026. I gefnogi ysgolion ymhellach gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, cyhoeddwyd grant o £4.2 miliwn dros dair blynedd yn ddiweddar ar gyfer Stori Cymru, er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol, arbenigedd a chyngor cyson yn genedlaethol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i bob ysgol. Bydd hyn yn gofalu bod ysgolion yn cael cefnogaeth glir, ddiamwys i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn eu gofynion cyfreithiol ac yn rhoi’r gefnogaeth briodol i blant.

Rydym yn darparu cyngor pwrpasol i blant a phobl ifanc yn ardal Cadw’n Ddiogel Ar-lein ar Hwb, gan drafod aflonyddu rhywiol ar-lein ochr yn ochr â phwysau gan gyfoedion, megis deinameg sgwrsio grŵp, eu delwedd o’u corff, dylanwadau ar-lein a rhannu lluniau noeth. Nod yr adnoddau hyn yw datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o’r materion hyn a’u grymuso i ofyn am gymorth os ydynt mewn sefyllfa anniogel neu sy’n peri gofid.

Ym mis Ebrill 2025 cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg â deg aelod o'r Grŵp Ieuenctid Cadw'n Ddiogel Ar-lein (pobl ifanc 13-16 oed) i drafod pynciau sy'n deillio o gyfres ‘Adolescence’ ar Netflix. Dangosodd y trafodaethau fod personoliaethau dylanwadol ar-lein yn gallu effeithio'n sylweddol ar agweddau ac ymddygiadau pobl ifanc (gan gynnwys agweddau misogynistaidd a stereoteipiau rhywedd niweidiol). Rydym wrthi’n trafod gydag Adnodd y bwriad i ddatblygu pecyn i gefnogi addysgu a dysgu ynghylch perthnasoedd iach, a mynd i’r afael â stereoteipiau rhywedd niweidiol.

| |
|---|
| **Argymhelliad 10:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal adolygiad o'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd ac amseroldeb y cymorth hwnnw. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Phlant yng Nghymru, yn parhau i ymgorffori barn y plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ar Bobl Ifanc er mwyn helpu i ddatblygu'r ymateb hwn. Byddwn hefyd yn ceisio cysylltu â chyfranogwyr eraill Llais Ifanc, a nodi sefydliadau addas sydd â gwybodaeth arbenigol ac sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyd-lunio'r ymateb.<br><br>Rydym wedi comisiynu prosiect Our Streets Now, sy'n gweithio gydag ysgolion, staff a phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau cymorth sydd ar gael. Daeth y prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2025, ac mae'r canfyddiadau'n cael eu hystyried ar gyfer mabwysiadu dull safonedig ar draws yr holl Awdurdodau Lleol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 11:** 0<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion a cholegau yn creu diwylliant lle mae aflonyddu rhywiol yn annerbyniol, bod adroddiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod yr ymateb iddynt yn brydlon a chyson.<br><br>ac<br><br>**Argymhelliad 13:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gael i ysgolion er mwyn i bob aelod o staff ysgol gael hyfforddiant ar adnabod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ymateb iddo ac adrodd arno. Dylai'r cyllid hwnnw gynnwys darpariaeth i ysgolion wneud trefniadau cyflenwi ar gyfer athrawon sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth, os oes angen. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Mae datblygu perthnasoedd iach yn rhan o'r Cod gorfodol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. I gefnogi ysgolion ymhellach gyda'r pwnc, fel rhan o raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru, dyfarnwyd grant o £4.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Stori Cymru, er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol, arbenigedd a chyngor cyson yn genedlaethol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i bob ysgol. Bydd hyn yn gofalu bod ysgolion yn cael cefnogaeth glir, ddiamwys i addysgu a dysgu am berthnasoedd iach, a gallu ymateb i faterion sy'n codi. |

Mae ein canllawiau statudol, y “Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol” yn cefnogi ysgolion a lleoliadau addysg i adolygu llesiant dysgwyr o oe0dran cynradd i 18 oed (lle maent yn astudio mewn ysgolion), athrawon, staff ysgolion a chymuned gyfan yr ysgol. Yn dilyn asesiad gan yr ysgol, dylai weithredu diwylliant, polisïau ac arferion rhagweithiol i sefydlu egwyddorion eu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol. Dylai hyn gefnogi cydberthynas iach rhwng dysgwyr, a chynnwys camau i gefnogi dysgwyr unigol sy'n profi aflonyddu gan gyfoedion, neu fathau eraill o ymddygiad neu wahaniaethu sy’n andwyol i lesiant a iechyd meddwl dysgwyr.

Rydym yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rôl gynyddol bwysig ym mywydau plant a phobl ifanc, ac mae potensial iddo arwain at gam-drin. I sicrhau bod holl staff ysgolion yn ymwybodol o’r adnoddau a’r canllawiau sydd ar gael iddynt i’w cefnogi i ddeall, atal ac ymateb yn hyderus i achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein, aeth Llywodraeth Cymru ati yn 2022-23 i ariannu’r gwaith o ddatblygu pecyn hyfforddi cynhwysfawr. Dyfarnwyd y contract i’r arbenigwyr mewn diogelwch ar-lein, Childnet, a buom yn cydweithio’n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau ymgyrch strategol gref a darpariaeth gyson ledled Cymru.

Roedd y pecyn hyfforddi yn cynnwys:0

1. **Hyfforddiant ymarferol ar gyfer Swyddogion Diogelu Dynodedig**, gan ymgorffori gweithgareddau senario. Cynigiwyd yr hyfforddiant hwn i bob un o’r 22 awdurdod lleol rhwng Rhagfyr a Mawrth 2023 (cwblhaodd 274 o ymarferwyr addysg yr hyfforddiant).

2. **Modiwl hyfforddi ar-lein**, a gyhoeddwyd ar Hwb ym mis Mawrth 2023 ar gyfer pob ymarferydd addysg. Edrychwyd ar y modiwl dros 3,000 o weithiau.

Gan adeiladu ar y sylfaen hon, ac mewn ymateb i ganfyddiadau Estyn ar aflonyddu rhywiol gan gyfoedion mewn colegau AB, cyflwynwyd dwy sesiwn hyfforddi ychwanegol ym mis Chwefror 2024. Anelwyd y sesiynau hyn ar gyfer ysgolion a cholegau yng Nghymru, i helpu staff i ddeall, atal ac ymateb yn well i achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein o fewn eu lleoliadau. Aeth tua 175 o ymarferwyr i’r sesiynau.

| |
|---|
| **Argymhelliad 14:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr ag Estyn, academyddion perthnasol, a'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2) i gasglu a choladu enghreifftiau o addysg rhyw a pherthnasoedd y mae dysgwyr yn eu hystyried yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, gyda'r bwriad o creu cronfa o adnoddau ar gyfer ysgolion a cholegau. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Rydym yn parhau i ariannu'r prosiect Sbectrwm i ddarparu sesiynau ataliol ac addysgol ynghylch addysg berthynas a rhywioldeb mewn ysgolion, i ferched a bechgyn, staff a rhieni. Yn 2023-24, ymgysylltodd dros 30,000 o ddisgyblion a 2,000 o aelodau staff ysgolion â'r prosiect. Mae canllawiau helaeth hefyd ar gael i gefnogi lleoliadau addysg ar atal ac ymateb i aflonyddu a cham-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ein canllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.<br><br>I gefnogi ysgolion ymhellach gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fel rhan o raglen cymorth grant y Cwricwlwm, ym Mehefin 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant o £4.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Stori Cymru, a hynny ar gyfer prosiect Addysg Cwtsh er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol, arbenigedd a chyngor cyson yn genedlaethol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i bob ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydlynydd rhanbarthol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 15:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol a/neu ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion bolisïau clir ar ddefnydd derbyniol gan ddysgwyr o ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, bod y polisïau hynny'n cael eu cyfathrebu'n dda i ddysgwyr, staff a rhieni, a'u bod yn cael eu gorfodi'n gyson gan staff yr ysgol. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Ysgolion sy'n gyfrifol am osod eu polisïau ymddygiad eu hunain, fodd bynnag, mae cymorth ar gael drwy ardal Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb. Wedi'i gynllunio i gefnogi diogelwch ar-lein mewn addysg, mae'r ardal Cadw'n Ddiogel Ar-lein ar Hwb yn llawn adnoddau defnyddiol i staff addysgu eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ac mae'n ffynhonnell o gymorth ac arweiniad i ddysgwyr a rhieni a gofalwyr.<br><br>Yn dilyn yr Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2025, i weithredu camau ar unwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad mewn ysgolion a chyflymu'r broses o gynnwys partneriaid allweddol, arbenigwyr ac ymarferwyr, lansiwyd fforwm newydd ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion ym mis Gorffennaf. |

| |
|---|
| Ymhlith aelodau'r fforwm mae ystod eang o randdeiliaid – ymarferwyr, penaethiaid, cynrychiolwyr y trydydd sector, awdurdodau lleol, y senedd ieuenctid ac ymchwilwyr, i sicrhau amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn llywio datblygiadau polisi i'r dyfodol.<br><br>Rhoddwyd y dasg i'r fforwm o ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio a rheoli ffonau symudol mewn ysgolion, mewn ffordd sy'n cefnogi amgylcheddau dysgu cadarnhaol, lles myfyrwyr a diogelu myfyrwyr.<br><br>Mae'r fforwm yn cyfarfod bob mis rhwng Medi a Rhagfyr i gyflawni'r gwaith hwn yn fuan. Caiff canllawiau newydd a chymorth cychwynnol i ysgolion ar ffonau symudol eu lansio ddechrau'r gwanwyn.<br><br>Mae'r datblygiadau hyn hefyd yn adeiladu ar waith grŵp ffonau symudol ar lefel Brydeinig sy'n rhannu ymchwil ac arferion gorau mewn perthynas â'r mater cyffredin hwn. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 17:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i greu a chynnal cronfeydd data o sefydliadau y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ysgolion a cholegau a allai eu cynorthwyo yn eu hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>**Wedi'i gwblhau.** Nodwyd platfform Dewis Cymru i gynnal yr adnoddau hyn gan y Grŵp Diogelu mewn Addysg. Nododd aelodau'r Grŵp sefydliadau perthnasol i ddarparu'r adnoddau sy'n cael eu hadolygu bob chwe mis gan yr holl awdurdodau lleol. Mae'r broses hon bellach wedi'i sefydlu, a chyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau adolygiadau a diweddariadau parhaus. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 18:**<br>Fel rhan o'i gwaith ehangach i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, rhaid i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth sy'n targedu rhieni a theuluoedd. |
| Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:<br><br>Mae codi ymwybyddiaeth o'r pryderon hyn yn bwysig. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, mae'n hanfodol bod gwybodaeth yn cael ei chynllunio a'i theilwra ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac athrawon. |

Yn yr un modd, wrth ddelio â mater sensitif fel ymosodiad rhywiol ymhlith cyfoedion, mae angen inni ystyried risg canlyniadau anfwriadol, neu ysgogi ymateb mewn plant a allai arwain at orbryder, trawma neu emosiynau negyddol eraill. At hyn, yn aml iawn, nid yw ymwybyddiaeth ynddi ei hun yn arwain at weithredu; gellir camddeall negeseuon, ac mae'n anodd symleiddio gwybodaeth gymhleth heb golli manylion hanfodol.

Mae angen ystyried pob neges, felly, yng nghyd-destun gwaith ehangach wrth gefnogi newid. Dyma rai enghreifftiau:

Mae Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn un o bedair ymgyrch o dan brif ymgyrch rhianta a theuluoedd Llywodraeth Cymru, Teulu Cymru - https://www.llyw.cymru/teulu-cymru, a lansiwyd ym mis Ebrill 24 ac sy'n cael ei hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, Facebook ac Instagram. Mae gwefan Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn parhau i gyfeirio at sefydliadau a gwybodaeth i gefnogi teuluoedd sy'n profi achosion o aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, gan gynnwys teuluoedd pobl ifanc LHDTC+. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r tîm LHDTC+ i adolygu ac ychwanegu dolenni perthnasol i'r wefan.

Fel rhan o Grŵp Rhwydwaith Cenedlaethol yr Heddlu ar Niwrowahaniaeth, mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn datblygu adnoddau penodol i gefnogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gefnogi dioddefwyr niwrowahanol a'r rhai sy'n dystion i aflonyddu rhywiol. Mae Cymuned Ymarfer ar y pwnc hwn wedi'i threfnu ar gyfer 2025 i godi ymwybyddiaeth a chefnogi datblygiad yr adnoddau pwysig hyn. Dyddiad i'w gadarnhau.

Nod addysg orfodol ar gydberthynas a rhywioldeb yw helpu dysgwyr i feithrin cydberthnasau iach, herio ymddygiad niweidiol, a chadw'n ddiogel ar-lein. I gryfhau'r gefnogaeth i ysgolion a lleoliadau, rydym wedi buddsoddi £4.2 miliwn ym Mhrosiect Addysg Cwtsh Stori Cymru, gan ddarparu cynghorwyr dynodedig ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i gefnogi pob awdurdod lleol. Mae hyn yn gofalu bod ysgolion (a rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr) yn cael cefnogaeth ac adnoddau o ansawdd, sy'n chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol ledled Cymru.

| **Argymhelliad 19:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol erbyn Ionawr 2023 fan bellaf. |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor. Diweddariad Hydref 2025:<br><br>Mae oedi i'r ymgynghoriad i sicrhau bod y canllawiau drafft yn ystyried yn llawn y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, a'u bod yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion plant a phobl ifanc ac yn adlewyrchu lleisiau rhieni. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ymgysylltu ag ystod eang o rieni i sicrhau bod eu blaenoriaethau yn cael eu hystyried yn llawn yn y canllawiau drafft. Rydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar adeg briodol pan fydd y canllawiau yn barod. Mae swyddogion hefyd yn edrych i weld sut y gellid cefnogi ysgolion i rannu arferion cynhwysol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn gallu dysgu. |

| **Argymhelliad 20:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddiogelwch a llesiant dysgwyr benywaidd. |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor. Diweddariad Hydref 2025:<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o becyn cymorth addysg Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod 2025. Gan fod y cynnwys a'r adnoddau wedi dyddio, mae pecyn cymorth newydd, symlach yn cael ei ddatblygu gydag arweinwyr polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei adolygu gan Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn yr hydref cyn ei ryddhau.<br><br>Yn dilyn estyniad o flwyddyn, parhaodd tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i ariannu'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ystod 2025/26. Mae ein llinell gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth 24/7 am ddim i bawb sy'n dioddef ac yn goroesi cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhai sy'n agos iddynt, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr.<br><br>Er mwyn helpu ysgolion i ymgysylltu â'u teuluoedd a'u cymunedau i helpu i nodi a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi, rydym wedi cyhoeddi prif ganllawiau Ysgolion Bro a chanllawiau atodol ar ymgysylltu â theuluoedd ac ymgysylltu â'r gymuned. |

Mae swyddogion yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Chymorth i Ferched Cymru ac yn hwyluso gwybodaeth am hyfforddiant penodol y gellir ei gael i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n delio â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Argymhelliad 21:**
Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cynllun gweithredu LHDTC+ erbyn hydref 2022 fan bellaf. Rhaid i'r cynllun gweithredu gydnabod maint ac effaith y broblem aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr LHDTC+.

Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:

**Wedi'i gyflawni.** Cyhoeddwyd fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ym mis Chwefror 2023.

**Argymhelliad 22:**
Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen yn gyflym â'i gwaith i gyhoeddi cynllun gweithredu amlasiantaethol i fynd i'r afael â phroblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:

**Wedi'i gyflawni.** Cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu ar aflonyddu rhywiol gan gyfoedion mewn lleoliadau addysg ar 24 Ionawr 2024.

**Argymhelliad 23:**
Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022, ac yna bob chwe mis wedi hynny, ynghylch niferoedd a chyfrannau'r awdurdodau lleol ac ysgolion sydd ag arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle.

Derbyn. Diweddariad Llywodraeth Cymru Hydref 2025:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, sy'n chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ysgolion a lleoliadau drwy gynnig a chydlynu cefnogaeth, cyngor a chanllawiau o fewn eu hardaloedd. Yn adroddiad blynyddol y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd hanfodol cymorth proffesiynol parhaus ar bob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

I gefnogi ysgolion ymhellach gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fel rhan o raglen cymorth grant y Cwricwlwm, ym Mehefin 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant o £4.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Stori Cymru, a hynny ar gyfer prosiect Addysg Cwtsh er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol, arbenigedd a chyngor cyson yn genedlaethol ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i bob ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydlynydd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.

**Argymhelliad 24:**
Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r Senedd graffu ar unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor. Diweddariad Hydref 2025

Ar 30 Mawrth 2022, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Memorandwm 1 – ar y Bil gerbron y Senedd. Mae pum Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'u gosod i gyd, gan fod yna elfennau o'r Bil sy'n cyffwrdd â materion datganoledig, ac sy'n galw, felly, am gydsyniad y Senedd. Mae'r broses hon hefyd yn golygu cyflwyno cynnig i ofyn am gytundeb y Senedd ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys ym Mil y DU o fewn meysydd datganoledig.

Cytunodd Aelodau ar y cynnig ar gyfer y Bil drwy bleidlais ar 27 Mehefin 2023, a gwnaeth Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth sylwadau cychwynnol ac i gloi.

Ers i Ddeddf Diogelwch Ar-lein gael Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023, Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein. Yn rhinwedd y rôl hon, ac er mwyn helpu i sefydlu'r rheoliadau newydd, mae Ofcom wedi ymgymryd â sawl ymgynghoriad ers i'r Ddeddf gael ei phasio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bob ymgynghoriad, a byddwn yn parhau i weithio gydag Ofcom ar welliannau pellach i'r Codau.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/DB/2844/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

27 Tachwedd 2025

Annywl Buffy and Jenny,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 5 Tachwedd ynghylch yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r adroddiad “Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal”.

Yn eich llythyr, gofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch 20 Argymhelliad yr Adroddiad, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd, y rhai a dderbyniwyd yn rhannol, a'r rhai a wrthodwyd. Rwy'n falch o'r cynnydd rydym yn ei wneud ac amgaeaf yr wybodaeth ddiweddaraf am bob Argymhelliad sy'n dangos sut y mae'r Adroddiad hwn wedi sbarduno newid. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod sawl haen i'r gwaith hwn a bod llawer o gyd-ddibyniaeth. Oherwydd hyn, bydd angen parhau â’r gwaith yn nhymor nesaf y Senedd.

Roedd eich llythyr hefyd yn canolbwyntio ar y defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid, a godwyd gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant. Fel y nodwyd yn gywir yn eich adroddiad, mae data cyfyngedig ynghylch y Gorchmynion hyn mewn perthynas â phlant, a chytunwyd i ymchwilio ymhellach i hyn. Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn o dan Argymhelliad 20. Fodd bynnag, mae hwn yn fater sy'n peri pryder imi ac rydym yn gweithio gydag eraill i ymdrin â hyn ymhellach. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gennym ddata dibynadwy a gesglir yn rheolaidd am geisiadau ar gyfer Gorchmynion Amddifadu o Ryddid sy'n ymwneud â phlant o Gymru, yn benodol ceisiadau gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo dull gweithredu Cymru gyfan i leihau nifer y ceisiadau a wneir drwy fuddsoddi mewn ymyrraeth gynharach a chymorth therapiwtig priodol i blant a phobl ifanc y mae angen y lefel hon o gymorth arnynt.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Os nad nawr, pryd?

## Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025



| |
|---|
| **Argymhelliad 1:**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n defnyddio'r dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant sy'n galluogi gwaith cymdeithasol effeithiol, sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal y llwythi achosion hynny ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru ar adeg adroddiad 2023: Gwrthod**<br><br>• Rheolir llwythi achosion ar lefel weithredol, a dylid dyrannu achosion yn seiliedig ar wybodaeth, profiad a llwyth gwaith y gweithwyr cymdeithasol, a'r hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd. Mae cymhlethdod achosion yn amrywio'n sylweddol, ac felly gallai fod yn wrthgynhyrchiol pennu uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.<br><br>• Mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes yn cynnal ymarfer cwmpasu, sy'n edrych ar ddulliau cynllunio'r gweithlu ar draws pob un o'r 22 awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau â sefydliadau cenedlaethol allweddol a rhanddeiliaid, ac adolygiad o arferion gorau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith i archwilio trefniadau hyfforddiant, cynefino a chymorth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ledled Cymru. Mae'r canllawiau presennol ar gyfer Y tair blynedd gyntaf o ymarfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso (gofalcymdeithasol.cymru) yn cynnwys cymhlethdod gwaith. Mae disgwyl adolygiad yn ddiweddarach eleni.<br><br>• I gydnabod y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â llwythi achosion, bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid gwaith cymdeithasol eraill yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddyrannu a rheoli llwythi achosion. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol i ddeall yn well sut maen nhw'n rheoli llwythi achosion ar hyn o bryd, gan gynnwys sefydliadau yng Nghymru a meysydd eraill lle mae polisïau o ran llwythi achosion eisoes ar waith, ac yn tynnu ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. |

| |
|---|
| Wrth wneud hynny, byddem yn ystyried sut i gefnogi'r hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd ac anghenion lles y gweithlu gwaith cymdeithasol. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid gwaith cymdeithasol eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut orau i gynnal y gwaith o ddyrannu a rheoli llwythi achosion. Ar hyn o bryd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau gweithredu unigol i hybu eu cynnydd o ran cynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o gysylltiadau arweiniol sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu, a hynny i alluogi cymorth gan gymheiriaid, dysgu gweithredol ac ystyried datblygu adnoddau cenedlaethol. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn y gwanwyn yn 2026.<br><br>• Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol ynghylch yr heriau y maent yn eu hwynebu, gan gynnwys llwythi achosion. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd, gan ofyn i'r gweithlu a rhanddeiliaid nodi pryderon, cryfderau ac arferion da presennol ledled Cymru. Wedyn, bydd y trafodaethau hyn yn llywio'r Cynllun Cyflawni Gweithlu Gwaith Cymdeithasol, a fydd yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn yr hydref yn 2026. |
| **Argymhelliad 2.**<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddechrau ymgynghori ar gynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ar uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Dylai'r cynllun digonolrwydd dynnu ar ganfyddiadau adroddiadau a gwblhawyd yn ddiweddar ar y gweithlu gofal cymdeithasol, ac adeiladu arnynt, a dylai ystyried y canlynol:<br>• llwybrau i mewn i waith cymdeithasol, gan gynnwys prentisiaethau a mathau eraill o lwybrau galwedigaethol i gymhwyster;<br>• cyflog, telerau ac amodau, gan gynnwys dichonoldeb a manteision ymestyn gweithio hyblyg;<br>• llwybrau gyrfa, gan gynnwys sut i gadw ymarfer rheng flaen ochr yn ochr â chamu ymlaen i rôl reoli neu arbenigedd fel ffordd o gadw profiad llwyth achosion a blaenoriaethu amser cyswllt gyda theuluoedd; a |

- dull cenedlaethol posibl o fynd i'r afael â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, megis yr un sy'n goruchwylio cyflogau ac amodau staff addysgu yng Nghymru, er mwyn sicrhau cysondeb ac uniondeb ar draws awdurdodau lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**

- Ar hyn o bryd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Strategaeth y Gweithlu 2023-26 a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu ail gam ei strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu, sef Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol. Mae'r ymgynghoriad yn caniatáu i weithwyr cymdeithasol a rhanddeiliaid gyfrannu at y materion allweddol sy'n effeithio arnynt, a rhoi adborth ynghylch ai'r blaenoriaethau arfaethedig yw'r rhai cywir. Mae Cynllun Gweithlu ar gyfer Gwaith Cymdeithasol: 2022 i 2025 Gofal Cymdeithasol Cymru yn dehongli'r strategaeth ar gyfer gwaith cymdeithasol, ac yn ei rhannu'n gamau gweithredu a nodau. Caiff y Cynllun hwn ei adolygu'n flynyddol, a byddwn yn cynnwys adborth o'r ymgynghoriad ehangach â'r gweithlu.

- Mae strategaeth y gweithlu yn edrych ar gyflenwad a siâp y gweithlu, ac mae gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd fel y cynnydd i'r fwrsariaeth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi dulliau cyfredol o gynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a meysydd sydd angen eu datblygu ar gyfer y dyfodol. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2023. Mae gwaith cwmpasu hefyd yn cael ei wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i archwilio dull mwy cyson o ymdrin â thelerau ac amodau gwaith cymdeithasol.

- Mae ystod eang o waith yn cael ei wneud i wella'r amodau gwaith, yr hyfforddiant a'r opsiynau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, megis y swyddi gwaith cymdeithasol cymwys (mynediad uniongyrchol) a noddir ar gyfer gweithwyr presennol i symud ymlaen i swyddi gwaith cymdeithasol, a llwybr ar gyfer ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol galwedigaethol i ennill cymhwyster ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r ffactorau uchod sy'n codi yn yr argymhelliad hwn gan weithio gyda'n rhanddeiliaid.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid gwaith cymdeithasol eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut orau i gynnal y gwaith o ddyrannu a rheoli llwythi achosion. Ar hyn o bryd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau gweithredu unigol i hybu eu cynnydd o ran

cynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o gysylltiadau arweiniol sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu, a hynny i alluogi cymorth gan gymheiriaid, dysgu gweithredol ac ystyried datblygu adnoddau cenedlaethol. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn y gwanwyn yn 2026.

- Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol ynghylch yr heriau y maent yn eu hwynebu, gan gynnwys llwythi achosion. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd, gan ofyn i'r gweithlu a rhanddeiliaid nodi pryderon, cryfderau ac arferion da presennol ledled Cymru. Wedyn, bydd y trafodaethau hyn yn llywio'r Cynllun Cyflawni Gweithlu Gwaith Cymdeithasol, a fydd yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn yr hydref yn 2026.

- Mae'r Cynllun Gweithlu ar gyfer Gwaith Cymdeithasol: 2022 i 2025 yn dehongli'r strategaeth yn benodol ar gyfer gwaith cymdeithasol ac yn ei rhannu'n nodau a chamau gweithredu. Caiff ei adolygu'n flynyddol ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru wrthi'n datblygu Cynllun Cyflawni Gwaith Cymdeithasol 2026-2029. Bydd gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dechrau yn y gwanwyn/haf yn 2026 er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni gwaith cymdeithasol wedi'i adnewyddu, a fydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol ehangach. Y nod yw cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Gwaith Cymdeithasol erbyn hydref 2026.

- Mae ystod eang o waith arall yn mynd rhagddo i wella'r amodau gwaith, hyfforddiant ac opsiynau gyrfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddi cymhwyso gwaith cymdeithasol a noddir (mynediad uniongyrchol) ar gyfer gweithwyr presennol i'w galluogi i symud ymlaen i swyddi gwaith cymdeithasol, a llwybr ar gyfer ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol galwedigaethol i ennill cymhwyster ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Rydym hefyd wedi ymrwymo o hyd i ariannu'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol. Mae data cynnar ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 yn dangos cynnydd yn y rhai sydd wedi manteisio ar y fwrsariaeth.

**Argymhelliad 3.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu 'profiad o fod mewn gofal' fel nodwedd warchodedig.

| |
|---|
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**<br><br>• Mae Deddf Cydraddoldeb (2010), sy'n pennu nodweddion gwarchodedig, yn fater sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r stigma a wynebir yn aml gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd hwn yn faes a drafodwyd gan Weinidogion gyda'r llysgenhadon ifanc yn yr uwchgynhadledd gyntaf ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ym mis Rhagfyr, y llynedd. Wrth lofnodi datganiad yr uwchgynhadledd ar 10 Mai, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag ddileu'r stigma hwn.<br><br>• Y Siarter Rhianta Corfforaethol, a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin, yw ein cam cyntaf tuag at gyflawni hyn. Un o brif egwyddorion y Siarter y bydd sefydliadau'n cofrestru i'w chyflawni yw "**Dileu Stigma –** byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond oherwydd eu profiad o fod mewn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i beidio â gorfod dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn". |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Fel yr amlinellais yn fy llythyr dyddiedig 15 Ebrill 2024 at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rydym yn cydnabod y stigma a deimlir gan rai plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn eu bywydau bob dydd. Trwy'r Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a'r Uwchgynadleddau Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal, rydym wedi cynnal sgyrsiau uniongyrchol â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a chlywed safbwyntiau gwahanol yn ogystal â'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol a allai fod yn gysylltiedig â chyflwyno hyn. Yn benodol, o ran dynodi nodwedd warchodedig, clywsom am y posibilrwydd o atgyfnerthu stigma sy'n bodoli eisoes ymhlith rhai pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol os ydynt yn dymuno cynnwys "profiad o fod mewn gofal" fel nodwedd warchodedig yn rhan o'i rôl fel rhiant corfforaethol, ac mae'n ymwybodol bod Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, wrth roi'r polisi hwn ar waith, bydd angen i'r awdurdodau lleol fod yn ymwybodol bod |

| |
|---|
| ystod o farn ar y mater hwn a'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol yn sgil dynodi profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig.<br><br>• Yn gryno, rydym wedi parchu'r gwahanol safbwyntiau ar y mater hwn ac wedi clywed na fyddai pob plentyn a pherson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dymuno inni symud ymlaen â'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddwn yn parhau â'r trafodaethau ac yn manteisio ar unrhyw ddysgu gan Gasnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr fel y gallwn ddeall effaith cyflwyno "profiad o fod mewn gofal" fel nodwedd warchodedig. |
| **Argymhelliad 4.**<br>Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical #3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth benodol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Dylai'r ddeddfwriaeth:<br>• nodi pa gyrff sy'n cael eu hystyried yn 'rhieni corfforaethol', gan gynnwys o leiaf awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyrff eraill fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda ar ôl ymgynghori;<br>• nodi'r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol, gan gynnwys o leiaf ddyletswyddau i: baratoi a chyhoeddi cynlluniau sy'n ymwneud â'u gwaith fel rhieni corfforaethol; gweithio ar y cyd lle byddai gwneud hynny yn diogelu neu'n hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc; cyhoeddi adroddiadau ar sut y maent wedi arfer eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol; darparu gwybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol i Weinidogion Cymru; a dilyn canllawiau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Gweinidogion;<br>• cyd-fynd â dyletswyddau ac argymhellion rhianta corfforaethol penodol pellach yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Gweler: iechyd meddwl (isod), tai (tudalen 127) ac addysg uwch (tudalen 134). |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn annog pob corff cyhoeddus a phreifat i gofrestru i fod yn rhieni corfforaethol drwy'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin. Ni fydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd â'r awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol neu'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach y bydd yn eu hariannu a'u rheoleiddio. Felly, mae cwestiwn ynghylch a fyddai'n gorff addas i fod yn 'rhiant corfforaethol' ar sail statudol fel y disgrifir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, |

bydd gan y Comisiwn ei gyfrifoldebau statudol ei hun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (gweler yr ymateb i argymhelliad 27 isod), ac rydym yn rhagweld y bydd yn un o lofnodwyr y Siarter Rhianta Corfforaethol.

- I gefnogi'r Siarter, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau canllawiau gan gynnwys pennod benodol ar rianta corfforaethol i gefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth i nodi pa rai o'r canllawiau y gellid eu cryfhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Siarter gan gyrff cyhoeddus ehangach.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog cyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau preifat i ymrwymo i'r Siarter. Ein nod yw sicrhau bod pob sefydliad wir yn deall rhianta corfforaethol, gan ei arddel a'i roi ar waith, a darparu'r cymorth y mae ei angen ar blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd bywyd â phobl ifanc eraill yng Nghymru.

- Mae 68 o sefydliadau (ym mis Tachwedd 2025) wedi ymrwymo, gan gynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol a phob un o'r 7 bwrdd iechyd lleol.

- Gofynnwyd i'r holl sefydliadau a ymrwymodd i fod yn rhieni corfforaethol gwblhau addewid rhianta corfforaethol gan fanylu ar eu cynnig i bobl ifanc a'r egwyddorion o'r Siarter y maent yn gweithio i'w cyflawni.

- Ein bwriad yw i bobl ifanc adolygu sampl o'r addewidion a rhoi adborth i sefydliadau. Rydym yn gweithio gyda Lleisiau o Gofal Cymru i drefnu hyn.

- Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i gryfhau'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol drwy gynnwys pennod benodol ar Rianta Corfforaethol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar y cynnig i gynnwys pennod newydd i ben ar 27 Hydref ac mae dadansoddiad o'r ymatebion ar y gweill. Y bwriad yw gosod Cod diwygiedig gerbron y Senedd yn y flwyddyn newydd.

| |
|---|
| • Ochr yn ochr â llunio'r bennod ar rianta corfforaethol, ein bwriad yw cryfhau llais y plentyn yn y broses o gynllunio gofal a chymorth a lleoliadau yn y Cod Ymarfer. Bwriadwn hefyd ymateb i'r argymhellion gan blant â phrofiad o fod mewn gofal ynghylch symud lleoliadau a chyfarfodydd adolygu fel yr amlinellir yn adroddiad Lwc ac adborth o'r Uwchgynadleddau Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal blynyddol. |
| **Argymhelliad 5:**<br><br>Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob plentyn â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu yn gyfnodol ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o'r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr heriau sy'n wynebu plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y potensial i gael eu trawmateiddio ymhellach gan y systemau sydd yno i'w cefnogi os na ddarperir gwasanaethau'n effeithiol.<br><br>• safbwynt iechyd meddwl, mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau cyfartal i fynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol. Mae Mesur Iechyd Meddwl (2010) wedi sefydlu hawliau cadarnhaol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, p'un a ydynt wedi cael diagnosis ai peidio, gael cymorth yn ddigon cynnar er mwyn osgoi'r risg o'u hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach.<br><br>• Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall plant mewn gofal wynebu heriau ychwanegol a chymhleth mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles ac mae angen gwneud mwy i ymyrryd yn gynnar ac atal, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y nifer anghymesur o blant sy'n derbyn gofal sydd angen cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a chymorth iechyd meddwl arbenigol. |

- Rydym wedi datblygu'r fframwaith NYTH, sef adnodd i helpu darparwyr gwasanaethau i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n eu galluogi i "ddal ymlaen" ar fabanod, plant a phobl ifanc gyda chymorth oedolion y gellir ymddiried ynddynt, sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, sy'n ystyriol o drawma ac sydd â mynediad rhwydd at arbenigedd. Nod y fframwaith yw creu dull system gyfan gyda gwasanaethau'n integreiddio ac yn gweithio gyda'i gilydd fel y gellir cydlynu adnoddau ac arbenigedd i nodi a darparu'r cymysgedd cywir o wasanaethau sydd eu hangen i ddiogelu iechyd a lles y plentyn hwnnw.

- Drwy fenter leol a chyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol rydym eisoes yn gweld rhai enghreifftiau rhagorol o wasanaethau'n dod at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth gyfannol fel hyn.

- Mae gwaith bellach ar y gweill i ddatblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer CAMHS a fydd yn nodi disgwyliadau'r llywodraeth ar gyfer CAMHS yng Nghymru, a sut mae'n gweithio gyda gwasanaethau eraill i sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i ddarparu gofal integredig. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant yn nodi ein disgwyliadau tebyg ar gyfer awdurdodau lleol o ran integreiddio. Fel rhan o hyn a chan dynnu ar yr arferion gorau yr ydym eisoes yn eu gweld ledled Cymru, ein huchelgais yw y gallwn nodi dull cyson gan ddefnyddio egwyddorion allweddol NYTH o ddarparu gofal amserol, integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bob plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

- I grynhoi, mae gennym waith eisoes ar y gweill a fydd yn cryfhau cefnogaeth i blant a phobl ifanc, ond heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Rydym bellach wedi cyhoeddi ein Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol pob oed 2025 i 2035 | LLYW.CYMRU, sy'n amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer cefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio ar draws llywodraeth ac mae hyn yn arbennig o bwysig wrth inni ystyried anghenion babanod, plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

- Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru hefyd wedi'i gyhoeddi, i geisio gwella cysondeb o ran ymarfer ledled Cymru a hybu ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau ar draws asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant. Ochr yn ochr â'r Fframwaith Ymarfer Amlasiantaethol, rydym hefyd wedi cyhoeddi Canllawiau Ymarfer ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r Canllawiau Ymarfer yn cyfeirio'r gwasanaethau therapiwtig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

â phrofiad o fod mewn gofal i weithio mewn partneriaeth agosach ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael cymorth therapiwtig sy'n ystyriol o drawma ar yr adeg iawn ac yn y ffordd sy'n iawn iddynt hwy. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r gwaith sydd hefyd wedi'i gynnal i ddatblygu manyleb ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) fel y cyfeiriwyd ato yn ein hymateb blaenorol.

- Mae'r fanyleb gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer CAMHS yn nodi disgwyliad y Llywodraeth o ran gwasanaethau CAMHS yng Nghymru, a sut y maent yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i ddarparu gofal integredig. Rydym hefyd wedi diwygio canllawiau i sicrhau nad yw plant â phrofiad o fod mewn gofal sy'n symud rhwng ardaloedd byrddau iechyd yn cael eu rhoi o dan anfantais a bod eu statws o ran amser aros yn parhau ar gyfer gwasanaethau CAMHS.

- Mae gwrando ar leisiau'r rhai â phrofiad bywyd a chynnal hawliau plant yn ganolog i'n gwerthoedd craidd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau wedi'u llunio mewn ymateb i adborth a lleisiau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a ddywedodd wrthym ni fod angen gwell mynediad arnynt at gymorth iechyd meddwl a llesiant. Mae'r canllawiau wedi'u cydlunio â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol ac ymarferwyr. Rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026, mae gweithdai yn cael eu hwyluso i hybu'r gwaith o weithredu'r canllawiau hyn gyda'r sector.

- Byddwn yn darparu'n rheolaidd yr wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, a disgwylir y diweddariad cyntaf ym mis Mai 2026.

**Argymhelliad 6.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn canllawiau statudol, neu fel arall, y gofynion ar gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu a chyhoeddi data ar bob agwedd ar y system ofal, yn ychwanegol at y data sydd eisoes yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys y bylchau data a amlygir yn yr adroddiad hwn. Rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys academyddion fel mater o flaenoriaeth i lywio'r hyn sydd ei angen. Dylai'r canllawiau fod yn sensitif i bryderon nifer o bobl â phrofiad o fod mewn gofal am eu statws gofal a'r stigma maent yn ei wynebu, a nodi'r canllawiau diogelu data arfer gorau yn unol â hynny. Dylai'r data gael ei wirio gan Lywodraeth Cymru, a chael ei gyhoeddi mewn fformat hygyrch bob chwarter o leiaf lle mae'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn flynyddol o leiaf ar gyfer yr holl ddata arall.

| |
|---|
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ystod o ymarferion casglu data mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant. Mae'n cynnal tri ymarfer casglu data bob blwyddyn. Mae dau ohonynt ar lefel unigol ac yn cwmpasu pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth tra mae'r trydydd yn canolbwyntio'n benodol ar blant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn cynnal ymarfer casglu data mawr mewn perthynas â pherfformiad a gweithgarwch awdurdodau lleol, sy'n cynnwys dros 50 o eitemau data ar blant yn benodol. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn siarad â phlant ac yn archwilio eu profiadau fel rhan o'u harolygiadau.<br><br>• Ar hyn o bryd, mae Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn adolygu'r broses casglu data fel rhan o'i waith ar fetrigau ar gyfer gwasanaethau plant er mwyn mesur cynnydd yn fwy effeithiol wrth inni drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu ystod o ddata ynghylch gofal cymdeithasol plant, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd ag awdurdodau lleol a phartneriaid sectorau i adolygu a gwella'r gwaith o gasglu data. Ni chaiff y data ei gasglu'n uniongyrchol gan blant ond mae'n ddata gweinyddol a gesglir gan yr awdurdodau lleol wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth. Fodd bynnag, mae'r holl ddata a gesglir yn cadw at arferion gorau a chanllawiau a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.<br><br>• Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn parhau i ehangu'r ystod o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n bwriadu sicrhau bod data ychwanegol ar gael erbyn diwedd 2025/26. Gall hyn gynnwys data chwarterol neu fisol ynghylch capasiti gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r galw amdanynt. |
| **Argymhelliad 7.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob rhiant geni â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal. Dylai'r cymorth gynnwys eiriolaeth rhieni arbenigol i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu, a dylid ei fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis Project Unity NYAS. Dylai'r cymorth fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 |

| |
|---|
| wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal fel rhan o waith y Bwrdd Plant a'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn gwybod bod prosiectau fel Project Unity yn chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i famau sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid blynyddol o £340,000 ar gyfer y rhaglen tan 2025, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor a bydd yn ystyried ac yn archwilio'r gofynion fel rhan o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi ymyriadau ataliol i helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd.  Mae cyflwyno gwasanaethau Eiriolaeth i Rieni ledled Cymru yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i hyn.<br><br>• Ar hyn o bryd, mae Project Unity ar waith ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol.  Eleni, mae'r gwasanaeth wedi darparu ymyrraeth 1:1 i 135 o famau ifanc neu famau sy'n disgwyl, gan gynnig cymorth cofleidiol sy'n ystyriol o drawma i bob person sy'n cael cyfle i elwa ar y gwasanaeth. |
| **Argymhelliad 8.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni. Hyd nes y bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth |

| |
|---|
| Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan wasanaethau ar ffiniau gofal, megis Babi a Fi, Reflect a Jig-So Barnardo's a'r budd y mae'r rhaglenni hyn yn ei gynnig i rieni newydd, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o'r prosiectau hyn wrth benderfynu ar y camau nesaf a'r hyn a gaiff ei gyflwyno yn y dyfodol. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith gadarnhaol gwasanaethau ar ffiniau gofal fel prosiectau Barnardo's Babi a Fi, Reflect, a Jig-So. Mae Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal yn chwarae rhan hanfodol o ran helpu plant a theuluoedd, gan gynnwys rhieni newydd a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn addas i'r diben a bod gan deuluoedd ledled Cymru fynediad at ymyriadau cefnogol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn y broses o fapio argaeledd Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal ledled Cymru.<br><br>• Yn y Gweithdy Amlasiantaethol i Blant a Theuluoedd a gynhaliwyd ym mis Medi 2025, gwnaethom dynnu sylw at rai o'r gwasanaethau hyn ac archwilio'r gwaith sy'n cael ei gynnal i gryfhau ymyrraeth gynnar. Roedd yn amlwg bod dyhead ymhlith arweinwyr y sector cyhoeddus i hyrwyddo gwell gweithio yn amlasiantaethol o fewn gwasanaethau plant.<br><br>• Yn sgil ein Rhaglen Trawsnewid, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gwblhau'r Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal ar gyfer Babanod, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fel bod gennym fframwaith cyffredinol ar gyfer y system ledled Cymru. Bydd hyn yn rhan o Adroddiad Gwaddol y Rhaglen a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd tymor y Senedd. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 9.**<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn**<br><br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg i ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath yn genedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod partneriaid allweddol yn rhan o'r gwaith o gynghori ar y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yng Nghymru yn y dyfodol, a phennu eu cwmpas.<br><br>• **Goblygiadau ariannol:** Oes, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn sylweddol a bydd rhaid eu talu o gyllidebau presennol. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Yn dilyn gwerthuso'r cynllun peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, sefydlwyd gweithgor i archwilio'r camau nesaf. Tynnodd papur trafod, a gymeradwywyd gan y Rhwydwaith Cyfiawnder Teulu ym mis Medi 2025, sylw at agweddau cadarnhaol Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol a chynigiwyd ehangu dull gweithredu ar sail llys sy'n datrys problemau ar draws achosion gofal, y tu hwnt felly i achosion sy'n ymwneud â rhieni yn camddefnyddio sylweddau.  Mae fy llythyr dyddiedig 16 Hydref 2025 at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn rhannu papur trafod y gweithgor a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.<br><br>• Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adran Addysg Llywodraeth y DU i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â datblygiadau yn Lloegr, o ystyried yr elfennau o Gyfiawnder Teuluol nad ydynt wedi'u datganoli. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 10.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol o £300,000 i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i ddarparu Rhaglen Eiriolaeth Rhieni yng Ngwent, drwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r Rhaglen yn paru rhieni ag eiriolwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall y ddeddfwriaeth, y prosesau a'r systemau sydd ynghlwm â'r broses gofal ac amddiffyn plant. Yn ogystal, mae eiriolwyr yn helpu rhieni i gyfathrebu â gweithiwr cymdeithasol eu plentyn. Bydd y Rhaglen yn rhedeg tan 2025.<br><br>• Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein bod wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth i gefnogi rhieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gan helpu i osgoi'r angen am ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol statudol, atal anghenion rhag gwaethygu a lleihau'r risg y bydd plant yn ymuno â'r system ofal.<br><br>• Rydym yn buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn o gyllid dros y tair blynedd nesaf, drwy'r Gronfa Newid ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ehangu prosiectau presennol sy'n ymwneud ag eiriolaeth rhieni yn rhanbarthol ac i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol.<br><br>• Er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau'n gyson ar hyd a lled Cymru fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol, rydym yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Rhieni gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn yn disgrifio meini prawf craidd y gwasanaeth y mae rhaid i bob rhanbarth eu cael ar waith. |

| |
|---|
| • Mae llenyddiaeth academaidd ac adroddiadau cynnar yn dangos bod eiriolaeth rhieni yn llwybr addawol i leihau nifer y plant sy’n derbyn gofal. Byddwn yn defnyddio’r gwersi a ddysgwyd o’r fenter yng Ngwent ac o’r broses gyflwyno genedlaethol i benderfynu a ddylid rhoi mynediad cyffredinol at eiriolaeth rhieni. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn falch o gadarnhau bod gwasanaethau eiriolaeth i rieni bellach ar gael ym mhob rhanbarth yng Nghymru, gyda thri darparwr yn eu darparu sef NYAS, TGP, a Mental Health Matters. Yn 2025-26, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth £803,399 i’r gwasanaethau hyn.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid gwasanaethau eiriolaeth i rieni, gan gydnabod ymchwil ddiweddar yn dilyn gwerthusiad dulliau cymysg CASCADE. Dangosodd yr ymchwil hon fod eiriolaeth yn helpu rhieni i deimlo fel eu bod yn cael eu clywed, yn gwella’r ymwneud â gweithwyr cymdeithasol, ac yn gallu cryfhau’r cydweithio yn ystod prosesau amddiffyn plant.<br><br>• Yn rhan o’n camau nesaf o ran eiriolaeth i rieni, byddwn yn ceisio sefydlu Fforwm Eiriolaeth i Rieni a sefydlu fframwaith clir sy’n cynnwys maen prawf hygyrchedd i sicrhau bod cynnig cyson o eiriolaeth ar gael ar draws pob rhanbarth. |
| **Argymhelliad 11.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta. Dylai’r adolygiad ystyried moeseg, defnydd a gwerth am arian lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn, a nodi pa newidiadau y gellir eu gwneud i wella’r broses i deuluoedd, ac unrhyw rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dylai’r adolygiad annibynnol gyflwyno ei adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld plant a phobl ifanc yn byw’n ddiogel gyda’u teuluoedd, gyda llawer llai yn gorfod mynd i ofal o gwbl. I’r plant hynny sy’n mynd i ofal, rydym am i’w harhosiad fod mor fyr ag sy’n gydnaws â diwallu eu hanghenion, yn agos at eu cartref a chyda chysylltiadau cryf â’u cymuned leol. Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn sicrhau rhwydwaith cynaliadwy o ddarpariaeth, rhaid i siâp, graddfa a strwythur y trefniadau presennol ar gyfer llety a |

Tudalen y pecyn 68

chymorth i blant a phobl ifanc newid yn sylfaenol i sicrhau bod darpariaeth sefydlog, integredig ac atebol yn lleol yn cael ei datblygu. Bydd hyn yn cynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth.

- Yn ystod tymor y Senedd hon, fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer lleoliadau asesu rhianta yng Nghymru, gan gynnwys effeithiolrwydd, argaeledd a modelau perchnogaeth.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Yn rhan o'n hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau plant, mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar draws awdurdodau lleol i adeiladu rhwydwaith cynaliadwy o ddarpariaethau ac i newid ffurf, graddfa a strwythur y trefniadau presennol ar gyfer llety a chymorth i blant a phobl ifanc.

- Mae'r gwaith hwn yn cynnwys asesiad o'r ddarpariaeth o leoliadau rhieni a phlant ledled Cymru, ac mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei dargedu i gryfhau a gwella digonolrwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar recriwtio a meithrin gofalwyr maeth rhieni a phlant.

**Argymhelliad 12.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'. Dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'. Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**

- Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol eisoes yn darparu hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor sy’n galluogi plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal i allu optio i mewn ac allan fel y dymunant. Caiff hyn ei fonitro gan y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru.

- Un o elfennau craidd y Dull Cenedlaethol yw’r Cynnig Gweithredol sy’n darparu hawl hirdymor absoliwt i eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol fel rhan o lwybr clir a chyson i ddarparu eu hawliau. Mae’r llwybr hwn wedi’i nodi’n fanwl yn yr adroddiad Etifeddiaeth a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiriolaeth yn haf 2022. Mae’n sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn hysbysu plant am eu hawl i eiriolaeth, yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd a manteision eiriolaeth a chyda chaniatâd y plentyn, mae’n hwyluso cyswllt annibynnol rhwng y plentyn a’r gwasanaeth eiriolaeth.

- Mae’r gwasanaeth eiriolaeth yn cysylltu’n annibynnol â’r plentyn i gwrdd â nhw ac i wneud y Cynnig Gweithredol cyn cadarnhau gyda’r awdurdod lleol a yw’r cynnig wedi’i dderbyn neu ei wrthod. Mae’r adroddiad Etifeddiaeth yn glir ac yn cadarnhau nad ‘*...yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu’r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu’r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i’r gwasanaeth eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda’r plentyn neu’r person ifanc*’.

- Rydym yn cytuno’n llwyr â datganiad y Pwyllgor bod rhaid i leisiau plant gael eu clywed. Rydym yn rhannu’r safbwynt hwnnw ac yn parhau i archwilio sut y gallwn barhau i weithio i sicrhau bod y lleisiau hynny’n cael eu clywed. Bydd y Siarter Rhianta Corfforaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo lleisiau plant a’r Cynnig Gweithredol fel rhan o’r Dull Cenedlaethol.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol eisoes yn darparu hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol hirdymor sy’n sicrhau bod plant mewn gofal a phobl ifanc sy’n gadael gofal yn gallu optio i mewn ac optio allan fel y dymunant.  Mae hyn yn parhau i gael ei fonitro gan fforwm y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol sy’n cyfarfod dwywaith y flwyddyn o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod o’r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol sy’n cyfarfod bob chwarter â darparwyr gwasanaethau eirioli.

- Elfen graidd o'r Dull Cenedlaethol yw'r Cynnig Gweithredol sy'n darparu hawl hirdymor diamod i eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol a hynny yn rhan o lwybr clir a chyson i gyflawni eu hawliau a'u hawlogaethau. Mae'r llwybr hwn wedi'i nodi'n fanwl yn yr Adroddiad Gwaddol a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth yn yr haf yn 2022. Mae'n sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi gwybod i blant am eu hawl i eiriolaeth, yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd a manteision eiriolaeth, a chyda cydsyniad y plentyn, yn hwyluso cyswllt annibynnol rhwng y plentyn a'r gwasanaeth eirioli.

- Mae'r gwasanaeth eirioli yn gwneud cyswllt annibynnol â'r plentyn i gynnig cyfarfod ag ef, i wneud y Cynnig Gweithredol ac yna chadarnhau â'r awdurdod lleol a yw'r cynnig wedi'i dderbyn neu beidio. Mae'r Adroddiad Gwaddol yn glir ac yn cadarnhau'r canlynol; "*Nid yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i'r gwasanaeth eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn neu'r person ifanc.*"

- Sefydlodd fforwm y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol ddau grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Medi 2025. Sefydlwyd y grŵp cyntaf i edrych ar wella'r broses o gasglu data ynghylch y 'Cynnig Gweithredol' a datblygu'r dangosyddion perfformiad presennol i gael gwybodaeth bellach ar gyfraddau'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn ogystal â gwell dealltwriaeth ynglŷn â pham nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn gan blant a phobl ifanc.

- Mae'r ail grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu'r Pecyn Cymorth Ystod a Lefel a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau eirioli i rag-weld dyraniad gwasanaeth eirioli yn seiliedig ar nifer y plant a phobl ifanc yn yr ardal â phrofiad o fod mewn gofal, nifer y plant a phobl ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth. Gofynnwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen adolygu'r pecyn cymorth hwn a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut y gellir ei symleiddio a'i ddiweddaru.

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod lleisiau plant yn parhau i gael eu clywed, ac mae'r Fforwm Cenedlaethol yn parhau i ystyried ffyrdd o wella'r cynnig a sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc cymwys wybodaeth am ei hawl i eiriolaeth.

**Argymhelliad 13.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth breswyl ac eiriolaeth unigol drwy:<br>• ddiwygio'r trefniadau sydd ar waith o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i wneud darparu eiriolaeth breswyl ym mhob cartref plant (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofyniad cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.<br>• gweithio gyda llywodraethau eraill y DU yn ôl yr angen i sicrhau bod pob plentyn sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, ond sydd wedi'i leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru, yn cael cynnig eiriolwr unigol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**<br>• Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn rhoi mynediad at eiriolwr i bob plentyn sy'n derbyn gofal preswyl yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan yn gyson bod eiriolaeth yn hanfodol i amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc ac i sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed a'u parchu ac yr ymatebir iddynt. Rydym wedi ymgorffori'r hawliau hynny yn ein deddfwriaeth a'n canllawiau ar draws portffolios y Gweinidogion ac wedi cydgynhyrchu trefniadau partneriaeth sy'n rhoi'r hawliau hynny ar waith drwy ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i sicrhau y gellir cyflawni ein disgwyliadau a rennir.<br>• Mae ein Dull Cenedlaethol yn cynnwys Cynnig Gweithredol clir a diamwys o eiriolaeth i bob plentyn mewn gofal, nid yn unig y rhai mewn lleoliadau preswyl, ond hefyd y rhai mewn trefniadau maethu neu ofal gan berthynas. Mae ein Dull Cenedlaethol hefyd yn sicrhau'r un hawliau i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i'r rhai a allai fod yn destun trefniadau neu ymholiadau diogelu, yn ogystal â phob plentyn a pherson ifanc fel rhan o ddyletswyddau ehangach awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth iddynt o dan ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>• Gall eiriolaeth dda gael effaith ddofn ar fywydau plant a phobl ifanc. Drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), rydym wedi datblygu a chyflwyno disgrifyddion clir i reoleiddio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol sy'n rhagnodi safonau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir yn ogystal â'r darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol. Rydym wedi sefydlu a chyflwyno systemau eraill i alluogi i blant gael eu clywed ac i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau gael eu gweithredu arnynt. Rydym yn gweithio i gryfhau rôl y Rhiant Corfforaethol drwy'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin. Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Swyddog Adolygu Annibynnol i wrando arnynt a gweithredu fel eu hyrwyddwr personol wrth ddwyn gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau i gyfrif a sicrhau bod y dyletswyddau sy'n ddyledus i'r plant hynny'n cael eu cyflawni'n gynhwysfawr ac yn gyson. |

- Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod darpariaeth eiriolaeth gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau bod pob plentyn sy’n byw y tu allan i Gymru ond sy’n cael ei leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael cynnig eiriolwr unigol.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Yn sgil Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), rydym wedi datblygu a chyflwyno disgrifyddion clir er mwyn rheoleiddio darpariaeth Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol gan ragnodi safonau’r gwasanaeth a ddarperir ond hefyd safonau’r darparwr gwasanaeth a’r unigolyn cyfrifol. Cafodd y ddau ddarparwr gwasanaeth eirioli yng Nghymru, sef NYAS a Tros Gynnal Plant, eu harolygiadau cyntaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Rydym wedi myfyrio ar y cyd o ran yr hyn a ddysgwyd o’r broses hon.

- Rydym wedi sefydlu a chyflwyno mecanweithiau eraill i sicrhau y gwrandewir ar blant ac y gweithredir ar eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau. Mae gan bob plentyn sy’n derbyn gofal Swyddog Adolygu Annibynnol i wrando arno a gweithredu fel ei hyrwyddwr personol wrth ddwyn gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau i gyfrif. Mae rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd yn cynnwys sicrhau y caiff y dyletswyddau sy’n berthnasol i’r plant hynny sy’n derbyn gofal eu cyflawni mewn modd trylwyr a chyson. Gall Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd wneud cais i’r plentyn gael Ymwelydd Annibynnol.

- Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod gan bob plentyn sy’n derbyn gofal hawl i Ymwelydd Annibynnol. Mae’r gofyniad wedi’i gynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae Ymwelydd Annibynnol yn wirfoddolwr sy’n ymweld â phlentyn neu berson ifanc sy’n derbyn gofal ac yn meithrin perthynas ag ef. Yn aml, mae plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal wedi wynebu trawma a diffyg perthnasoedd cyson ag oedolion.

- Mae’n bosibl mai’r Ymwelydd Annibynnol yw’r unig oedolyn cyson sydd ganddynt yn eu bywyd. Mae rôl unigryw Ymwelydd Annibynnol yn galluogi plant a phobl ifanc i gael o leiaf un berthynas gyson, y gellir ymddiried ynddi, sy’n cael ei meithrin dros amser. Bydd yr Ymwelydd Annibynnol yn ymdrechu i ddod yn oedolyn sefydlog ym mywyd y plentyn, a pharhau felly,

| |
|---|
| hynny yw, yn oedolyn nad yw'n newid pan fydd lleoliadau neu weithwyr cymdeithasol yn newid. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y plentyn bob amser. |
| **Argymhelliad 14.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai'r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr annibynnol. Dylid datblygu'r gofrestr honno law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai gynnwys ymgynghoriad trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â chofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth ac felly mae'n rhywbeth y mae'n awyddus i'w archwilio gyda'r sector.<br><br>• Byddai cofrestr genedlaethol yn codi statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn, gan ganiatáu i'r rôl gael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi yn y sector a chan y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gofalwyr maeth yn rhan bwysig o'r tîm gofal cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r anhawster y mae gofalwyr maeth yn ei brofi wrth symud o un gwasanaeth i'r llall, drwy gynnig dull llai biwrocrataidd o drosglwyddo, gan leihau dyblygu ac oedi, a bydd yn cynnig mecanwaith diogelu cadarn a fydd yn amlinellu addasrwydd parhaus gofalwr maeth i faethu.<br><br>• Fodd bynnag, mae cyflwyno cofrestr o'r fath yn gymhleth a bydd angen ei chynnal mewn modd amserol a rheoledig ochr yn ochr â sicrhau y gellir rhoi adnoddau priodol ar ei chyfer. Mae trafodaethau cychwynnol â'r Rhwydwaith Maethu wedi cael eu cynnal a'r cam nesaf yw cynnal ymarfer cwmpasu i sefydlu ar ba ffurf y gallai cofrestr genedlaethol yng Nghymru fod, unrhyw ofynion deddfwriaethol ac ymarferoldeb ei gweithredu. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'n partneriaid statudol a'n trydydd sector, gofalwyr maeth a defnyddwyr gwasanaethau. |

| Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025 |
| --- |
| • Rydym yn parhau i ystyried cyflwyno cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yng Nghymru. Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn ein hymgynghoriad diweddar ar fabwysiadu, maethu a gofal a gan berthynas, a ddaeth i ben ar 27 Hydref. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar sut y gallai cofrestr wella tryloywder, cludadwyedd ar gyfer gofalwyr maeth, a diogelu, yn ogystal â darparu data cenedlaethol i gynorthwyo gwaith cynllunio a rhagolygon. Rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddant yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2026. |
| **Argymhelliad 15.**<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein '4C' yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i'r gronfa ddata er mwyn symleiddio'r broses o gomisiynu lleoliadau. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Datblygwyd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) i ddechrau gan Lywodraeth Cymru gyda Data Cymru yn 2005 fel llyfrgell cronfa ddata ar gyfer chwilio am ddarparwyr. Yn 2012, dewisodd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4Cs) lwyfan CCSR gan ei fod yn llwyfan Cymreig parod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – a ddatblygwyd ganddi, sy'n eiddo iddi ac yn ei cael ei rheoli ganddi – y gellid ei ddatblygu i ddiwallu anghenion comisiynu, contractio a chaffael. Datblygodd borth e-dendro i ddarparu'r Fframwaith Cymru Gyfan (gofal preswyl a maeth) ac i ddarparu'r gallu i ganfod a chydweddu lleoliadau.<br><br>• Mae'r rhan hon o system CCSR yn haen o fynediad cyfyngedig i ddarparwyr Awdurdodau Lleol a Fframwaith yn unig, wedi'u gwerthuso a'u sicrhau o ran ansawdd gan y Consortiwm, y mae'n ofynnol iddo, o dan Fframwaith Cymru Gyfan, ddiweddaru gwybodaeth am ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a lleoedd gwag. Mae hyn yn effeithiol ac yn cael ei adolygu fel rhan o o'r drefn ddyddiol o reoli'r contract.<br><br>• Mae CCSR yn darparu manylion pob gofalwr maeth sy'n ddarparwr ar y Fframwaith Cymru Gyfan ynghyd â lleoedd gwag, a manylion cyfatebol holl leoliadau a lleoedd gwag gofal preswyl y Fframwaith. Caiff hyn ei fonitro gan y Consortiwm / Data Cymru ac mae'n gyfredol. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau arolygu darparwyr y Fframwaith gan Arolygiaeth Gofal |

Tudalen y pecyn 75

Cymru a datganiad o ddibenion darparwyr. Mae gan CCSR y gallu i bob awdurdod lleol ychwanegu ei holl ddarpariaeth gofalwyr maeth a lleoliadau preswyl yn gyfrinachol ac yn ddiogel i'r system.

- Mae CCSR hefyd yn darparu manylion gofalwyr maeth gan nifer bach o asiantaethau eraill nad ydynt ar y Fframweithiau ond sy'n dal i weld budd tanysgrifio i'r gwasanaeth (darparwyr nad ydynt ar fframwaith) ond mae'r ffi danysgrifio flynyddol y mae'n rhaid iddynt ei thalu am y gwasanaeth yn rhwystr i rai darparwyr llai rhag defnyddio'r system.

- Gan fod hyn wedi cyfyngu ar fynediad, ni fyddai gan lawer o ddarparwyr a allai fod wedi cyfrannu at drafodaethau'r pwyllgor fynediad at yr elfen hon o'r gronfa ddata ac felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl glir am ei swyddogaethau na natur fyw ei ddefnydd bob dydd. Fodd bynnag, byddai ganddynt fynediad i'r llyfrgell adnoddau lefel uchel sy'n uwch na modiwl tendro'r Consortiwm ac sy'n weladwy i ystod ehangach o randdeiliaid. Mae'r llyfrgell yn rhan o raglen ailddatblygu i'r dyfodol a fydd yn cael ei llywio ar sail barn rhanddeiliaid.

- Er mwyn cefnogi gweithredu pellach, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd a fyddai hi'n ymarferol gorfodi pob asiantaeth faethu i gofrestru ar CCSR fel rhan o'u cofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Byddai angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â'n hystyriaeth ynghylch cyflwyno cofrestr faethu genedlaethol yng Nghymru.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Rydym yn parhau i ystyried cyflwyno cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yng Nghymru. Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn ein hymgynghoriad diweddar ar fabwysiadu, maethu a gofal a gan berthynas, a ddaeth i ben ar 27 Hydref. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar sut y gallai cofrestr wella tryloywder, cludadwyedd ar gyfer gofalwyr maeth, a diogelu, yn ogystal â darparu data cenedlaethol i gynorthwyo gwaith cynllunio a rhagolygon.

- Mae ein gwaith parhaus o ran ystyried a ddylid ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth faethu gofrestru ar yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn rhan o'u cofrestriad o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi'i gysylltu'n agos â hyn. Byddwn yn parhau i ystyried yr opsiwn hwn wrth inni symud ymlaen â'r gwaith ar y gofrestr o ofalwyr maeth a diwygiadau ehangach i gryfhau trefniadau comisiynu a lleoliadau.

| |
|---|
| **Argymhelliad 16.**<br><br>Cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag Estyn a rhanddeiliaid allweddol eraill i archwilio'r canlyniadau cyrhaeddiad diweddaraf sy'n ymwneud â phlant â phrofiad o fod mewn gofal, canfod i ba raddau mae ysgolion yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei dogfen 2017 'Gwneud Gwahaniaeth', y rhwystrau mae ysgolion yn eu hwynebu wrth weithredu'r canllawiau hynny, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn gwella profiadau ysgol plant â phrofiad o fod mewn gofal. |
| • **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad ond mae angen i hyn gael ei wneud law yn llaw â gwerthuso cynllun peilot y Model Ysgolion Rhithwir.<br><br>• Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol, waeth beth fo'u hamgylchiadau, gan gynnwys mewn achosion lle mae gan blentyn brofiad o fod mewn gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall cyrhaeddiad addysgol da arwain at sefydlogrwydd, sicrwydd a bywyd annibynnol a gwerth chweil yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau, gan sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael cymorth priodol i wireddu eu potensial llawn.<br><br>• Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn flaenoriaeth glir i Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn cynnwys cael gwared ar yr holl anghydraddoldebau yn ein system addysg, gan gydnabod, er mwyn sicrhau gwir degwch o ran deilliannau, y bydd angen cymorth ychwanegol neu wahanol ar rai plant a phobl ifanc i wireddu eu potensial llawn. Er bod rhai plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau rhag dysgu oherwydd eu hamgylchiadau unigol, mae llawer o blant a phobl ifanc ledled Cymru yn wynebu rhwystrau systemig a sefydliadol rhag dysgu hefyd. Rydym yn cymryd camau i gynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc i oresgyn y rhwystrau hyn a chyrraedd eu potensial llawn.<br><br>• Ar hyn o bryd mae'r Model Ysgolion Rhithwir yn ei flwyddyn olaf o gynllun peilot tair blynedd, gan gefnogi anghenion addysgol plant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae 13 o awdurdodau lleol wedi cael £1m o gyllid hyd yma, gyda disgwyl i £240,000 arall gael ei ddyrannu yn 2023-24. Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ymchwil mewnol o'r peilot, a fydd yn llywio cam gwerthuso'r model yn llawn. Yn ei dro, bydd y gwerthusiad hwn yn llywio datblygiad pellach y Model Ysgolion Rhithwir. |

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Cyhoeddir data cyrhaeddiad sy'n ymwneud â phlant sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth.

- Rydym wedi ymrwymo i wella canlyniadau addysgol dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi'u nodi yn 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb'. Maent yn cynnwys ymrwymiad i degwch o ran deilliannau mewn addysg ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

- Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i ymwreiddio arferion da a nodwyd fel rhai effeithiol sy'n hybu addysg dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym yn hyrwyddo'r arferion da hyn drwy ein Grŵp Cyflawni Cenedlaethol a thrwy gynhyrchu cyfres o ddogfennau canllawiau. Bwriad y rhain yw helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall yn well anghenion dysgwyr gofal â phrofiad o fod mewn gofal, ymateb i'r anghenion hynny a hyrwyddo ymarfer effeithiol.

- Rydym wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd yr adolygiad yn cael ei ddefnyddio i nodi a rhannu arferion effeithiol i wella canlyniadau dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2026.

- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym hefyd yn rhoi cyllid i Adoption UK Cymru i ddarparu hyfforddiant i athrawon a staff eraill ysgolion i'w helpu i ymateb yn effeithiol i anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.

- Rhwng 2021 a mis Mawrth 2024, gwnaethom ddarparu cyllid gwerth £1.2m i awdurdodau lleol i dreialu Model Ysgol Rithwir yng Nghymru er mwyn ceisio hyrwyddo'r canlyniadau addysgol ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal. Gwnaethom gomisiynu Miller Research i werthuso'r cynllun peilot a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn llywio polisi Llywodraeth Cymru i geisio gwella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

- Mae ein hymrwymiad i addysg pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cyd-fynd ag amrywiaeth o gymorth mewn ysgolion ac ar gyfer addysg ôl-16. Trwy'r Grant Datblygu Disgyblion, bydd ychydig dros £5.6m ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gynorthwyo'n benodol plant â phrofiad o fod mewn gofal mewn ysgolion. Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal,

o’r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 11, hefyd yn gymwys ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol. Gellir ei ddefnyddio i brynu hanfodion fel gwisg ysgol, deunydd ysgrifennu ac offer.

- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu amrywiaeth o gymorth ariannol i alluogi dysgwyr i barhau â’u hastudiaethau mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

**Argymhelliad 17.**

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy’n berthnasau, sefydliadau’r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy’n berthnasau. Fel rhan o’r gwaith hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i’r potensial o ddiwygio drwy reoliadau y meini prawf y mae’n ofynnol i ofalwyr sy’n berthnasau eu bodloni er mwyn bod â’r hawl i gael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**

- Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau allweddol ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer sut y caiff gwasanaethau plant yng Nghymru eu darparu. Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn yn gweithio i ddiwygio gwasanaethau plant yng Nghymru yn sylweddol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni’r canlyniadau gorau posibl i blant sydd mewn gofal. Fel rhan o’r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arbenigol Gwarcheidiaeth Arbennig a fydd yn edrych ar ddatblygu dull gwell a chyson sy’n seiliedig ar anghenion i gefnogi teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o’r sector statudol a’r trydydd sector ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaethau, ac fel rhan o’i waith bydd yn edrych ar ffyrdd o gasglu barn plant a phobl ifanc. Y bwriad yw ehangu cwmpas y grŵp hwn maes o law i edrych ar y defnydd o ofalwyr maeth sy’n berthnasau yng Nghymru a’r cymorth sydd ar gael iddynt.

- Yn ogystal, mae Maethu Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy’n berthnasau yn derbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth prif ffrwd ac wedi lansio’i ymrwymiad cenedlaethol sy’n becyn cytunedig o hyfforddiant, cymorth a chydnabyddiaeth sydd ar gael yn gyson i bob gofalwr maeth (prif ffrwd a pherthnasau) yng Nghymru drwy bob un o’r 22 o asiantaethau maethu awdurdodau lleol yng Nghymru.

- Mae Maethu Cymru wedi ymrwymo hefyd i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn cael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth prif ffrwd. Un o nodau ein gwaith presennol ar ffioedd a lwfansau yw sicrhau cysondeb, ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r cymorth ariannol i bob gofalwr maeth cymeradwy. Ar hyn o bryd mae'r holl ofalwyr maeth cymeradwy ledled Cymru (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) yn cael eu talu o leiaf y lwfans gofynnol cenedlaethol i ddiwallu anghenion y plant yn eu gofal. Yn ogystal, mae pob awdurdod lleol yn talu lwfans / ffi uwch i ofalwyr maeth prif ffrwd.

- Trwy Maethu Cymru a chysoni gwaith ffioedd a lwfansau, rydym yn ceisio sicrhau bod lwfans / ffi uwch ar gael i'r holl ofalwyr maeth cymeradwy (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) ar yr amod eu bod yn cael eu hasesu i fodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y nodir yn y polisi cymhwysedd ar gyfer lwfans uwch.

- Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol, o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyrraedd yr un safon o addasrwydd i faethu â gofalwyr prif ffrwd. Yr unig wahaniaeth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau yw eu bod yn cael eu cymeradwyo i fod yn ofalwr maeth i blentyn penodol o dan y rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o ymarferwyr, paneli a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael trafferth oherwydd nad yw'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn addas i'w ddiben.

- Er mwyn cynorthwyo'r sector maethu, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i ystyried newidiadau deddfwriaethol y gellid eu cyflwyno i alluogi ffordd amgen a mwy 'addas i'r diben' yn y dyfodol ar gyfer asesu gofalwyr sy'n berthnasau.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Maethu Cymru i adolygu'r cymorth ariannol a ddarperir i ofalwyr maeth (gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr sy'n berthnasau). Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad *"The Cost of Care – and the Cost of Not Caring Enough"* a gyhoeddwyd yn 2021, a ddangosodd nad yw'r lwfansau presennol yn aml yn adlewyrchu'r gwir gostau sy'n gysylltiedig â gofalu am blentyn. Mae adborth gan ofalwyr ac ymchwil gan y Rhwydwaith Maethu yn cadarnhau bod cymorth ariannol yn parhau i fod yn bryder allweddol.

- Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu opsiynau i gynyddu lwfansau, fel eu bod yn adlewyrchu'n well gwir gostau gofalu. Mae'r ymarfer cwmpasu cychwynnol wedi nodi goblygiadau ariannol sylweddol, ac mae Maethu Cymru wedi comisiynu gwaith modelu pellach i archwilio sut y gellid rhoi dull gweithredu graddol ar waith ar gyfer strwythurau taliadau diwygiedig.

- Ochr yn ochr â hyn, rydym yn bwrw ati â newidiadau i'r Cod Ymarfer Rhan 6 i roi eglurder ar sut y gall gofalwyr maeth, boed yn ofalwyr maeth prif ffrwd neu'n ofalwyr sy'n berthnasau, gael gafael ar lwfansau uwch. Bydd y diwygiadau hyn yn nodi meini prawf cymhwystra clir sy'n gysylltiedig â maethu ac yn sicrhau tryloywder i ofalwyr ar y pwynt cymeradwyo.

- Bydd paragraffau pellach yn cael eu hychwanegu at y Cod i esbonio'r trefniadau ar gyfer gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn, gofalwyr maeth sy'n berthnasau a gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo dros dro o dan Reoliad 26 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i roi dull gweithredu cyson ar waith gan hefyd gynnal hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol.

- Ar yr un pryd, rydym yn bwrw ymlaen â newidiadau rheoleiddiol i gryfhau'r cymorth i ofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig. O ran gwarcheidiaeth arbennig, rydym yn cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed Cynllun Cymorth cenedlaethol i sicrhau cysondeb ac eglurder ynghylch y cymorth a gynigir i deuluoedd ledled Cymru. O ran gofal gan berthynas, rydym yn creu categori penodedig yn y rheoliadau ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau, gan alluogi dull gweithredu mwy hyblyg a chymesur ar gyfer asesu a darparu cymorth parhaus. Nod y newidiadau hyn yw cydnabod amgylchiadau unigryw trefniadau gofal gan berthnasau gan hefyd gynnal safonau diogelu. Daeth yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn i ben ar 27 Hydref, ac rydym wrthi'n adolygu'r ymatebion gyda'r bwriad o weithredu newidiadau erbyn 1 Ebrill.

- Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith ar ei Brosiect Gofal gan Berthnasau, sy'n adolygu'r fframwaith cyfreithiol i'w gwneud yn gliriach ac yn fwy syml i deuluoedd sy'n gofalu am blant. Nod y prosiect yw symleiddio'r gyfraith, egluro hawliau a chyfrifoldebau, ac archwilio diwygiadau i sicrhau gwell cymorth i ofalwyr sy'n berthnasau a phlant. Mae ein hymwneud yn sicrhau bod datblygiadau polisi o ran Cymru yn cyd-fynd â'r diwygiadau ehangach hyn ac yn cyflawni canlyniadau gwell i blant a gofalwyr, gan hefyd sicrhau bod gan Gymru lais cryf wrth lunio fframwaith cyfreithiol ar gyfer y dyfodol o ran gofal gan berthnasau.

| |
|---|
| **Argymhelliad 18.**<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru a’r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy’n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys dadansoddiad o’r troeon y mae wedi’i ddefnyddio yn ystod y 24 mis diwethaf, gydag amserlenni clir a dyraniadau cyllid i ddatblygu dewisiadau amgen diogel. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau niferoedd cyffredinol y plant sy’n derbyn gofal, ond mae’n cydnabod yr heriau sy’n wynebu rhai awdurdodau lleol o ran dod o hyd i leoliadau addas neu eu datblygu i ddiwallu anghenion y plant a’r bobl ifanc yn eu gofal.<br><br>• Nid yw hyn yn ymwneud â chynyddu capasiti yn unig. Mae’n ymwneud hefyd â hyrwyddo modelau gofal sy’n ystyriol o drawma a sicrhau bod trefniadau comisiynu ar y cyd priodol ar waith rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, fel bod anghenion plant yn cael eu diwallu, ac nad ydynt yn syrthio i’r bwlch rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod hyn yn parhau.<br><br>• dan ein Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen awdurdodau lleol i ystyried mater gwasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dewis lleoliad a sefydlogrwydd mewn darpariaeth gofrestredig yn diwallu anghenion ein plant a’n pobl ifanc ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar eu cyfer<br><br>• Mae’r grŵp yn cynnal adolygiad o wasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru er mwyn cael dealltwriaeth lawn, sy’n seiliedig ar dystiolaeth, o’r materion, yr heriau, y dulliau effeithiol a’r atebion posibl yn ogystal â’r effeithiau cysylltiedig ar blant.  Mae disgwyl i’r adolygiad gael ei gomisiynu’n fuan a bydd yn adrodd yn ddiweddarach eleni. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae gweithio tuag at y defnydd lleiaf o leoliadau anghofrestredig yn ymwneud â lleihau’r galw am leoliadau, cynyddu capasiti a sicrhau gwytnwch trefniadau ar gyfer darparu lleoliadau addas.  Caiff y materion hyn eu hystyried yng nghyd- |

destun ein hagenda ehangach ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant a’r ystod o waith sydd eisoes yn cael ei gynnal i sicrhau bod darpariaethau sefydlog, integredig ac sy’n atebol yn lleol yn cael eu datblygu.

- Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau penodol sy’n gweithredu heb gofrestriad i gael dealltwriaeth o’r mathau o lety a lleoliadau yr oedd eu hangen, y ddarpariaeth drwy’r trefniant gweithredu heb gofrestriad, proffil oedran y plant, yr hyn a arweiniodd iddynt gael eu helpu drwy drefniadau gweithredu heb gofrestriad ac i sefydlu cryfderau a nodwyd a dysgu ar gyfer y dyfodol.

- Law yn llaw â hyn, comisiynodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) Brifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil ynghylch profiadau a barn 11 o bobl ifanc yng Nghymru sydd wedi byw mewn gwasanaethau cartrefi gofal preswyl sy’n gweithredu heb gofrestriad. Aeth y gwaith hwn i’r afael â’r bwlch o ran deall profiadau bywyd y rhai sydd wedi byw mewn lleoliadau sy’n gweithredu heb gofrestriad, gan gynnwys deall taith y person ifanc a sut i reoli trefniadau gweithredu heb gofrestriad yn briodol pan nad oes dewis arall hyfyw. Mae’r adroddiad dilynol wrthi’n cael ei gwblhau a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi cyn bo hir, wedi iddo gael ei ystyried yn derfynol gan aelodau Ffrwd Waith 1 (Ehangu a Datblygu Darpariaeth newydd Awdurdodau Lleol/Rhanbarthol) o dan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

- Bydd canfyddiadau’r ddau ddarn o waith yn cael eu defnyddio i lywio’r broses o wneud penderfyniadau o ran y defnydd o drefniadau gweithredu heb gofrestriad a’u gallu i ddiogelu plant a phobl ifanc a diwallu eu hanghenion.

**Argymhelliad 19.**
Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o’r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal hyd at 21 oed. Dylai’r dadansoddiad nodi nifer y plant a phobl ifanc mewn llety heb ei reoleiddio, a dosbarthu hynny rhwng llety y mae o’r farn sy’n darparu llety a chymorth o ansawdd (megis llety â chymorth y mae’n ofynnol iddo fodloni safonau tai), a llety nad yw’n gwneud hynny (megis llety gwely a brecwast, Airbnb, hosteli ac ati). Dylai’r dadansoddiad rannu’r data hwnnw ymhellach yn ôl oedran a statws cyfreithiol y plant a’r bobl ifanc i ddangos yn glir faint sy’n destun gorchmynion gofal a faint sy’n gadael gofal. Ar ôl ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae’n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau’r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**

- Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ynghylch nifer y plant 16 oed a hŷn sy'n gadael gofal yn ôl oedran a llety a'r dyddiad pan maent yn gadael gofal. Mae ein data ystadegol cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn dangos, o blith y 700 o bobl ifanc 16 oed a hŷn a adawodd ofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fod 670 (96%) ohonynt mewn llety addas ar y dyddiad pan ddaeth eu gofal i ben. Ystyrir bod llety'n addas os yw'n cynnig darpariaeth saff, diogel a fforddiadwy i bobl ifanc. Mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety addas wedi cynyddu o 92% yn 2016-17 pan ddechreuodd data gael eu casglu.

- Roedd 28% o bobl ifanc mewn llety addas gyda rhieni neu berthnasau ac roedd 26% mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol wedi cynyddu ers 2018-19, yn ogystal â'r gyfran mewn llety pontio lled-annibynnol (tua 18%). Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd gyda rhieni neu berthnasau, sy'n byw'n annibynnol ac mewn llety â chymorth addas, wedi gostwng dros y cyfnod hwn.

- Ystyrir bod llety gwely a brecwast yn anaddas hefyd, ac ystyrir bod mathau eraill o lety yn anaddas os ydynt yn amlwg yn golygu bod y person ifanc yn agored i risg o niwed neu allgáu cymdeithasol. Mae nifer a chyfran y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas 5 (14%) o 35 i 30 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n cyfateb i 4% o adawyr gofal mewn llety anaddas ar adeg gadael gofal yn ystod 2021-22. Dyma'r gyfran isaf ers i ddata ddechrau cael eu casglu yn 2016-17.

- Er ei bod yn anodd gweld o dan ba amgylchiadau y byddai plentyn dan 16 oed yn cael ei roi mewn gwasanaeth heb ei reoleiddio gan y byddai angen gofal arno a fyddai'n golygu y byddai angen cofrestru'r gwasanaeth, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Lloegr o wahardd rhoi pobl dan 16 oed mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio a byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Mae gweithio tuag at y defnydd lleiaf o leoliadau heb eu rheoleiddio yn ymwneud â lleihau'r galw am leoliadau, cynyddu capasiti a sicrhau gwytnwch trefniadau ar gyfer darparu lleoliadau addas. Caiff y materion hyn eu hystyried yng nghyd-destun ein hagenda ehangach ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant a'r ystod o waith sydd eisoes yn cael ei gynnal i sicrhau bod darpariaethau sefydlog, integredig ac sy'n atebol yn lleol yn cael eu datblygu.

- Mae Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), sydd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn mewnosod dyletswydd newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt symud o ofal. Mae hefyd yn creu ffafriaeth resymol i'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt symud o gymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gan eu blaenoriaethu felly i bob pwrpas ar gyfer tai cymdeithasol). Trwy'r darpariaethau hyn, ein bwriad polisi yw rhoi diwedd ar y defnydd diofyn o'r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymdeithasol a thimau digartrefedd sefydlu protocol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal, pobl ifanc 16 ac 17 oed a'r rhai sy'n gadael yr ystad ddiogel. Mae hefyd yn creu pŵer gwneud rheoliadau i ddiffinio ystyr llety addas fel y gallwn weithio gyda'r sector i ddylunio llety priodol i bobl ifanc.
- Rydym o'r farn o hyd nad yw llety gwely a brecwast, gwestai na mathau eraill o lety i oedolion yn lleoliadau priodol i blant fyw ynddynt. Bwriadwn ddiwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 er mwyn sicrhau nad yw llety heb gymorth yn addas i bobl ifanc 16-17 oed, ond byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol o ran amseriad y newid hwn.

**Argymhelliad 20.**

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn, a dylid ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn lleihau'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir.

**Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, wedi'u dadansoddi yn ôl yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn.

- Bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn bwydo i Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Ceir carfan o blant a phobl ifanc sydd â hanes cymhleth iawn ac anghenion lluosog sy'n croestorri, y caiff eu hymddygiadau eu hystyried yn rhy beryglus a heriol i fod yn addas ar gyfer y mwyafrif o leoliadau plant, gan gynnwys plant ag anghenion iechyd meddwl cymhleth nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru a Lloegr, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys.

- Mae ein Rhaglen Trawsnewid eisoes yn cynnwys dwy elfen bwysig i leihau'r angen am Orchmynion Amddifadu o Ryddid. Y cyntaf yw sefydlu cartrefi therapiwtig amgen i blant ag anghenion cymhleth a'r ail yw darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal. Mae hyn er mwyn sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel, fod teuluoedd yn aros gyda'i gilydd, a phan nad yw plant yn gallu aros gyda'u teuluoedd, y cânt ofal mewn llety diogel a phriodol, mor agos at eu cartrefi â phosibl.

- O ran y defnydd o Orchmynion Amddifadu yng Nghymru, ychydig iawn o ddata a lwyddom i ddod o hyd iddo gan nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith casglu data blynyddol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn gyfyngedig.

- Yn ystod ein gwaith o archwilio'r data sydd ar gael, roeddem yn ffodus o gael dysgu o adroddiad gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a gyhoeddwyd yn 2023. Rhwng mis Mehefin 2022 a mis Mehefin 2023, casglodd a dadansoddodd yr Arsyllfa wybodaeth ynghylch achosion plant â Gorchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru a Lloegr i lunio'r Adroddiad ynghylch Plant sy'n Destun Gorchmynion Amddifadu o Ryddid. Dangosodd yr ymarfer hwn fod 71 o geisiadau wedi'u gwneud ar gyfer Gorchmynion Amddifadu o Ryddid o ran plant yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nghymru.

- O ran rhaniadau daearyddol, dim ond 5 awdurdod lleol nad oedd wedi gwneud cais am Orchmynion Amddifadu o Ryddid yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r siart a ganlyn yn dangos y lledaeniad yn ôl rhanbarth, ac mae'r tabl yn graddio'r awdurdodau lleol yn ôl canran amrediad cyfanswm y gorchmynion.




| Canran yr holl Orchmynion Amddifadu o Ryddid | Awdurdodau Lleol o fewn ystod Gorchmynion Amddifadu o Ryddid |
|---|---|
| 0% | Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent |
| 1-3% | Sir Ddinbych, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Merthyr, Torfaen, Sir Fynwy |
| 4-6% | Ynys Môn, Sir y Fflint, Caerffili, Casnewydd |
| 7-8% | Powys, Ceredigion, Abertawe, Caerdydd |
| 10-13% | Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr |
| 15% | Wrecsam |

- Yn ystod yr un cyfnod, roedd 44% o'r plant o dan Orchmynion Amddifadu o Ryddid yn 13-15 oed, 35% ohonynt yn 16–17 oed ac 21% ohonynt yn 12 oed ac iau. Yn anffodus, ni ddarparwyd hyd y gorchmynion yn y data o ran Cymru. Fodd bynnag, yn yr ymchwil ehangach, canfu ymddiriedolaeth Nuffield fod y mwyafrif o blant o dan Orchmynion Amddifadu yng Nghymru a Lloegr rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2022 (68.3%) yn parhau i fod yn destun Gorchymyn Amddifadu o Ryddid bron i chwe mis yn ddiweddarach.

- Daeth ymddiriedolaeth Nuffield i'r casgliad bod y cynnydd yn nifer Gorchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru a Lloegr yn debygol o fod yn sgil nifer cynyddol o blant hŷn yn dod i ofal ynghyd â gostyngiadau yn nifer y plant yn cael eu rhoi yn y ddalfa, cartrefi plant diogel yn cau, a gostyngiad yn nifer y gwelyau iechyd meddwl cleifion mewnol ar gyfer plant. Yn yr un modd, un ffactor arall sy'n cyfrannu yw cynnydd yn ymwybyddiaeth yr awdurdodau lleol o'r angen i wneud cais i'r llys am ganiatâd i gyfyngu ar ryddid plant. Yn olaf, mae rhywfaint o dystiolaeth bod anghenion plant sy'n cael eu hatgyfeirio at gartrefi plant diogel wedi dod yn fwy cymhleth, ac mae cartrefi yn wynebu trafferthion o ran diwallu'r anghenion hyn a chadw plant yn ddiogel.

- Gwnaeth ymchwil Nuffield hefyd gyflwyno'r darlun cywir cyntaf o'r hyn sy'n digwydd i'r plant bregus hyn. Rhannwyd y casgliadau a ganlyn:
  - Yn aml, nid oedd unrhyw leoliadau amgen i'r plant hyn ac mae'r risgiau, oherwydd eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad eraill, mor ddyrys a difrifol fel mai'r unig ffordd y gellir eu cadw'n ddiogel yw drwy eu hamddifadu o'u rhyddid.
  - Mae gan y plant lawer o anghenion sy'n gymhleth eu natur nad ydynt yn cael eu diwallu, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, anawsterau ymddygiadol ac emosiynol, ac anawsterau o ran addysg.
  - Mae eu hymddygiadau yn aml yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol cynnar a pharhaus yn ystod plentyndod fel camdriniaeth, esgeulustod, tlodi, hiliaeth, a thrawma cymhleth.
  - Nid oes gan blant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid fawr ddim llais o ran yr hyn sy'n digwydd iddynt.
  - Yn aml, bwriedir i orchmynion Amddifadu o Ryddid fod yn rhai dros dro, ond bydd llawer o blant yn parhau i gael eu hamddifadu o'u rhyddid wrth iddynt fyw, yn aml, mewn lleoliadau anaddas ac anghyfreithlon sydd ymhell o'u cartrefi a'u cymunedau.

- O ran hanes gofal y plant hyn, daeth ymchwil Nuffield i'r casgliad a ganlyn:
  - Nid yw systemau gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a systemau eraill yn llwyddo i ymateb i'w hanghenion, a hynny pan fo achosion o argyfwng ac yn ystod cyfnodau cynharach o'u bywydau a thrwy gydol y glasoed.

- Nid bai asiantaeth neu wasanaeth unigol yw hyn – mae plant a'u teuluoedd yn cael eu gwthio o un system i'r llall, systemau sy'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol, sydd â meini prawf gwahanol ar gyfer cael gafael ar gymorth a gwahanol fframweithiau cyfreithiol.
- Mae hwn yn fater cenedlaethol, a gweler bod llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio gorchmynion Amddifadu o Ryddid er mwyn cadw plant yn ddiogel.
- Nid oes un datrysiad syml. Rhaid inni ddechrau gyda'r hyn rydym yn ei wybod am anghenion y plant a'u hamgylchiadau er mwyn nodi'r math o ofal y mae ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion, eu cadw'n ddiogel, a'u helpu i ffynnu.
- Mae angen newid gwasanaethau fel eu bod yn diwallu anghenion plant sy'n destun gorchmynion Amddifadu o Ryddid yn well.

- Ers mis Gorffennaf 2023, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi data bob chwarter am geisiadau am orchmynion Amddifadu o Ryddid o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Fodd bynnag, nid oedd y data ynglŷn â pha awdurdod lleol oedd yn gwneud y cais yn ddibynadwy felly nid yw'r data hwn yn cael ei gyhoeddi mwyach sy'n golygu nad oes gennym ddata rhanbarthol mwyach.

- Rydym yn cydnabod bod angen cynnal rhagor o waith i gasglu'r data hwn yng Nghymru. Rydym yn gweithio gydag eraill i fynd ar drywydd hyn i sicrhau bod gennym ddata dibynadwy a gaiff ei gasglu'n rheolaidd am geisiadau ar gyfer Gorchmynion Amddifadu o Ryddid sy'n ymwneud â phlant o Gymru, ac yn benodol, ceisiadau gan awdurdodau lleol.

- Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer lleihau nifer y ceisiadau a wneir drwy fuddsoddi mewn ymyrraeth gynharach a chymorth therapiwtig priodol i'r plant a'r bobl ifanc sydd â'r lefel hon o anghenion.

- Yn sgil y problemau hirsefydlog o ran cael llety yn lleol i blant ag anghenion cymhleth, yn 2023, cynhaliom adolygiad o wasanaethau a rhoi ar waith fframwaith monitro mwy cadarn i nodi a chysylltu'n strategol ddatblygiadau o'r cam cyfalaf hyd at weithredu drwy ein ffrydiau cyllido. Yn ogystal, rydym wedi sefydlu Fforwm Arferion Da sy'n cynnwys dros 180 o ymarferwyr o bob rhan o'r sector ac sy'n cyfrannu at ddatblygu pecyn cymorth arferion da.

- Ar gyfer y garfan hon o blant, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o sefydlu llety preswyl therapiwtig a gwasanaethau arbenigol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn 2024/25, gwnaethom fuddsoddi cyllid gwerth £12.9m o'r Gronfa Tai â Gofal mewn cartrefi i blant a phobl ifanc.

| |
|---|
| • Mae ein gweithgarwch monitro ledled Cymru yn dangos llinell sylfaen yn 2021 o 24 o gartrefi preswyl mewnol i blant ag anghenion cymhleth, gan ddarparu 105 o welyau. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae hynny wedi cynyddu yn sgil 21 o gartrefi mewnol newydd sy'n darparu 67 o welyau ychwanegol. Yn ystod 2024/25, agorwyd cyfanswm o 13 o gartrefi mewnol newydd gan ddarparu 39 o welyau. Disgwylir i 16 o gartrefi mewnol newydd agor yn ystod 2025/26 i ddarparu 64 o welyau ychwanegol.<br><br>• Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynorthwyo teuluoedd sy'n agored i niwed i aros gyda'i gilydd drwy ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth arbenigol drwy wasanaethau ar Ffiniau Gofal awdurdodau lleol. Cronfa **5** mlynedd o hyd yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer cyflawni rhaglen newid hyd at fis Mawrth 2027. Nod y rhaglen yw datblygu modelau gofal integredig, gan gynnwys helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a darparu cymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anghenion cymhleth. Gwnaethom fuddsoddi bron i £23m y llynedd yn y model gofal hwn a disgwyliwn i lefel y gwariant ar gyfer 2025/26 a 2026/27 fod yn debyg. Mae'r cyllid hwn yn helpu i roi cymorth i tua 6,500 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn. |
| **Argymhelliad 21.**<br><br>Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd gan NYAS Cymru yn ei dystiolaeth lafar ar 15 Chwefror 2023, a chan Gymdeithas y Plant yn ei hymateb ysgrifenedig i'n hymgynghoriad, mewn perthynas ag achosion o blant sydd ar goll o ofal. Wrth wneud hynny, dylai nodi'n glir yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid statudol eraill yn eu hymateb i achosion o blant sydd ar goll, a'i barn ar eu galwadau am gyfweliadau dychwelyd adref statudol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn**<br><br>• Rwy'n cytuno'n llwyr â chasgliad y Pwyllgor ei bod yn hollbwysig siarad â phlant a phobl ifanc i geisio darganfod y rhesymau a barodd iddynt benderfynu cymryd y camau a wnaethant. Mae llwybrau clir a chyson i godi materion a phryderon yr un mor bwysig er mwyn atal plant rhag dod i'r casgliad nad oes dewis ond mynd ar goll. Pwysig hefyd yw'r sgyrsiau dilynol ynghylch pam y gwnaethant ddewis gwneud hynny a deall pam eu bod yn credu nad oedd penderfyniad arall y gallent ei wneud. Mae canlyniadau'r sgyrsiau ataliol a'r sgyrsiau ar ôl y digwyddiad yn debyg, sef helpu i nodi |

cymorth a'i roi ar waith i'w helpu gyda beth bynnag y maent yn mynd drwyddo, a'i gwneud yn llai tebygol y byddant yn dewis rhedeg i ffwrdd eto.

- Mae'r risgiau i blant a phobl ifanc pan fyddant ar goll yn glir. Mae unfrydedd ar draws y sector ynghylch y risgiau hynny gan ei bod yn hanfodol fod pawb yn defnyddio pob adnodd posibl i helpu plant a phobl ifanc i allu dod i benderfyniad gwahanol a lliniaru achosion pan fyddant yn mynd ar goll. Rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan NYAS a Chymdeithas y Plant ar y mater hwn. Rydym yn clywed y negeseuon clir y maent wedi'u darparu yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ac fel rhan o'n gwaith parhaus gyda phartneriaid o bob rhan o'r sector i ddod i gonsensws a safbwynt ar y cyd lle bynnag y bo modd. Mae hwn yn fater heriol ac yn un lle nad oes consensws eto ar sut i ddatrys safbwyntiau croes ynglŷn â'r polisi a'r ymarfer o ran plant sydd ar goll. Rydym wedi dwyn ynghyd sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, yn ogystal â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel rhan o ddigwyddiad bord gron ar y pwnc hwn.

- ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gasglu barn plant a phobl ifanc sydd wedi cael cymorth oherwydd iddynt fynd ar goll, ochr yn ochr â phrosiect ar wahân i adolygu polisi, ymarfer a gweithdrefnau i weld sut y gallem sicrhau consensws yn well. Mae swyddogion yn casglu ac yn ystyried yr wybodaeth a'r casgliadau y mae'r prosiectau wedi'u nodi. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod gan blant a phobl ifanc eu hunain farn amrywiol ar werth cyfweliadau dychwelyd adref. Fodd bynnag, gallant fod yn ddefnyddiol os cânt eu cynnal yn dda ac maent yn ffordd bwysig i weithwyr proffesiynol helpu i nodi patrymau ymddygiad a rhoi atebion ar waith. Mae'n ymddangos bod y dystiolaeth a'r farn y dylai Cymru ddilyn y dull a ddefnyddir mewn mannau eraill, sef gwneud cyfweliadau dychwelyd adref yn orfodol, yn parhau i fod yn gyfyngedig. Y cam nesaf yw rhannu canfyddiadau'r gwaith hwn gyda phartneriaid ac archwilio'r ffordd orau o gyflawni ein bwriad, ein heffaith a'n canlyniadau ar y cyd fel rhan o drefniadau cydlynol a chyson sy'n grymuso ac yn galluogi dulliau cymesur sy'n parhau i roi lle canolog i blant a'u barn, eu dymuniadau a'u teimladau.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Arweiniodd dadansoddiad o'r ymchwil y cyfeirir ato yn yr ymateb gwreiddiol i'r Pwyllgor at sefydlu Grŵp Llywio amlasiantaethol ar gyfer Plant sy'n mynd ar Goll o Gartref neu o Ofal ym mis Medi 2024. Roedd cynllun gwaith y grŵp yn cynnwys y canlynol:
  - adolygu'r Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant sy'n Mynd ar Goll o Ofal a'r canllawiau Plant y Tu Allan i'r Ardal/Trawsffiniol ynghylch plant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'w hardal awdurdod lleol yng Nghymru neu wedi'u lleoli yn Lloegr;
  - datblygu a chytuno ar set ddata amlasiantaethol graidd;

- mapio’r trefniadau presennol ar gyfer cynnal cyfweliadau dychwelyd adref/cyfarfodydd briffio plant ar goll.

- Mae’r Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan a’r canllawiau Plant y Tu Allan i’r Ardal/Trawsffiniol bron iawn wedi’u cwblhau, ac rydym wrthi’n trafod eu hail-lansio â Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Am y tro cyntaf, bydd Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan yn cynnwys disgwyliad bod pob plentyn a pherson ifanc sy’n mynd ar goll, boed hynny o gartref neu o ofal, yn cael y cyfle i drafod y profiad hwn. Rydym wedi cael cymorth â hyn gan NYAS a Llamau i sicrhau bod digon o ganllawiau yn y ddogfen o ran ni waeth pwy y mae’r plentyn yn nodi fel y person y mae’n dymuno siarad ag ef, bod ganddo wybodaeth am bwrpas y cyfarfod hwn ac ym mha fodd y dylid ei gynnal er budd y plentyn.

- Chwe mis ar ôl ail-lansio’r dogfennau canllawiau hyn, byddwn yn ymgynghori â phartneriaid allweddol, gan gynnwys plant, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i ystyried pa mor dda y maent yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer.

- Wrth fapio’r ddarpariaeth ledled Cymru, rydym wedi nodi gwahaniaethau yn y modd y caiff cyfweliadau dychwelyd adref/cyfarfodydd briffio plant ar goll eu cynnal a chan bwy y cânt eu cynnal. Mewn rhai ardaloedd, mae’r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal gan swyddogion yr heddlu. Mewn ardaloedd eraill, mae gwasanaethau a gomisiynir, fel NYAS, yn eu cynnal, ac mae gan rai awdurdodau lleol eu darpariaeth ‘fewnol’ eu hunain. Yn y Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, rydym wedi cynnwys disgwyliad y bydd pob plentyn yn cael cynnig i gyfarfod â rhywun o’i ddewis wedi achos o fod ar goll er mwyn ystyried ei resymau dros fynd ar goll, nodi unrhyw faterion diogelu pellach neu anghenion unigol y dylid mynd i’r afael â nhw, yn ogystal â nodi ffyrdd y gellir atal achosion pellach o fynd ar goll.

- Gosod y disgwyliad yw cam cyntaf y gwaith hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddeall ymhellach y ddarpariaeth ledled Cymru o ran cyfweliadau dychwelyd adref/cyfarfodydd briffio plant ar goll yn ogystal ag archwilio sut y caiff y dogfennau canllawiau eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu ar y camau nesaf i wella cysondeb dulliau gweithredu amlasiantaethol o ran cyflawni’r gwaith hwn.

- Bydd NYAS a Llamau yn cael eu gwahodd i ymuno â’r grŵp amlasiantaethol y byddwn yn ei sefydlu yn y gwanwyn yn 2026 i ddatblygu set ddata graidd ar gam-drin plant yn rhywiol o dan y Strategaeth Genedlaethol ddeng mlynedd o hyd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn sgil y gydberthynas gref rhwng mynd ar goll a’r risg o wynebu, neu wynebu camfanteisio’n rhywiol ar blant.

- Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda NYAS, Llamau, tîm Arloesi a Dadansoddi y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru sy’n ymwneud â chasglu a dadansoddi data er mwyn archwilio sut y gallwn gyflawni

| |
|---|
| set ddata amlasiantaethol ynghylch plant sy'n mynd ar goll o gartref neu o ofal. Gydag amser, bydd y grŵp hwn yn ehangu i gynnwys partneriaid allweddol eraill fel yr heddlu ac iechyd. |
| **Argymhelliad 22.**<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed (fel y nodir yn adrannau 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau ymarfer, gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i'n Barod) i 25 oed ar gyfer pobl sy'n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu yn nhymor y Senedd hon i sicrhau bod gan bob person sy'n gadael gofal hawl i Gynghorydd Personol hyd at 25 oed. Gellir gwneud y newidiadau hyn drwy Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol am hyn, a'r disgwyliadau o ran y cyllid a ddarperir. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Bydd unrhyw berson ifanc yn wynebu heriau wrth drosglwyddo i fywyd fel oedolyn yn sgil mwy o gyfrifoldebau a byw yn annibynnol. Rydym yn cydnabod bod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn wynebu heriau ychwanegol. Gall y rhain ymwneud â rheoli newidiadau wrth adael gofal, gan gynnwys y disgwyliad i fyw fel oedolyn ar unwaith a chael annibyniaeth ariannol a byw yn annibynnol, wrth i bobl ifanc eraill efallai gael cymorth eu rhieni i'w helpu i lywio'r heriau hyn.<br><br>• Mae pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn teimlo fel nad ydynt wedi'u paratoi, gan gyrraedd pwynt o ddiffyg cymorth ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn wynebu anghydraddoldebau mewn canlyniadau o gymharu â'u cyfoedion. |

| |
|---|
| • Ers 2017/18, mae awdurdodau lleol wedi cael cyllid ychwanegol gwerth £1m i estyn cymorth gan Gynghorwyr Personol i'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 21 a 25 oed.<br><br>• Y llynedd, cynhaliom arolwg o wasanaethau ledled Cymru i'r rhai sy'n gadael gofal i ganfod faint ohonynt oedd yn cynnig gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Dangosodd yr arolwg fod 90% yn cynnig gwasanaeth gan gynghorwyr personol i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, er nodwyd rhai bod hyn ar sail anghenion.<br><br>• Rydym wedi ymrwymo o hyd i adolygu ein his-ddeddfwriaeth ynglŷn â'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys estyn hawl y rhai sy'n gadael gofal i Gynghorydd Personol hyd at 25 oed, ond bwriadwn wneud hyn yn rhan o'n hadolygiad ehangach o God Ymarfer Rhan 6. I lywio'r gwaith hwn, rydym yn aros am ganlyniadau'r ymchwil bresennol gan CASCADE y disgwylir iddo gyflwyno'i adroddiad y flwyddyn nesaf, yn ogystal â'r gwerthusiad o'r Peilot Incwm Sylfaenol y bwriedir ei gynnal ym mis Tachwedd 2026. Bydd y rhain yn cyfrannu at ein gwaith yn gydgynhyrchiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. |
| **Argymhelliad 23.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau a'r cod ymarfer sy'n ymwneud â chynllun Pan Fydda i'n Barod i:<br>• ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a<br>• dileu rhwystrau i'r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac<br>• ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â'r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda'u gofalwyr maeth. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y newid i fod yn oedolyn fod yn anoddach i adawyr gofal nag i lawer o'u cyfoedion o oedran tebyg. Felly mae'n bwysig bod y bobl ifanc hyn yn cael dilyniant pan fyddant yn oedolion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad oes tarfu sydyn ar eu trefniadau byw, a allai gael effaith negyddol ar eu sefydlogrwydd emosiynol, eu haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth, neu ar eu gallu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. |

| |
|---|
| • Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun Pan Fydda i'n Barod a sicrhau bod pob person ifanc sydd mewn gofal maeth yn cael cynnig cyfle i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed, hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni.<br><br>• Rydym yn ymwybodol bod rhai heriau ynghlwm wrth y cynllun, ac yn ystod y Senedd hon byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod gan fanteisio ar yr wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru ar y newidiadau gofynnol.<br><br>• Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a'r canllawiau presennol i gyflwyno newidiadau a fydd o fudd pellach i'n pobl ifanc a'r gofalwyr sy'n eu cefnogi, ochr yn ochr â darparu sylfaen gadarnach ar gyfer y cynllun Pan Fydda i'n Barod yng Nghymru. Ar yr un pryd, byddwn yn edrych ar ffyrdd o fonitro'r camau gweithredu er mwyn sicrhau dull mwy cyson ledled Cymru. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Byddwn yn comisiynu adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod cyn bo hir. Bydd yr adolygiad hwn ar ffurf gwerthusiad dau gam yn ystod 2025/26 a 2026/27 a bydd yn nodi opsiynau ac argymhellion ar gyfer gwella'r cynllun ac, yn y pen draw, gwella bywydau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. |
| **Argymhelliad 24.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a chynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid allweddol eraill i ganfod sut y gellir ymestyn Pan Fydda i'n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl, y rhwystrau ynghlwm wrth hynny a pha gamau y gellir eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. Dylai'r adolygiad gyflwyno'i adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn ystod tymor y Senedd hon, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n |

| |
|---|
| rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru mewn perthynas â’r newidiadau gofynnol. Fel rhan o’r adolygiad hwn, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddichonoldeb ymestyn y cynllun Pan Fydda i’n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl.<br><br>• Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod tymor y Senedd hon gyda’r bwriad o wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn ystod rhaglen ddeddfwriaethol nesaf y Senedd. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Yn rhan o’r adolygiad y cyfeirir ato uchod, bydd dichonoldeb galluogi pobl ifanc mewn gofal preswyl i elwa ar ddarpariaeth Pan Fydda i’n Barod hefyd yn cael ei ystyried. |
| **Argymhelliad 25.**<br>Mae’r Pwyllgor yn argymell:<br>Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:<br>• Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl â phrofiad o fod mewn gofal sydd â’r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.<br>• Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru ‘cysylltiad lleol’ ar gyfer pobl â phrofiad o fod mewn gofal.<br>• Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws “angen blaenoriaethol” pan fyddant yn ddigartref.<br>• Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl â phrofiad o fod mewn gofal sy’n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail ‘cysylltiad lleol’ os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn yn rhannol**<br><br>• Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym.<br><br>• Er mwyn datblygu’r ymrwymiad hwn mae Panel Adolygu Arbenigol wedi’i sefydlu i adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol. Cafodd y panel ei gynnull ym mis Awst 2022 a bydd yn adrodd ym mis Awst 2023. |

- Fel rhan o'i drafodaethau, mae'r panel wedi ystyried y profiad o ddigartrefedd i'r rhai sy'n gadael gofal a pha fesurau atal wedi'u targedu, a hwylusir naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy ddulliau polisi ehangach, fyddai'n atal digartrefedd yn well i'r grŵp hwn.

- Ar ôl derbyn adroddiad terfynol y Panel Adolygu Arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn, a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhai sy'n wynebu risg; ac i sicrhau, pan na ellir ei atal, ei fod yn anaml, yn fyr, ac nad yw'n digwydd dro ar ôl tro.

- Mae argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi llywio trafodaethau parhaus y panel a'r gwaith datblygu cyfochrog ar y Papur Gwyn ac rydym wedi ymrwymo i weithredu i atal digartrefedd i'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy'r diwygiadau hyn.

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**

- Bydd Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), a gyflwynwyd ar 19 Mai 2025, yn trawsnewid yr ymateb i'r rhai sy'n ddigartref yng Nghymru ac yn newid ein system ddigartrefedd yn sylfaenol, i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynharach ac atal.

- I gydnabod y risg uwch o ddigartrefedd y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ei hwynebu, mae'r Bil yn cyflwyno pecyn o fesurau sydd wedi'u cynllunio ar y cyd i roi diwedd ar y defnydd o'r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal a gwella'r broses o symud o ofal i fyw yn annibynnol.

- Bydd disgwyliad ar wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu protocolau ar y cyd ar gyfer pobl ifanc. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymdeithasol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu ar gyfer rhai pobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddant yn gwneud hynny.

- Bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal y mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol iddynt yn cael eu cydnabod fel grŵp y mae rhaid rhoi ffafriaeth resymol ac, felly, eu blaenoriaethu wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

- Mae hyn yn debygol o fod yn ddull gweithredu mwy effeithiol ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn symud o ofal i fyw yn annibynnol heb ddod yn ddigartref.

| |
|---|
| **Argymhelliad 26.**<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r cymorth a gynigir i bobl ifanc gan Gynghorwyr Pobl Ifanc. Dylai’r adolygiad ystyried:<br>• y pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn sy’n ymwneud â Chynghorwyr Pobl Ifanc a’r broses cynllunio llwybr;<br>• yr effeithiau tebygol ar lwyth gwaith cyfunol Cynghorwyr Pobl Ifanc yn sgil y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn (yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â therfyn oedran uchaf ar gyfer cymorth i’r rhai sy’n gadael gofal a’r rhai sy’n ymwneud â gwasanaethau eiriolaeth optio allan ar gyfer plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal); ac<br>• unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen o ganlyniad. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Derbyn**<br><br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad fel y manylir gan y Pwyllgor yn yr argymhelliad hwn. Bydd yr adolygiad hwn yn llywio’r gwaith a amlinellir yn yr ymateb i argymhelliad 22, sef deddfu yn nhymor y Senedd hon i sicrhau bod gan bob person sy’n gadael gofal hawl i Gynghorydd Personol hyd at 25 oed. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Ym mis Awst 2024, cynhaliom arolwg gan holi awdurdodau lleol am y gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl ifanc sy’n gadael gofal, gan ofyn am wybodaeth ynghylch nifer presennol y Cynghorwyr Personol, swyddi gwag, llwythi achosion, materion o ran recriwtio, disgrifiadau swydd a manyleb o ran hyfforddiant. Mae’r hyn a ddysgom fel a ganlyn:<br>- Cynigiodd 52% awgrymiadau i wella rôl neu wasanaeth y Cynghorydd Personol, a dim ond 8 awdurdod lleol neu 38% oedd yn teimlo bod swyddogaethau Cynghorwyr Personol fel y nodir ar hyn o bryd yn briodol ac yn gyfredol.<br>- Roedd 142 o Gynghorwyr Personol cyfwerth ag amser llawn (mewn 21 o awdurdodau lleol) gyda llwythi achosion yn amrywio o rhwng 10 i 56 o achosion fesul Cynghorydd Personol.<br>- Roedd y mwyafrif o’r awdurdodau lleol (81%) naill ai wrthi’n recriwtio Cynghorwyr Personol neu wedi nodi bod angen rhagor o Gynghorwyr Personol arnynt.<br>- Roedd y mwyafrif helaeth (90%) yn cynnig Cynghorwyr Personol i bobl ifanc sy’n gadael gofal hyd at 25 oed, er bod rhai yn cadarnhau nad oedd hyn yn ddarpariaeth gyffredinol i bob unigolyn a’i bod yn seiliedig ar anghenion.<br>- Mae disgrifiad swydd Cynghorydd Personol yn amrywio’n sylweddol ledled Cymru ac ymddengys bod lefel y sgiliau a’r cymwysterau y mae eu hangen yn is na phroffesiynau cyfatebol eraill. |

| |
|---|
| - Nid yw ymarfer myfyriol neu oruchwyliaeth yn cael eu defnyddio yn gyffredinol ychwaith ac mae'r llwythi achosion, nifer y Cynghorwyr Personol a strwythur timau ar gyfer pob awdurdod lleol hefyd yn amrywio'n sylweddol.<br><br>• Rydym yn cynnal trafodaethau â thimau pobl ifanc sy'n gadael gofal ledled Cymru i greu grŵp cymheiriaid a fydd yn cyfrannu at ddatblygu canllawiau ynghylch y themâu a awgrymir a ganlyn yn sgil yr ymatebion i'r arolygon:<br>➢ Diffiniad clir o Gynghorydd Personol i leihau'r loteri cod post, gan gynnwys disgrifiad rôl, llwythi achosion, goruchwyliaeth, cymwysterau, hyfforddiant, ac ati.<br>➢ Hygyrchedd ac effeithiolrwydd: hawliau i bobl ifanc, enghreifftiau o arferion gorau, adnoddau i olrhain canlyniadau, eglurder o ran categorïau, rhagfynegi'r galw, ac ati.<br>➢ Gweithio'n rhyngasiantaethol a throsglwyddo i wasanaethau oedolion.<br>➢ Sicrhau llais pobl ifanc wrth ddiffinio'r gwasanaeth, hynny yw beth y mae pobl ifanc ei angen gan Gynghorydd Personol, terminoleg a ffefrir a sut orau i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>• Bydd hyn yn sicrhau bod y canllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer y cymorth y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ei gael, gan gynnwys cyfres o ganlyniadau mesuradwy.<br><br>• Yn ogystal, mae CASCADE yn cynnal astudiaeth i ddeall profiadau pobl ifanc sy'n gadael gofal, Cynghorwyr Personol a rhanddeiliaid eraill o ran y cymorth a ddarperir gan dimau Cynghorwyr Personol yn ystod y broses o adael gofal. Bydd yr astudiaeth yn cydweithio â'r rhai sy'n cymryd rhan drwy ddulliau ymchwil cydgynhyrchiol a chyfranogol i ddatblygu canllawiau ymarfer, ymchwil yn y dyfodol a fydd yn gysylltiedig ag ymarfer Cynghorwyr Personol a gwella canlyniadau pobl ifanc sy'n gadael gofal. Rydym yn ymwneud â'r astudiaeth i osgoi dyblygu gwaith a sicrhau ein bod yn ymgorffori ei chanfyddiadau i'r canllawiau.<br><br>• Bydd y gwaith hwn hefyd yn llywio'r adolygiad o'n his-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. |
| **Argymhelliad 27.**<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i wneud y canlynol: |

| |
|---|
| • gosod dyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl â phrofiad o fod mewn gofal; ac<br>• ychwanegu amod cofrestru gorfodol sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad, cadw, lleihau bylchau, cyrhaeddiad a chymorth i bobl â phrofiad o fod mewn gofal. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru adeg yr adroddiad: Gwrthod**<br><br>• Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i hyrwyddo addysg drydyddol i "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol" ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fod ag amod cofrestru ar gyfer darparwyr sy'n ymwneud â chyfranogiad, cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad, a chymorth ar gyfer "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol". Diffinnir "grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol" yn y Ddeddf fel "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol Gymreig o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol".<br><br>• Mae'r disgrifiad hwn yn cynnwys, yn fwriadol, bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae adroddiad y pwyllgor yn tanlinellu ymhellach yr angen i'r Comisiwn weithio gyda sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i annog cyfranogiad pobl â phrofiad o fod mewn gofal mewn addysg drydyddol ac i roi cyfle cyfartal iddynt yn yr addysg honno. Bydd y Ddeddf fel y'i pasiwyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny. |
| **Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Tachwedd 2025**<br><br>• Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) eisoes yn gosod dyletswyddau clir ar Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sefydledig) i hyrwyddo cyfranogiad, cadw dysgwyr a chyrhaeddiad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n cynnwys dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. I gryfhau'r gwaith cyflawni, byddwn yn gweithio gyda Medr i sicrhau bod canllawiau a phrosesau monitro yn cyfeirio'n benodol at ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal fel un o'r grwpiau o dan sylw heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae ymgynghoriad parhaus Medr ar ei system reoleiddio newydd yn cynnig amodau cofrestru gwell i ymgorffori cyfleoedd cyfartal a llwyddiant dysgwyr, gan gynnwys cymorth wedi'i deilwra ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y cyd â Medr i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd ag ymrwymiadau ehangach fel y Siarter Rhianta Corfforaethol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |

Buffy Williams, AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Senedd Cymru

27 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy,

Ynglŷn â: Llythyr at Gymwysterau Cymru ynglŷn â gweithredu diwygiadau addysg

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 20 Hydref 2025, ynglŷn â gweithredu diwygiadau addysg yng Nghymru. Yn y llythyr hwn, rwy'n ymateb i bob un o'ch ymholiadau yn eu tro.

## TGAU Daearyddiaeth

Fel rheoleiddiwr cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, rydym yn gosod Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer pob cymhwyster blaenoriaethol a gynlluniwyd ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Mae Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ein gofynion sylfaenol ar gyfer cymhwyster, gan gynnwys amlinelliad o agweddau ar ei gynnwys a'i asesiad yn gyffredinol. Defnyddir Meini Prawf Cymeradwyo gan gorff dyfarnu sy'n bwriadu datblygu'r cymhwyster. Bwriad y Meini Prawf Cymeradwyo yw caniatáu i gorff dyfarnu ddatblygu cynnwys manwl y cymhwyster a'r gofynion asesu fel nad ydynt yn manylu ar yr holl gynnwys a allai fod wedi'i gynnwys.

Buom yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys arbenigwyr pwnc ac ymarferwyr, i gyd-greu'r gofynion yn y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Daearyddiaeth Gwneud-i-Gymru newydd. Fe wnaethom ymgynghori ar y gofynion dylunio drafft yn Hydref 2022. Fe wnaethom ystyried yr holl adborth yn ofalus cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol o'r Meini Prawf Cymeradwyo ym mis Mehefin 2023. Wrth ddatblygu'r Meini Prawf Cymeradwyo, gwnaethom hefyd ystyried yn ofalus y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Disgrifiadau dysgu yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Yn unol â chwmpas arfaethedig y Meini Prawf Cymeradwyo, mae'r gofynion ar gyfer TGAU Daearyddiaeth yn canolbwyntio ar gysyniadau daearyddol eang y mae'n rhaid eu

cynnwys yn y cymhwyster, megis 'lle', 'amrywiaeth' ac 'amgylchedd'. Nid yw'r Meini Prawf Cymeradwyo yn cynnwys (nac yn eithrio) cynnwys penodol, megis tectoneg platiau ac ecosystemau. Rydym o'r farn y byddai cynnwys y lefel hon o ragnodi yn y Meini Prawf Cymeradwyo yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd i gyrff dyfarnu ddatblygu eu cymwysterau eu hunain, ac y byddai'n mynd y tu hwnt i'n cylch gwaith fel rheoleiddiwr cymwysterau.

Er nad yw tectoneg platiau ac ecosystemau'n ymddangos yn benodol yn y fanyleb newydd ar gyfer TGAU Daearyddiaeth, mae nifer o gyfleoedd i ddysgwyr ystyried effaith ddynol, anhafaleddau a rheoli digwyddiadau daearyddol. Fel yr amlinellwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo, mae nodau'r cymhwyster newydd yn cynnwys:

- Dangos safbwynt daearyddol ar werthoedd, agweddau a safbwyntiau sy'n ymwneud â'r rhyngberthnasau rhwng pobl a'u hamgylchedd
- Gwerthfawrogi natur gymhleth, lluosogol ac amrywiol cymdeithasau a'u rhyngweithio â thirweddau ffisegol amrywiol a deinamig
- Meithrin chwilfrydedd i archwilio achosion, effeithiau a chanlyniadau daearyddol.

Gan adeiladu ar y nodau hyn, mae gofynion cynnwys i ddysgwyr ddangos gwybodaeth ddaearyddol a dealltwriaeth o ffactorau sy'n effeithio ar ddigwyddiadau daearyddol a sut mae'r amgylchedd, pobl a lleoedd yn addasu dros amser a graddfa.

Trwy gydol y Broses Gymeradwyo, gwnaethom ystyried cydymffurfiaeth yn ofalus yn erbyn y gofynion yn y Meini Prawf Cymeradwyo. Fe wnaethom hefyd ofyn am farn arbenigwyr pwnc a oedd yn rhan o'n Panel Cymeradwyo ar sut roedd y cymhwyster wedi'i ddatblygu. Roedd y Panel Cymeradwyo ar gyfer Daearyddiaeth yn cynnwys unigolion sy'n aelodau o'r Gymdeithas Ddaearyddol ac sydd ag arbenigedd a phrofiad sylweddol yn y maes hwn. Rydym yn hyderus bod TGAU Daearyddiaeth newydd yn cyflawni'r nodau hyn ac yn ymgorffori'r gofynion cynnwys yn effeithiol.

Mae Tirweddau a Pheryglon Tectonig yn thema ddewisol yn y fanyleb TGAU Daearyddiaeth a oedd ar gael i'w haddysgu cyn Medi 2025. Mae hyn yn golygu na fydd pob dysgwr wedi astudio'r pwnc hwn yn fanwl cyn symud ymlaen i astudio UG a Safon Uwch. Bydd y cymwysterau UG a Safon Uwch wedi'u cynllunio i ystyried hyn.

Ar hyn o bryd mae CBAC yn cynnal adolygiad wedi'i dargedu o Safon UG a Safon Uwch Gymeradwy yng Nghymru i wirio a oes angen diwygiadau i UG a Safon Uwch. Byddant hefyd yn gwirio bod y cynnwys yn gyfredol. Gan fod y TGAU wedi'u cynllunio i gefnogi cynnydd i'r ystod bresennol o UG a Safon Uwch cymeradwy, nid ydym yn rhagweld y bydd angen newidiadau sylweddol yn y mwyafrif o bynciau. Fodd bynnag, os nodir bylchau neu anghysondebau, yna bydd CBAC yn diwygio'r manylebau UG a Safon Uwch yn unol â hynny, a'u cyflwyno i ni i'w cymeradwyo. Os bydd CBAC yn nodi bod angen

gwelliannau mewn Daearyddiaeth, cyhoeddir manyleb ddiwygiedig ym mis Medi 2026, yn barod ar gyfer yr addysgu cyntaf o fis Medi 2027. Dyma pryd y bydd y garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n astudio'r TGAU Daearyddiaeth newydd yn cyrraedd ôl-16.

### TGAU Hanes Naturiol

Ar hyn o bryd nid oes gennym gynlluniau i ddatblygu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU mewn Hanes Naturiol Gwneud-i-Gymru. Yn 2021, fe wnaethom ymgynghori ar yr ystod o gymwysterau TGAU y dylid eu darparu i gefnogi Cwricwlwm i Gymru. Er na wnaethom gasglu adborth yn benodol ynghylch a ddylid datblygu TGAU Hanes Naturiol ai peidio, ni chawsom unrhyw adborth a oedd yn awgrymu bod cyfle wedi'i golli neu alw am gymhwyster o'r fath yng Nghymru.

Byddwn yn monitro'r gwaith o ddatblygu TGAU mewn Hanes Naturiol yn Lloegr. Ar ôl ei ddatblygu, os yw corff dyfarnu'n dymuno ei sicrhau bod ar gael yng Nghymru, byddant yn gallu gwneud cais atom am ddynodiad. Er mwyn cael ei ddynodi yng Nghymru, bydd angen i'r cymhwyster gydymffurfio â'n Polisi Dynodi. Er mwyn cydymffurfio â'r polisi hwn, bydd angen i'r cymhwyster fod ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac ni ddylai danseilio unrhyw un o'n cymwysterau Gwneud-i-Gymru.

O fis Medi 2027 ymlaen, bydd ysgolion yn gallu cynnig TAAU a/neu gymhwyster Sylfaen mewn Adfer Natur, ac unedau Sgiliau Bywyd mewn meysydd fel 'Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol' a 'Cynaliadwyedd ar Waith'. Mae'r manylebau ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan gyrff dyfarnu a byddant ar gael o fis Medi 2026 ymlaen.

Gobeithio bod y wybodaeth yma'n ddefnyddiol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu i drafod cynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi Philip.blaker@qualifications.wales

Yn gywir,



Philip Blaker

Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX
029 2026 5000 gwybodaeth@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

245 Western Avenue, Cardiff, CF5 2YX
029 2026 5000 info@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

sent via e-mail

Buffy Williams MS
Chair of Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

28 November 2025

Dear Buffy

**Made for Wales GCSE Geography**

Thank you for your letter dated 20th October 2025 about the Made for Wales GCSE Geography.

You noted that you had heard concerns about WJEC's new Made for Wales GCSE Geography which has started to be taught in schools this academic year. In particular, you had heard concerns that the qualification no longer includes plate tectonics or ecosystems in its content.

WJEC developed the qualification to meet the requirements of Qualifications Wales' Approval Criteria. We worked with a range of stakeholders in the development of our qualification, ensuring that the qualification supports the Curriculum for Wales and offers learners a relevant learning experience as well as meeting the requirements of the Approval Criteria. In addition to working with external writers and reviewers, we established a Qualification Development Advisory Group which consisted primarily of subject teacher and we engaged with this group at key stages during the development process to inform our design.

During the development of the qualification, we were mindful of the significant manageability of content concerns raised by teachers across Wales during the lifetime of the legacy qualification and were careful not to overload the qualification. We were also conscious that we needed to allow sufficient time to teach the skills for conducting a high-quality fieldwork investigation and complete one piece of fieldwork in depth.

In the context of the above, there were therefore some difficult decisions to be made about the content that should be included in the new qualification.

The Approval Criteria do not require either tectonics or ecosystems to be included in the subject content, but require coverage of broad concepts such as place, diversity and environment.

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332).
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registered in England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332).

245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX
029 2026 5000 gwybodaeth@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

245 Western Avenue, Cardiff, CF5 2YX
029 2026 5000 info@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

Although plate tectonics is included in our legacy GCSE Geography, it is an optional topic and approximately half of schools in Wales currently do not select it. We understand from discussions with teachers that both plate tectonics and ecosystems are currently taught in the earlier years of secondary school, and in many cases also at primary school. Tectonics is then covered in great depth in the current WJEC AS Level, and again in the A2 course, and ecosystems are in two from four optional themes in A2 Unit 4. We therefore felt that there was more value in covering different content in the GCSE as opposed to teaching the same topics throughout a learner's educational journey to provide greater breadth. The AS and A level accounts for the fact that not all learners will have studied tectonics at GCSE and therefore its removal from the new GCSE does not have a negative impact on progression.

Plate tectonics and to a lesser extent ecosystems do not give the same fieldwork opportunities as the topics included in the new qualification. We have included topics such as Rivers and Coasts for example, that lend themselves to good quality physical fieldwork. In discussion with stakeholders, we were very keen to include both migration and in-depth coverage of climate change and its causes, impacts and management, as these are topics of great relevance to our learners. The final content was selected to give a broad and balanced coverage of key human and physical geography topics that reflected the aims of the Approval Criteria and relevant Statements of What Matter.

We believe the new Made for Wales GCSE Geography is a stimulating combination of key 'traditional' topics such as rivers, coast, settlement and development, and key 'current' topics such as migration, inequality, climate change, and extreme weather and climate. This will serve learners well in terms of a rich and broad learning experience in line with the ethos of the Curriculum for Wales and will provide a solid foundation to further progression in the subject.

In terms of the development of GCSE Natural History, WJEC can only develop Made for Wales GCSEs in subjects specified by Qualifications Wales.

Yours sincerely

Ian Morgan

Ian Morgan
Chief Executive

cc Lynne Neagle, MS, Cabinet Secretary for Education

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332).
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registered in England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332).

Eitem 3.8

245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX
029 2026 5000 gwybodaeth@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

245 Western Avenue, Cardiff, CF5 2YX
029 2026 5000 info@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

sent via e-mail

Buffy Williams MS
Chair of Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

28 November 2025

Dear Buffy

**Made for Wales GCSE Music – on-screen assessment**

Thank you for your letter dated 20th October 2025 about on-screen assessments in the Made for Wales GCSE Music.

You noted that you had heard concerns that learners accessing on-screen examinations in June 2027 would be using software and hardware that they have never used before during the exam as papers would only be available in paper format.

The Specimen Assessment Material for the new GCSE Music Unit 3 are currently available in an on-screen format for schools to use/sit with their candidates at any time. All our on-screen exams run through our Surpass software which staff at schools will need to have accounts created by WJEC staff to access the platform. Schools are also welcome to contact e-Assessment@wjec.co.uk for further guidance regarding the setting up of on-screen exams.

You also noted that learners who currently use Chromebooks will also be using an unknown operating system on a laptop, potentially for the first time, and you queried who will be providing the equipment for the exam, with concerns around inconsistencies in the quality of the equipment.

Although the software used for completing on-screen exams is Windows-based only, our software providers are in the process of developing a Chromebook application. This is currently in a pilot phase of testing with a release date yet to be confirmed but we are confident that it will be available to schools by the end of this academic year. The experience for the candidate for the live exam will be the same whether a candidate uses a Chromebook or a Windows-based machine and a candidate will answer the questions in the same way regardless of the device being used.

Finally, you queried who will be providing the equipment for the exam, with concerns around inconsistencies in the quality of the equipment.

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332).
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registered in England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332).

245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX
029 2026 5000 gwybodaeth@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

245 Western Avenue, Cardiff, CF5 2YX
029 2026 5000 info@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

The equipment a candidate will use for the exam will need to be provided by the school and we produce guidance detailing the minimum specification of the devices needed to be used during the on-screen exam. We are aware through our membership of joint change management groups with Welsh Government and Qualifications Wales that Welsh Government is working with Local Authorities to ensure schools are prepared for on-screen assessments.

Yours sincerely

Ian Morgan
Chief Executive

cc Lynne Neagle, MS, Cabinet Secretary for Education
Philip Blaker, Chief Executive, Qualifications Wales

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332).
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registered in England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332).

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Sarah Murphy AS

1 Rhagfyr 2025

Cymorth Iechyd Meddwl Amenedigol - Cwestiynau heb eu hateb

Annwyl Sarah,

Diolch am eich ymateb diweddar dyddiedig 12 Tachwedd ynghylch y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol ac Uned Gobaith. Er y gwerthfawrogir yr amser a gymerwyd i ymateb a chydnabyddwn fod rhai materion a godwyd yn flaenorol wedi cael sylw yn eich dau ymateb, rydym yn parhau i fod yn hynod siomedig, er gwaethaf ein cais penodol ac ailadroddus i ateb pob un o'n cwestiynau yn unigol, nid yw hyn wedi'i wneud.

Gofynnodd y Pwyllgor bum cwestiwn penodol yn ein llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf. Roedd eich ymateb ar 18 Medi yn cyffwrdd â rhai o'r meysydd, ond nid oedd yn cyfeirio'n glir at y cwestiynau eu hunain. Am y rheswm hwnnw, fe wnaethom ailadrodd y cwestiynau hyn yn ein llythyr dyddiedig 13 Hydref, ac roedd hwn yn adlewyrchu difrifoldeb y pryderon a godwyd gan randdeiliaid. Yn anffodus, nid yw eich gohebiaeth ddiweddaraf yn rhoi'r eglurder sydd ei angen o hyd, ac mae materion allweddol heb eu datrys.

Felly gofynnwn i chi ddarparu **atebion llawn ac eglur i bob un o'r cwestiynau a restrir isod**, heb oedi pellach:

1. Nodwn mai "cynnig" yw hwn ar hyn o bryd [sef diddymu'r Rhwydwaith a'r Arweinydd]. A allwch chi gadarnhau statws y cynigion hyn, ac a oes ystyriaeth yn cael ei rhoi i gadw'r Rhwydwaith a Rôl yr Arweinydd Clinigol?

2. Beth yw'r rhesymau dros y cynnig, a pha opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?

3. A allwch chi hefyd esbonio pam nad oes ymgynghori ac ymgysylltu ehangach wedi bod ar y cynigion eu hunain, ac egluro a fydd hyn yn cael ei gywiro?

4. Os caiff y Rhwydwaith ei ddiddymu, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod yr anghydraddoldebau sy'n bresennol ar hyn o bryd yn y system yn cael eu lleihau a'u dileu yn y pen draw?

5. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi diweddariad ynghylch pryd y bydd yr Uned Mamau a Babanod yng Nghaer ar agor i deuluoedd Cymru, ynghyd â chadarnhad o statws hirdymor Uned Gobaith? Yn olaf, pryd y bydd argymhellion yr adolygiad blwyddyn o Uned Gobaith yn cael eu gweithredu.

O ystyried arwyddocâd y materion hyn i deuluoedd ledled Cymru, edrychwn ymlaen at ymateb cynhwysfawr erbyn 9 Ionawr fel y gall y Pwyllgor ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Information from the Taith Programme following the Committee meeting on 27th November 2025

Dear Chair and Members of the Children, Young People and Education Committee

I am writing in a professional capacity as Executive Director of the Taith programme. My name is Susana Galván Hernández, and I can be reached at GalvanHernandezS@taith.wales

I am writing to you on the back of the Committee's meeting of 27th November 2025, where the Welsh Government Draft Budget 2026/27 was discussed (item 2 of the Agenda). Particularly, I would like to provide some clarification and additional information in relation to a short discussion that was had during this meeting about the Taith programme, following a question from Mr Russell George on "the importance of Taith", its "value for money" and the qualitative assessment of the impact that the programme is delivering.

In response to the above question, the publication of the "evaluation" of the Taith programme was stated as something that was going to happen soon. However, this information is not accurate. An independent interim evaluation of the Taith programme was already completed in June 2025. The key headlines and the Executive Summary of this evaluation were published on the Taith website on 18th August 2025 and can be accessed on this link: https://www.taith.wales/news/independent-evaluation/

A final independent evaluation of Taith will be carried out at the end of the programme, by 31st March 2028.

In addition to the independent evaluation of the programme, quantitative and qualitative data from all Taith-funded projects are collected on an ongoing basis. These data provide a comprehensive and in-depth level of evidence to understand and measure the effectiveness, value and impact of the programme.

These data and evidence are publicly available on our website and updated regularly:

- Information on applications and participants for all funding calls, across all sectors, since Taith was launched in 2022, as provided at application stage: https://www.taith.wales/impact/planned-projects/
- Detailed information on all the completed projects, searchable by sector, local authority or at individual organisational level. There is an individual project summary for each of the completed projects, including information about the level of grant

awarded, the number of participants/mobilities that have taken place (outward and inward), the percentage of participants from underrepresented groups, the impact of the mobilities, countries of exchange, quotes from participants, etc: https://www.taith.wales/impact/completed-projects/

- A library of Taith Stories providing direct testimonials and experiences of the life-changing opportunities made possible via Taith funding, in different formats (photos, written, video stories, etc). These stories are fundamental in providing a qualitative assessment of the programme, in a way that only quantitative data would be unable to provide. We strongly recommend browsing some of these stories to anyone who would like to better understand the objectives of the programme and its value and impact.

I hope the above information can be shared with members to clarify the point on the evaluation of the programme and also to answer some of the questions put forward about its value and impact – both in quantitative as well as qualitative terms. We are always open to hear about any ideas or suggestions on how we could better articulate and share the impact and success of the programme.

Of course, we are available at any point to answer any questions or clarify any of the information provided.

Best Wishes

Eitem 3.11

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/JMHSC/0638/25

Buffy Williams AS
Y Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

9 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy,

Yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Gyllideb Ddrafft ar 19 Tachwedd, rydym yn ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi yn dilyn y sesiwn.

**Y dyddiad pan fydd y Datganiad Ansawdd Integredig ar Iechyd Plant ar gael.**

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 12 Tachwedd, bydd y Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Iechyd Plant yn nodi disgwyliadau clir i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaethau iechyd teg, effeithiol ac o ansawdd uchel i blant yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Plant i gyd-gynhyrchu Datganiad Ansawdd drafft. Bydd cyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd ar ddechrau 2026. Bydd y dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y Datganiad Ansawdd yn adlewyrchu'r heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau ac yn cefnogi dealltwriaeth gyffredin o'r newidiadau sydd eu hangen yn y dyfodol.

Rwy'n rhagweld y bydd y Datganiad Ansawdd Integredig terfynol ar gyfer Iechyd Plant yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Mawrth 2026.

**Rhestr o ymyriadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan dynnu sylw at y rhai lle mae angen cyflawni newid i wella perfformiad a chyflawniad mewn ffordd gynaliadwy a'r meysydd lle mae angen buddsoddiad newydd.**

Mae gwaith ar draws y portffolio hwn yn cefnogi ystod o ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r ymyriadau hyn yn cyd-fynd â'r cynllun Plant a Phobl Ifanc i sicrhau y dylai “pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chefnogaeth i rieni neu ofalwyr. Dylent gael eu cefnogi gartref, mewn gofal plant ac yn yr ysgol, ac wrth iddynt symud rhyngddynt.”

Mae enghreifftiau o'n rhaglenni allweddol yn cynnwys:

- **Dechrau'n Deg** sy'n cynnwys pedair elfen graidd: sef gofal plant o safon sydd wedi'i ariannu'n llawn, cymorth rhianta, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae **Ehangu Dechrau’n Deg** yn ymestyn y cynnig o ofal plant o ansawdd uchel i blant dwy oed, gan flaenoriaethu cymunedau difreintiedig. Mae'r dull graddol hwn yn mynd i'r afael â chyfyngiadau a chapasiti'r gweithlu.
- Diben **Teuluoedd yn Gyntaf** yw gwella canlyniadau i'r teulu cyfan, gan ganolbwyntio ar amddiffyn hawliau a llesiant babanod, plant a phob ifanc. Mae'r rhaglen gynhwysol yn defnyddio dull seiliedig ar gryfderau ac yn rhoi pwyslais ar atal, cymorth a chefnogaeth gynnar er mwyn annog teuluoedd hapus, gwydn ac annibynnol sydd wedi'u hymrymuso.
- **Fframwaith Gweithredu’r Blynyddoedd Cynnar** a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi'n glir elfennau allweddol system blynyddoedd cynnar effeithiol ac yn diffinio beth mae da yn ei olygu ym mhob maes.
- Mae **Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** yn ceisio ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith, a chyfathrebu.
- Mae'r **Cynnig Gofal Plant** yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg feithrin a gofal plant wedi’u hariannu gan y llywodraeth i rieni cymwys sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
- Mae **Bwndeli Babi** yn cael eu darparu drwy dargedu ardaloedd daearyddol i leihau'r pwysau ariannol y mae teuluoedd yn ei wynebu yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Mae **rhaglenni brechu plant** yn anelu at amddiffyn plant rhag clefydau a allai fod yn ddifrifol. Mae'r amserlen yn newid o 1 Ionawr 2026 i gyflwyno rhaglen frechu rhag brech yr ieir (varicella) sy'n cynnwys cyllid ychwanegol o £2 filiwn. Mae’r newidiadau sy’n cael eu cyflwyno hefyd yn helpu i amddiffyn plant o oedran cynharach ac yn rhoi cyfle i gynyddu’r niferoedd sy’n manteisio ar frechlynnau.
- Mae cynllun cyflawni **Pwysau Iach Cymru Iach** 2025-2027 yn canolbwyntio ar gefnogi babanod a phlant i gyflawni pwysau iach a byw bywydau iachach
- Mae'r **Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig** yn cynnig sgrinio babanod ar gyfer cyflyrau prin ond difrifol a fyddai'n elwa o ymyrraeth gynnar, gan atal salwch difrifol neu hyd yn oed farwolaeth os na chaiff ei drin yn gynnar.
- Mae'r **Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod** yn adnabod babanod ag amhariad sylweddol ar y clyw fel y gellir darparu cymorth yn gynnar.
- Mae **Rhaglen Plant Iach Cymru (HCWP)** yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer byrddau iechyd i ddarparu gwasanaeth ymweliadau iechyd cyffredinol i bob teulu. Mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo iechyd, gwiriadau datblygiadol, ac adnabod anghenion yn gynnar. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cwmpasu'r

cyfnod o drosglwyddo o wasanaethau mamolaeth trwy flynyddoedd cynnar yr ysgol. Mae'r rhaglen yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo iechyd a llesiant plant, gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd i blant yng Nghymru.

- Mae **Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol** yn cyflwyno model unedig newydd ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion, gan sicrhau cysylltiadau iechyd cyffredinol wedi'u cynllunio ar gyfer pob plentyn oedran ysgol gorfodol (5–16 oed) yng Nghymru, waeth beth fo'r lleoliad. Mae'r model gweithredu hwn yn adeiladu ar y Rhaglen Plant Iach Cymru bresennol, gan gwblhau'r cyfnod oedran o enedigaeth hyd at ddiwedd y blynyddoedd ysgol gorfodol a'i nod yw darparu cynnig iechyd cyson a theg i bob plentyn a pherson ifanc. Pwrpas y model yw cyflwyno rhaglen genedlaethol strwythuredig o gysylltiadau craidd cyffredinol, gan flaenoriaethu atal salwch a chefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd a'u lles drwy gydol eu blynyddoedd ysgol.

Mae ein holl raglenni yn cael eu monitro trwy gyfuniad o fesurau canlyniadau clir, adroddiadau data rheolaidd**,** a gwerthusiad/adolygiad annibynnol i nodi a llywio meysydd i'w gwella.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'n holl feysydd polisi sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, ac mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith bod tua 95% o gyllideb y Prif Grŵp Gwariant yn cael ei ddyrannu i'r GIG a fydd yn gosod eu cyllidebau eu hunain ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar anghenion eu poblogaeth.

Er mwyn gwella perfformiad a chyflawni mewn ffordd gynaliadwy, bydd ein ffocws yn parhau i fod ar y meysydd canlynol:

- Capasiti a Chynaliadwyedd y Gweithlu
- Integreiddio Cymorth Arbenigol
- Blaenoriaethu gwaith atal

**Ffigurau i ddangos y cynnydd a wnaed gyda'r rhaglen Cynllun Gwên yn y wardiau mwyaf difreintiedig.**

Ers cyflwyno ein papur tystiolaeth mae adroddiad blynyddol Cynllun Gwên ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 wedi'i gyhoeddi. Rwy'n falch o roi gwybod ei fod yn dangos cynnydd gwirioneddol mewn gweithgarwch, er enghraifft:

- Yn gyffredinol, darparodd 79% o feithrinfeydd cymwys a 531 o ysgolion (63% o'r ysgolion cymwys) raglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd o 17% ar y flwyddyn flaenorol.
- Cymerodd 59,079 o blant ran mewn rhaglen brwsio dannedd yn eu meithrinfa neu ysgol gynradd yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd o 17% ar y flwyddyn flaenorol.
- Mae cyfranogiad uchel yn y cymunedau mwyaf difreintiedig gyda 90% o feithrinfeydd MALIC1 ac 82% o feithrinfeydd MALIC2 yn cymryd rhan, yn

ogystal â 72% o ysgolion cynradd MALIC1 a 66% o ysgolion cynradd MALIC2 — sy’n uwch neu'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol.

- Dosbarthwyd 167,695 o becynnau brwsio dannedd gartref mewn meithrinfeydd ac ysgolion i blant sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Cynllun Gwên, i annog brwsio dannedd ddwywaith y dydd gartref.
- Cymerodd 621 o leoliadau (75% o ysgolion cymwys) ran yn elfen farnais fflworid y rhaglen. Mae hyn yn gynnydd o 14%.
- Cafodd 40,997 o blant roi farnais fflworid ar eu dannedd yn eu hysgol. Mae hyn yn gynnydd o 15%.
- Canolbwyntiwyd ymyriadau ataliol lle mae eu hangen fwyaf: Mae'r defnydd o farnais fflworid ar ei uchaf mewn ysgolion difreintiedig (91% MALIC1, 88% MALIC2), gyda bron i 36,000 o blant yn ei gael.
- Derbyniodd 4,668 o staff meithrinfeydd ac ysgolion hyfforddiant gan y tîm Cynllun Gwên, ar sut i gyflwyno eu rhaglen brwsio dannedd.

O ran effaith, er ei bod yn anodd priodoli'r gwelliannau yn iechyd y geg ymhlith plant, mae data epidemiolegol Cymru yn dangos bod mynegai goleddf anghydraddoldeb (mesur gwahaniaethau clefydau rhwng pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig) ar gyfer achosion o bydredd dannedd wedi lleihau rhwng 2008/09 a 2023/24. Ein cenhadaeth yw parhau i leihau'r bwlch hwnnw gyda chefnogaeth rhaglenni fel Cynllun Gwên a thrwy wella mynediad i ddeintyddiaeth trwy ddiwygio'r contract deintyddol.

**Diweddariadau ar y Bwrdd Cenedlaethol a sefydlwyd i oruchwylio cyflawni'r cynllun cyflawni Pwysau Iach, Cymru Iach 2025 i 2027.**

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi trefniadau ac ymrwymiadau llywodraethiant ac atebolrwydd newydd a chliriach i gryfhau ac ymgorffori ymhellach ddulliau system gyfan ar lefel gymunedol a chenedlaethol.

Bydd y trefniadau newydd hyn yn galluogi atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni cynnydd tuag at ein canlyniadau cyffredin, gyda chefnogaeth fframwaith nodau a dangosyddion newydd Pwysau Iach: Cymru Iach. Bydd gweithgorau thematig newydd yn cael eu sefydlu, gan gynnwys partneriaid cenedlaethol a lleol, i helpu i lywio sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn.

Yn ogystal â'r gweithgorau thematig, bydd grŵp trosolwg strategol newydd yn sicrhau bod nodau ein strategaeth a’n cynllun cyflawni wedi’u cydgysylltu, eu cyfathrebu, eu monitro a’u gwerthuso yn effeithiol. Hwn fydd y bwrdd cenedlaethol ar gyfer asesu cynnydd ac atebolrwydd yn y system. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio ein dull gweithredu.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Eitem 3.12

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: MA/SM/1344/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy,

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ganlyniadau ei astudiaeth farchnad ar fformiwla babanod. Ffocws yr astudiaeth farchnad oedd y diffyg cystadleuaeth yn y farchnad fformiwla babanod a'r effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar ddewis i ddefnyddwyr a fforddiadwyedd cynhyrchion fformiwla babanod. Roedd eu hadroddiad terfynol yn cynnwys rhestr o argymhellion i lywodraethau ledled y DU eu hystyried.  Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda swyddogion yng ngwledydd eraill y DU i ddatblygu ymateb pedair gwlad i argymhellion y CMA.

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau bod Llywodraeth y DU heddiw wedi cyhoeddi ymateb i'r CMA ar ran holl wledydd y DU. Fel y nodir yn yr ymateb, mae gweinidogion ym mhob un o'r gwledydd wedi cytuno i fwrw ymlaen â phecyn o fesurau anneddfwriaethol i fynd i'r afael â'r materion gyda'r farchnad fformiwla babanod a nodwyd yn adroddiad y CMA. Rydym yn bwriadu adolygu effaith y pecyn anneddfwriaethol hwn maes o law ac ystyried a oes angen camau pellach, gan gynnwys newid posibl mewn deddfwriaeth. Felly, byddaf yn ysgrifennu atoch eto os ydym yn penderfynu trwy ein gwaith y gallai fod angen newid mewn ymagwedd.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Minister for Mental Health and Wellbeing
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.13

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Ein cyf/Our ref MA/LN/2730/25

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NQ

SeneddPlant@senedd.cymru

4 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Awst yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn adroddiadau'r Pwyllgor ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac absenoldeb disgyblion, a gynhaliwyd yn 2022. Rwy'n ymateb mewn perthynas â'r cais ynghylch absenoldeb disgyblion, ac rwyf wedi ysgrifennu ar wahân mewn perthynas â'r adroddiad ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Fe wnaethoch chi ofyn am wybodaeth am y tueddiadau diweddaraf mewn perthynas ag absenoldebau o ysgolion. Yn gyffredinol, er bod presenoldeb yn dal yn is na'r lefelau a welsom cyn pandemig Covid-19, rydym yn parhau i weld gwelliannau. Ar draws blwyddyn academaidd 2024/25, cynyddodd lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd i 89.1% o 88.0% y flwyddyn flaenorol, gostyngodd absenoldeb cyffredinol o 12.0% i 10.9% a gostyngodd absenoldeb cyson o 37.1% i 33.0%. Yn yr un modd, cynyddodd lefelau presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd i 92.6%, i fyny o 92.1% yn 2023/24, gostyngodd canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion oed cynradd i 7.4% o 7.9%, a gostyngodd lefelau absenoldeb cyson i 21.8% o 24.7% yn 2023/24. Mae'r gostyngiadau hyn i'w croesawu, ond nid wyf yn hunanfodlon, ac rwy'n parhau i bwyso am welliannau pellach.

Fe fyddwch chi'n ymwybodol ein bod ni'n cyhoeddi data presenoldeb bob pythefnos ar gyfer Cymru a'n hawdurdodau lleol, gan ein galluogi i olrhain cynnydd. Gan ein bod ni'n ymwybodol o'r angen i leihau'r baich ar ysgolion, nid oes modd sicrhau ansawdd y data hwn, sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae hyn yn golygu nad ydym yn mynd ar drywydd data coll, ac nid oes disgwyl i ysgolion newid arferion gweithio presennol mewn perthynas â chofnodi data presenoldeb yn eu systemau. Fodd bynnag, dangoswyd bod data ar lefel Cymru o'r casgliad pythefnosol hwn yn weddol gyson â'r ystadegau swyddogol achrededig a gyhoeddir yn flynyddol sy'n mynd drwy broses sicrhau ansawdd fwy trylwyr.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn manylu ar bresenoldeb rhwng 2 Medi a 21 Tachwedd. Maent yn dangos:

- Mae cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn academaidd hyd yn hyn yn 91.7%, heb newid o'i gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
- Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y flwyddyn academaidd hyd yn hyn yn 86.3%, i lawr o 86.4% dros yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Yn achos disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y presenoldeb cyfartalog yw 93.3%, heb newid o'r un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
- Y cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon hyd yma yn achos gwrywod yw 91.8%, i fyny o 91.7% yn ystod yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Yn achos menywod, y cyfartaledd presenoldeb yw 91.6%, heb newid o gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
- Mae'r cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon hyd yma ar ei isaf ymhlith disgyblion ym mlwyddyn 11 (88.3%) ac ar ei uchaf ymhlith disgyblion ym mlwyddyn 3 (93.6%). Mae presenoldeb ymhlith disgyblion blwyddyn 11 0.1 pwynt canran yn uwch nag yr oedd yn yr un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2024/25.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb yn y flwyddyn academaidd hon hyd yma yw salwch, sy'n cyfrif am 3.5% o'r sesiynau. Hwn hefyd oedd y rheswm mwyaf cyffredin yn yr un cyfnod o flwyddyn academaidd 2024/25.

Rydym yn gweld lefelau presenoldeb cymharol debyg eleni i'r llynedd ar draws y grwpiau dysgwyr, ac rwy'n gobeithio gweld gwelliant cyffredinol ar draws y flwyddyn ysgol.

Fe wnaethoch chi ofyn hefyd am ymyriadau polisi eraill a gyflwynwyd ers eich adroddiad. Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau presenoldeb wedi eu diweddaru ym mis Hydref 2023. Fe fyddwch chi hefyd yn ymwybodol, yn dilyn eich adroddiad a'r adolygiad thematig a gynhaliwyd gan Estyn yn 2023, ein bod ni wedi lansio ein Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol. Daeth y Tasglu ag arbenigedd o bob rhan o'r sectorau addysg ac iechyd at ei gilydd, ynghyd â chydweithwyr o lywodraeth leol, gwaith ieuenctid, ysgolion a mwy. Cyfarfu am flwyddyn, gan drafod y materion sy'n sbarduno absenoldeb dysgwyr ac amrywiol fentrau sydd wedi cael eu profi mewn ysgolion yma ac mewn mannau eraill, ac yn fy natganiad llafar i'r Senedd ym mis Rhagfyr 2024 fe wnes i amlinellu'r gwaith a wnaethant.

Fe wnes i gyhoeddi yn y datganiad hwnnw fy mod i'n buddsoddi £8.8 miliwn mewn gwaith i wella ymgysylltiad a phresenoldeb, wedi ei wasgaru ar draws blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Roedd hynny'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol yng ngwaith Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd; cymorth ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi i fynd i'r afael ag ymddieithrio; cynyddu ein buddsoddiad mewn Ysgolion Bro; a chyllid ychwanegol ar gyfer ein Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol.

Fel y dywedais ar y pryd, mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn chwarae rhan hollbwysig mewn ysgolion. Maent yn sefydlu ac yn meithrin perthynas dda gyda theuluoedd plant a phobl ifanc yn yr ysgol; yn annog ac yn cefnogi cyfranogiad rhieni yn yr ysgol ac ymgysylltiad â dysgu plant; ac yn cyfeirio at gymorth a gwasanaethau perthnasol. Mae hyn yn gynyddol bwysig o ran cefnogi presenoldeb a chefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth gyda lefelau uchel o absenoldeb. Nid yw'r angen hwn wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rwy'n gwybod o'm sgyrsiau gydag athrawon ac arweinwyr ysgolion pa mor werthfawr yw'r rolau hynny. Byddaf yn cynyddu'r buddsoddiad hwn ac yn ceisio gwneud mwy i gefnogi eu gwaith pwysig.

Ar hyn o bryd rydym yn gwerthuso ein gwaith ar Ysgolion Bro, a dylai'r adroddiad gwerthuso fod ar gael y flwyddyn nesaf.  Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl eich bod chi'n ymwybodol bod Julie Morgan AS wedi cynnal adolygiad o Raglen Gwella Gwyliau'r Haf a oedd yn tanlinellu ymhellach y gwerth mae'n ei ddarparu.  Dathlodd Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf ei phen-blwydd yn ddeg oed eleni, ac mae wedi cynorthwyo mwy o blant dros haf 2025 nag erioed o'r blaen.  Rydym yn disgwyl y bydd yr adroddiad blynyddol ar gael cyn bo hir.

O ran adroddiad thematig Estyn, fe wnaethom dderbyn yr argymhellion a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai disgyblion sy'n byw o fewn y radiws 3 milltir nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim gael eu cynorthwyo'n well i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir dyrannu cyllid yn fwy effeithiol i gynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai diwygio'r flwyddyn ysgol gynorthwyo disgyblion yn well i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd.

Rydym wedi adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr ac wedi cynnal Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr. Rhoddir sylw i'r ddau yn Atodiad A mewn perthynas â'ch argymhellion.  Rydym wedi cynyddu'r cymorth i ysgolion fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb gwael, gan gynnwys cynyddu ein buddsoddiad mewn Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd. Yn ogystal, gwnes ddatganiad i'r Senedd am ein cynigion ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol.

Fe wnaethom dderbyn yr argymhellion a ganlyn yn rhannol:

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da gyda rhieni, gofalwyr a disgyblion;
- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi setiau data craidd ar gyfer presenoldeb ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys dadansoddiad atchweliad, gweddillebau ar gyfer absenoldebau parhaus a phresenoldeb grwpiau blwyddyn i gefnogi prosesau gwerthuso'r ysgolion eu hunain yn well;
- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu dadansoddiad wythnosol o bresenoldeb ar lefel ysgol i ddarparu gwybodaeth fwy mynych a gwella ansawdd y data hwn;
- Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb gwael a darganfod y dulliau mwyaf effeithiol o wella presenoldeb.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth mewn perthynas â'n dull cyfathrebu yn Atodiad A, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor ar y mater hwn.  Rwyf hefyd wedi amlinellu ein dull o gasglu a chyhoeddi data yn barod. Darparwyd gwybodaeth am yr ymchwil a wnaed yn ein hymateb i'r Pwyllgor yn 2022, ac yn dilyn hynny fe wnaethom ddefnyddio arbenigedd y Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol.

Rwy'n siŵr eich bod chi'n ymwybodol bod Estyn wedi cyhoeddi diweddariad cynnydd ym mis Mai 2025. Rydym wedi diweddaru ein hymateb i ystyried yr wybodaeth newydd, gan gynnwys derbyn argymhelliad ychwanegol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â gosod targedau presenoldeb: Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd: diweddariad ar gynnydd | LLYW.CYMRU Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut i weithredu'r cynigion hynny drwy drafod â phartneriaid.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Atodiad A**

**Diweddariad ar yr Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Tachwedd 2022**

| **Argymhelliad 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch genedlaethol i bwysleisio effeithiau cadarnhaol presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i awdurdodau lleol ac ysgolion gynnal ymgyrchoedd cadarnhaol lleol, tebyg ynghylch presenoldeb yn yr ysgol. Dylai'r ymgyrchoedd gwahanol atgyfnerthu negeseuon o'r ymgyrchoedd eraill.** |
|---|
| **Ymateb Cychwynnol**<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn<br><br>Byddwn yn cyfathrebu mwy â rhieni a gofalwyr gan roi sylw i unrhyw bryder sydd ganddynt o hyd a phwysleisio pwysigrwydd mynd i'r ysgol. Bydd Ysgolion Bro yn chwarae rhan allweddol wrth ymateb i'r her hon. Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn hanfodol i sicrhau bod partneriaethau cadarnhaol yn cael eu creu, a bod cymorth pwrpasol yn cael ei gynnig. |
| **Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**<br><br>Hyd yma, nid ydym wedi cynnal ymgyrch genedlaethol mewn perthynas â phresenoldeb yn yr ysgol, ac rydym yn cydnabod y bydd hynny'n siomi'r Pwyllgor. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn, ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i lywio ein penderfyniadau ynghylch negeseuon a chyfathrebu.<br><br>Rydym wedi cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr sydd wedi cael anawsterau gyda phresenoldeb, wedi edrych ar yr ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol ar bresenoldeb ac wedi adolygu'r sylfaen dystiolaeth ehangach. Daeth nifer o ffactorau i'r amlwg o'r grwpiau ffocws ynghylch materion sy'n effeithio ar bresenoldeb. Mae plant a phobl ifanc yn deall effaith bosibl diffyg presenoldeb ar gyrhaeddiad, ond roeddent yn feirniadol o'r defnydd o negeseuon cyffredinol. Roeddent eisiau gwybodaeth wedi ei theilwra i'w hamgylchiadau, a'r sefyllfa mewn perthynas â'u hardal leol.<br><br>Yn ogystal, mae'r gwaith ymgysylltu rydym wedi ei wneud wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ysgolion o ran ailennyn diddordeb dysgwyr, ac ymgysylltu â rhieni, a'r dulliau maent yn eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys rôl gwasanaethau cymorth ehangach, fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.<br><br>Rydym yn cydnabod bod negeseuon yn fwyaf effeithiol pan maent yn cael eu hatgyfnerthu ar lefel genedlaethol, lleol ac ysgol, gan greu naratif cyson sy'n taro tant gyda theuluoedd. Rydym yn glir yn ein holl gyfathrebiadau bod presenoldeb yn yr ysgol yn bwysig, bod absenoldeb rheolaidd neu barhaus yn effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr, a bod presenoldeb yn yr ysgol hefyd yn bwysig o ran cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol allweddol. Byddwn yn parhau i bwysleisio ei bwysigrwydd yn genedlaethol yn ogystal â datblygu cymorth mwy penodol i ysgolion ac Awdurdodau Lleol, i sicrhau bod gwybodaeth ymarferol ar gael iddynt i helpu i ailymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd, a helpu i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth frys i sut y mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar allu disgyblion i fynd i'r ysgol. Dylai hyn gael ei wneud o fewn dau fis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn a bod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r adolygiad gael ei ategu gan gynllun gweithredu sy'n nodi pa waith fydd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad.** |
| **Ymateb Cychwynnol**<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.<br><br>Bydd yn heriol comisiynu hyn o fewn yr amserlenni y cyfeirir atynt. Fodd bynnag, rydym eisoes mewn trafodaethau anffurfiol gydag awdurdodau lleol am gynnig ymchwil maent wedi bod yn ei ddatblygu i edrych yn fanwl ar bresenoldeb mewn lleoliadau uwchradd, gan ganolbwyntio ar ba ddulliau ac ymyriadau sy'n dod â'r budd mwyaf i deuluoedd incwm is a'u hymgysylltiad ag addysg. |
| **Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**<br><br>Fel y nodwyd, roedd yr amserlenni a osodwyd yn yr argymhelliad yn heriol ac nid oedd yn bosibl eu bodloni.  Ar ôl adolygu'r sefyllfa wedyn, yn hytrach na chomisiynu un astudiaeth i'r materion pwysig hyn, rydym wedi bwrw ymlaen â'r materion hyn drwy ein cynllun peilot Prawfesur Tlodi, a'r gwaith i sefydlu Damcaniaeth Newid sy'n edrych ar yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y gall tlodi eu hachosi o ran cyrhaeddiad.<br><br>Mae'r prosiect peilot prawfesur polisïau ar dlodi yn cynorthwyo ysgolion yn uniongyrchol i fynd i'r afael â gwahaniaethau addysgol, stigma a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal ag effeithio ar lesiant ac iechyd meddwl disgyblion, anghydraddoldeb o ran adnoddau a chyfleoedd, presenoldeb ac ymgysylltu. Drwy wreiddio dull 'prawfesur polisïau ar gyfer tlodi' mewn clystyrau ysgolion, nod y prosiect hwn yw sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, yn gallu cael mynediad at brofiad addysgol cefnogol, niwtral o ran cost ac elwa arno.  Mae gwerthusiad yn mynd rhagddo a bydd yn adrodd y flwyddyn nesaf.<br><br>Rydym hefyd yn cydnabod bod y materion y tu ôl i'r bwlch cyrhaeddiad tlodi yn gymhleth, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein dealltwriaeth o'r ffactorau hyn a lle gallwn wneud gwahaniaeth. Rydym yn datblygu Damcaniaeth Newid i sicrhau bod ein polisi a'n strategaeth i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad tlodi yn glir, yn gydweithredol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn ein helpu i nodi lle gellir targedu ymyriadau orau i gael yr effaith fwyaf a beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni ei botensial, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol.<br><br>Rydym hefyd wedi cynnal ein buddsoddiad yn ein Grant Hanfodion Ysgol, sy'n mynd yn uniongyrchol at deuluoedd a phlant i helpu i dalu am gostau gwisg ysgol, gweithgareddau ysgol fel dysgu offeryn cerdd, cit chwaraeon ac offer arall ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol yn ogystal â hanfodion ystafell ddosbarth, gan gynnwys beiros, pensiliau a bagiau ysgol. Mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i lawer o deuluoedd incwm is ledled Cymru, gan helpu i leihau'r pryder ynghylch prynu gwisg ysgol ac offer a sicrhau bod gan bob plentyn yr hyn sydd ei angen arno i ddysgu a sicrhau nad oes unrhyw rwystr rhag mynychu'r ysgol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafnidiaeth priodol i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol.** |
| **Ymateb Cychwynnol**<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor.<br><br>Mae llawer wedi newid ers i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr ddod i rym yn 2008.<br><br>Ein bwriad o hyd yw cynnal adolygiad pellach ond mae sut rydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw waith sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw yn debygol o gymryd amser ac adnoddau.<br><br>Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol bellach yn cyfrif am chwarter holl wariant uniongyrchol awdurdodau lleol ar addysg - mae hyn yn gost gynyddol.<br><br>Yn ystod 2020, fe wnaethom gynnal adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr presennol a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth gychwynnol. Roedd yn gweld gwendidau yn y rhwydweithiau a'r seilwaith presennol sy'n ei gwneud yn anodd ehangu'r ddarpariaeth. Gwelsom fod anghysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.<br><br>Yn hytrach na mân newidiadau, rhaid dod o hyd i gynllun cynaliadwy hirdymor.<br><br>Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyn, Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, sy'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau bysiau yng Nghymru.<br><br>Bydd y bil arfaethedig yn rhoi cyfle i ni edrych o'r newydd ar gyflenwi gwasanaethau bysiau ledled Cymru, gan gynnwys darparu cludiant ysgol.<br><br>Er bod trothwy pellter cymhwystra i gael cludiant am ddim i'r ysgol yn fater allweddol, mae ystyriaethau eraill o bwys, hefyd. Rydym yn awr yn edrych ar sut gallwn fwrw ymlaen â rhaglen waith ehangach i wella darpariaeth gweithredwyr, ac i alinio trafnidiaeth yn well â nodau polisi ehangach eraill, fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cymorth i ddisgyblion ADY ac ystyried darpariaeth i sefydliadau Addysg Bellach.<br><br>Gan fod ein nodau'n uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod ni'n gwneud hyn yn iawn er mwyn cynorthwyo dysgwyr a'n rhaglen ddiwygio ehangach. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i annog dull gweithredu cyson.<br><br>Mae galluogi mwy o blant i gerdded, reidio sgwter a beicio i'r ysgol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. |

| |
|---|
| Rydym yn cyllido gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau cerdded a beicio drwy ein Cronfa Teithio Llesol a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau bob blwyddyn.<br><br>Rhaid i bob awdurdod lleol gynllunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, a ddangosir ar Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Rydym wedi ei gwneud yn amod bod yn rhaid i bob ysgol gael llwybrau teithio llesol, sy'n gallu bod yn llwybrau cerdded a/neu feicio.<br><br>At hynny, rydym yn annog awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflwyno Strydoedd Ysgol, sy'n golygu cau ffyrdd o gwmpas ysgolion ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol, er mwyn gwella amodau ar gyfer cerdded a beicio, gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau llygredd aer. Rydym wedi cynnig cyllid i bob awdurdod lleol sydd â diddordeb mewn gwneud gwaith paratoi ar gyfer gweithredu cynlluniau strydoedd ysgolion, os gallant ddangos eu bod wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynlluniau.<br><br>Rydym yn gweithio gyda Sustrans i ddarparu cymorth i ysgolion i ddatblygu Cynlluniau Ysgolion Teithio Llesol, sy'n ceisio nodi a mynd i'r afael â rhwystrau rhag teithio llesol i'r ysgol, a chynyddu nifer y disgyblion a'r staff sy'n cerdded, yn defnyddio sgwteri neu'n beicio'n rheolaidd. Mae cyfres o adnoddau a dulliau gweithredu yn cael eu treialu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddechrau eu cyflwyno'n genedlaethol yn 2023. Mae hyn yn ategu ein rhaglen Teithiau Llesol hirsefydlog a'n hyfforddiant beicio a cherdded i blant. |
| **Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**<br><br>Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr wedi bod yn destun dau adolygiad; un wedi ei gwblhau yn 2021 ac un arall wedi ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.<br><br>Mae Adroddiad Argymhellion 2024 a'r datganiad Gweinidogol cysylltiedig yn amlinellu'r rhesymau y tu ôl i benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n sail i deithio gan ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn argymell diweddariad cynhwysfawr i'r dogfennau canllawiau statudol i ymhelaethu ac i gyd-fynd â newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i ddeddfwriaeth ehangach ers cynhyrchu'r canllawiau gwreiddiol am y tro cyntaf. Tynnodd sylw hefyd at y cyfle i rannu arferion arloesol ar draws awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.<br><br>Mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu canfyddiadau'r ddau adolygiad sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn ogystal â'r sgwrs adeiladol a ddechreuwyd yn yr Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr a gynhaliwyd ddechrau mis Mai. Roeddwn i'n bresennol yn yr Uwchgynhadledd ynghyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth.<br><br>Roedd yr Uwchgynhadledd yn fforwm ardderchog i ddechrau arddangos arferion rhagorol sy'n digwydd ledled Cymru i ategu amrywiaeth eang o opsiynau teithio ar gyfer plant a phobl ifanc; ac rydym eisiau harneisio ac efelychu rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd. Rydym wedi nodi nifer o ffrydiau gwaith i fwrw ymlaen â rhai o'r syniadau a rannwyd yn yr Uwchgynhadledd, ac rydym yn gobeithio cynnal sesiwn ddilynol cyn diwedd tymor y Senedd hon. Mae'r ffrydiau gwaith yn canolbwyntio ar: ddiweddaru dogfennau canllaw, hyrwyddo cysondeb a llywodraethiant, gweithredu ymyriadau awdurdodau lleol, gwella cynlluniau cludiant ôl-16, a darparu gostyngiadau ym mhris tocynnau i bobl ifanc, fel y'i hamlinellir yn Adroddiad yr Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr.<br><br>Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y Canllawiau Gweithredol diwygiedig ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr ar 11 Mehefin, a bydd yn para tan 28 Tachwedd. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith, gan edrych ar y defnydd o ddata presenoldeb i gefnogi ymyriadau cynnar. Wrth ddarparu'r manylion hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer gwneud y gwaith hwn.** |
| **Ymateb Cychwynnol**<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.<br><br>Mae ein Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol (Mawrth 2021) yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion ddefnyddio'r amrywiaeth o ffynonellau data sydd ar gael iddynt wrth ystyried anghenion llesiant eu cymuned, o ran darpariaeth gyffredinol a chymorth penodol wedi ei anelu at y rhai sydd ei angen. Mae ysgolion yn casglu amrywiaeth o ddata a gwybodaeth, y gellir eu defnyddio i lywio a deall llesiant y dysgwyr a staff yr ysgol, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfraddau absenoldeb ac am waharddiadau. Ar ôl cyhoeddi'r Fframwaith, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gynorthwyo'r broses weithredu a hefyd i ystyried sut rydym yn mesur effaith.<br><br>Fel rhan o'n blaenraglen waith, byddwn yn ystyried sut gellir defnyddio data absenoldeb a gwaharddiadau i helpu i lywio sut mae ysgolion yn cynorthwyo llesiant dysgwyr i atal absenoldeb parhaus a gwaharddiadau. |
| **Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion i ategu defnydd effeithiol o ddata a gwybodaeth i gynorthwyo dysgu a gwella, ac, i hwyluso hyn, darparu adnoddau adrodd ac atebion digidol i alluogi cwestiynu data'n ystyrlon er mwyn llywio camau gweithredu.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ddeall sut mae ysgolion a hwythau yn manteisio i'r eithaf ar swyddogaethau eu systemau gwybodaeth reoli presennol, a lle gallai cyfyngiadau fod o ran hynny. Rydym yn gweithio gyda chysylltiadau systemau rheoli gwybodaeth awdurdodau lleol a chyflenwyr meddalwedd masnachol drwy'r Fforwm Datblygu Meddalwedd i drafod cofnodi a chasglu gwybodaeth gan ysgolion i gynorthwyo a llywio polisïau addysg. Rydym wedi sefydlu Is-grŵp data Presenoldeb ac Eithriadau i'r fforwm hwn, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chyflenwyr meddalwedd masnachol, i drafod ac archwilio dewisiadau ar ddata presenoldeb a gwaharddiadau yn benodol.<br><br>Drwy ffrwd waith data'r Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Ann John, a ddirwynwyd i ben ym mis Rhagfyr 2024, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i wella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data er mwyn deall yn well yr heriau o ran presenoldeb a mynd i'r afael â nhw.<br><br>Ers 2020 rydym wedi bod yn cyhoeddi data presenoldeb ar gyfer Cymru o leiaf bob pythefnos drwy gydol y flwyddyn academaidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ehangu'n sylweddol ar yr amrywiaeth o wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi. Mae data bellach yn cael ei gyhoeddi ar lefel Cymru ar gyfer absenoldeb cyffredinol yn ôl sector ysgol, rhyw, grŵp blwyddyn, cymhwysedd prydau ysgol am ddim a chefndir ethnig ac ar gyfer absenoldeb cyson (gan ddefnyddio'r trothwy 10%) yn ôl rhyw, grŵp blwyddyn a phrydau ysgol am ddim. Mae'r data hwn ar gael am ddim i bob ysgol ac awdurdod lleol ei ddefnyddio i osod eu patrymau presenoldeb ac absenoldeb eu hunain mewn cyd-destun |

cenedlaethol. Rydym yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar gynnwys ac amlder y cyhoeddiad hwn ac yn mireinio ein hallbynnau yn unol â hynny. Mae'r cyhoeddiad ar gael yma: [Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir | LLYW.CYMRU]

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu cynlluniau i ehangu ar y cyhoeddiad hwn drwy roi dadansoddiad mwy pwrpasol a rheolaidd i ysgolion unigol o'u data presenoldeb, gan adeiladu ar Setiau Data Craidd Cymru Gyfan blynyddol presennol. Yn nhymor y gwanwyn 2026 byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i sefydlu cynnwys, amlder a gwerth dadansoddiad o'r fath, gyda'r nod o gyflwyno adroddiadau yn ystod yr un flwyddyn galendr.

Fe wnaethom ddiweddaru'r Setiau Data Craidd Cymru Gyfan blynyddol ar unwaith, y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu ar gyfer pob ysgol a gynhelir a phob awdurdod lleol, i ychwanegu dadansoddiadau yn seiliedig ar y diffiniad newydd o absenoldeb cyson, gan roi dadansoddiadau i ysgolion o lefelau absenoldeb cyson dros amser, gan ddysgwyr â nodweddion gwahanol ac o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn gyd-destunol, gan helpu ysgolion i ddeall tueddiadau a meysydd i lywio lle mae'n debygol y bydd angen ymyriadau.

Wrth edrych ymlaen, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella'r defnydd o ddata mewn addysg, rydym wedi ymrwymo i archwilio opsiynau ar gyfer offer digidol cenedlaethol newydd a diwygiedig a all gefnogi defnydd data effeithiol, teg a thryloyw ar draws y system ysgolion, i adeiladu ar ein systemau adrodd presennol a'u moderneiddio - y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a Fy Ysgol Leol. Rydym yn caffael cyflenwr i gynnal ymarfer darganfod cynhwysfawr i lywio'r camau nesaf. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar opsiynau tymor hwy ar gyfer sicrhau argaeledd mwy effeithiol a defnyddio'r data presenoldeb wythnosol i gynorthwyo ymyriadau cynnar.

**Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cymru yn monitro deilliannau addysgol a’r cysylltiadau â chyfraddau presenoldeb, ac yn cyhoeddi’r data hyn yn rheolaidd.**

**Ymateb Cychwynnol**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Egwyddor allweddol y tu ôl i'r cwricwlwm newydd yw y gall pob dysgwr symud ymlaen ar hyd ei lwybrau ei hun i'w alluogi i symud yn hyderus i'w gamau nesaf mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn fwriadol ac yn ffordd o fynd ati i gynnwys dysgwyr difreintiedig, gan gynnwys rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol a rhai ag ADY.

Rydym yn cydnabod y cysylltiad rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol, a byddem mewn egwyddor yn cefnogi unrhyw bolisi sy'n annog dysgwyr i fynychu'r ysgol.

Mae adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a ddatblygwyd gan Ymchwil Arad, astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu, a'r adroddiad Cyllid Cymdeithasol sydd ar y gweill ar anghenion gwybodaeth y system ysgolion, gyda'i gilydd yn nodi sut gellid defnyddio gwybodaeth am y system ysgolion yn fwyaf adeiladol i gynorthwyo cynnydd dysgwyr, gwella ysgolion, a'i chyhoeddi i ddisgrifio canlyniadau addysgol ar lefel genedlaethol. Bydd yr adroddiadau hyn yn sail i'n dull o ymdrin â'r materion hyn. Bydd hyn yn cymryd amser i’w ddatblygu. Rhoddwyd saib ar gyhoeddi data presenoldeb a data cymwysterau ar Fy Ysgol Leol yn ystod y pandemig: mae'r trefniadau hyn yn ystyriaethau ar gyfer y tymor hwy fel rhan o wybodaeth ehangach Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro canlyniadau addysgol a'r cysylltiadau â chyfraddau presenoldeb ac yn cyhoeddi'r data hwn yn rheolaidd. Tudalen 44 tirwedd

sy'n hyrwyddo ffocws ar lesiant dysgwyr ac athrawon, cyrhaeddiad ar bob lefel, cynnydd i'r camau nesaf, ac ymgysylltu â chymunedau a rhieni.

**Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**

Ym mis Rhagfyr 2025, byddwn yn dechrau cyhoeddi dadansoddiad blynyddol sy'n cymharu canlyniadau TGAU â data presenoldeb. Bydd y data'n cael ei gyhoeddi drwy ddilyn y ddolen isod:
[Canlyniadau arholiadau | LLYW.CYMRU]

**Argymhelliad 6: Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data manylach am y rhesymau dros ddadgofrestru a dychwelyd i ysgolion ar ôl dadgofrestru, ochr yn ochr â data ar y cymorth a ddarperir i deuluoedd. Dylai'r data hyn gael eu dadgyfuno gan awdurdod lleol a dylent nodi demograffigau allweddol, megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.**

**Ymateb Cychwynnol**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.

Rydym yn gweithio gyda Data Cymru (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i wella ansawdd a lefel y data rydym yn ei gasglu ar hyn o bryd mewn perthynas â datgofrestru a demograffeg allweddol y garfan hon, gan gynnwys y rhesymau dros ddadgofrestru.

Gyda'r disgwyl y bydd cynigion newydd addysg ddewisol yn y cartref yn cael eu rhoi ar waith yn 2023, gan gynnwys y pecyn cymorth ehangach, rydym yn bwriadu casglu data ychwanegol i'n helpu i werthuso'r effaith ar ddysgwyr addysg ddewisol yn y cartref.

**Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**

Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi datganiad ystadegol blynyddol o ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol sy'n cynnwys manylion cyfraddau'r dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref yn ôl oedran a rhyw ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â Phlant nad ydynt yn yr ysgol wedi eu cynnwys ym Mil Llesiant Plant ac Ysgolion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a fydd yn berthnasol i Gymru pan y'i deddfir.  Fel rhan o'r gwaith o fwrw ymlaen â'r darpariaethau hynny ar ôl deddfu, rhoddir ystyriaeth bellach i gasglu a chyhoeddi meysydd data ychwanegol.

Rydym yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i gynorthwyo teuluoedd sy'n addysgu gartref. Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r gwariant hwn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno datganiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r cymorth maent wedi ei ddarparu.

**Argymhelliad 7: Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadolygiad presennol o bolisi a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol, yn cytuno ac yn gosod trothwyon cyson ar gyfer ymyrryd sy'n gymwys ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.**

**Ymateb Cychwynnol**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.

| |
|---|
| Bydd hyn yn cael ei weithredu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu canllawiau diwygiedig |
| **Y sefyllfa ym mis Hydref 2025**<br><br>Fe wnaethom ddiwygio'r sbardun ar gyfer absenoldeb cyson o 20% i 10% er mwyn sicrhau ymyriadau cynharach wrth fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus. Mae disgyblion yn absennol yn gyson os ydynt wedi colli 10% neu ragor o'r sesiynau yn ystod y flwyddyn academaidd. Ar gyfer y trothwy 10%, byddai disgybl oed cynradd yn absennol yn gyson pe bai'n colli 38 sesiwn neu ragor. Byddai disgybl oed uwchradd yn absennol yn gyson pe bai'n colli 30 sesiwn neu ragor.<br><br>Mae data hanesyddol wedi dangos mai'r wythnosau cyntaf ym mis Medi sydd â'r presenoldeb uchaf o blith unrhyw wythnos o'r flwyddyn academaidd ac, o'r herwydd, mae ffigurau'r flwyddyn hyd yma yn debygol o ostwng wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Cyhoeddir data ar absenoldeb cyson yn dilyn gwyliau hanner tymor yr hydref unwaith y bydd digon o ddata ar gyfer y flwyddyn academaidd.<br><br>Mae awdurdodau lleol yn rhoi cymorth i ysgolion ar faterion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr a'u presenoldeb drwy eu Gwasanaeth Lles Addysg. Er enghraifft, mae swyddogion lles addysg yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau, fel ymgynghoriadau cofrestru i drafod y ffordd orau o gynorthwyo'r ysgol i wella presenoldeb ac i leihau absenoldeb parhaus |

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Eluned Morgan AS

Y Prif Weinidog

4 Rhagfyr 2025

Annwyl Eluned

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda siom a rhwystredigaeth ynghylch yr hyn sy'n ymddangos fel aelod o'ch Cabinet yn osgoi bod yn destun gwaith craffu pwyllgor.

Wrth inni agosáu at ddiwedd y Senedd hon, gwnaethom benderfynu cynnal sesiynau craffu terfynol gyda'r Ysgrifenyddion Cabinet, a'u Gweinidogion y mae eu portffolios yn gadarn o fewn ein cylch gorchwyl: Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch; Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Mae'r mathau hyn o sesiynau craffu cyffredinol yn nodwedd bwysig o waith pwyllgor. Maent yn rhoi cyfleoedd inni ymgysylltu'n briodol ar draws ystod lawn portffolio Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog, yn hytrach na'r sesiynau sydd â mwy ffocws ar bolisi, deddfwriaeth neu feysydd ariannol penodol.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau dyddiadurol ar Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion. Felly, gwnaethom gyhoeddi ein gwahoddiadau ym mis Hydref, ymhell cyn y sesiynau wedi'u cynllunio ym mis Chwefror. Cawsom gadarnhad gan y ddau Ysgrifennydd Cabinet, a chadarnhawyd y sesiynau hyn.

Fodd bynnag, ar ôl inni graffu ar Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gwnaed cais gan Lywodraeth Cymru. Y cais oedd i'r Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bresennol yn lle'r Ysgrifennydd Cabinet, gan ddweud bod hyn oherwydd bod plant o dan ei phortffolio hi.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cawsom ein synnu, oherwydd er bod rhai meysydd polisi unigol yn nwylo'r Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, nid yw'n gyfrifol am ystod gyfan o bolisi iechyd plant arwyddocaol y gallem fod eisiau eu trafod yn ystod sesiwn o'r fath. Nodwn, yn ystod gwaith craffu ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ym mis Mehefin 2024, fod y Gweinidog wedi bod yn glir ar sawl achlysur yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor na allai ateb cwestiynau ar faterion gofal iechyd a oedd y tu allan i'w phortffolio.

Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb yn ddiweddar, gwnaethom ymdrin â nifer o feysydd na allai ond Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, eu hateb. Er hwylustod cyfeirio, rwyf wedi cynnwys mewn atodiad yr holl feysydd posibl nad ydynt o fewn portffolio'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.

Gwnaethom ystyried a thrafod y cais fel Pwyllgor llawn. Roeddem yn unfrydol ac yn glir bod ein gwaith craffu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Cabinet a'r ddau Weinidog fynychu'r sesiwn hon. Barn a gafodd ei chyfleu i Lywodraeth Cymru.

Pan gawsom wybod nad oedd argaeledd mwyach ar gyfer y dyddiad gwreiddiol ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cawsom ein synnu. Roedd presenoldeb yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'i gadarnhau yn flaenorol. Felly, gwnaethom gynnig dyddiad arall, gan obeithio y gallem ddod o hyd i ddyddiad y gallai'r tri fynychu. Nid oedd yn ddyddiad cadarn, a gallem fod yn hyblyg gyda hyn.

Felly roeddem yn teimlo hyd yn oed yn fwy rhwystredig pan gawsom wybod, oherwydd y diddymiad sydd ar ddod; y galwadau ar ddyddiaduron yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog; cylch gorchwyl y Pwyllgor; a phortffolios gweinidogol, fod y farn yn parhau y dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddod yn hytrach na'r tri. Roedd yn amlwg o hyn, na fyddai cynnig dyddiadau pellach yn debygol o arwain at unman. Wrth ddarllen rhwng y llinellau, ymddengys na fyddai'r Ysgrifennydd Cabinet ar gael ar gyfer unrhyw ddyddiad a gynigiwyd gennym.

Yn gyntaf, mater i bwyllgor y Senedd yw penderfynu pwy y mae am graffu arno, pryd a pham. Rydym yn deall y gallai fod achlysuron lle mae Pwyllgor eisiau gwahodd Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog penodol, ond mae'r meysydd y maent yn dymuno eu trafod o fewn portffolio rhywun arall. Yn yr achosion hynny, byddai'n gwbl resymol i'r pwyllgor gael cyngor, ac ystyried hynny wrth gyhoeddi gwahoddiad. Nid yw hyn yn wir yma, rydym am gynnal sesiwn graffu gyffredinol sy'n cwmpasu cyfrifoldebau portffolio ar gyfer y tri.

Yn ail, mae ein cylch gorchwyl yn cwmpasu addysg, *iechyd* a gofal cymdeithasol plant. Nid yw cylch gorchwyl y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn cwmpasu iechyd, sy'n faes pwysig i graffu arno. Ni fyddai mewn sefyllfa i ateb nifer sylweddol o gwestiynau a allai fod gennym. Byddai'n annheg i'r Gweinidog a'r Pwyllgor fel ei gilydd.

Yn drydydd, rydym yn deall y galwadau ar amser y Gweinidogion. Dyma pam y gwnaethom gyhoeddi'r gwahoddiad fisoedd cyn y sesiwn. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei alw’n rheolaidd gerbron ein Pwyllgor ers dechrau’r swydd hon. Byddai ond y trydydd ymddangosiad iddo yn y swyddogaeth hon, gyda'r ddwy sesiwn flaenorol yn rhan o’r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Felly, nid ydym yn credu ein bod wedi gwneud galwadau gormodol ar ei amser.

Er y bydd dyddiaduron y Gweinidogion yn brysur, dylid blaenoriaethu gwahoddiad gan Bwyllgor, mae hyn yn rhan greiddiol o fod yn Ysgrifennydd Cabinet neu'n Weinidog. Rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn dod i mewn. Pan na allai wneud y dyddiad gwreiddiol a gynigiwyd, gwnaethom lwyddo i ddod o hyd i slot arall. Mae hyn yng nghyd-destun ein bod eisoes wedi cymryd tystiolaeth ganddi bedair gwaith yn ystod y tymor hwn yn unig.

Pan ofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn flaenorol am aildrefnu sesiynau eraill, roeddem yn hyblyg iawn a gwnaethom gytuno i symud sesiynau.

Mewn perthynas â'r cais hwn, gallem hefyd fod yn hyblyg gyda'r dyddiadau rydym yn eu cynnig. Fodd bynnag, roedd yn amlwg pan wnaethom gynnig dyddiad amgen fod awydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i osgoi dod i'n pwyllgor, a oedd yn mynd y tu hwnt i logisteg.

Gobeithio y byddwch yn cytuno â ni nad yw hyn yn dderbyniol. A allwch gadarnhau nad ydych o’r farn y dylai aelodau eich Cabinet osgoi gwaith craffu o'r fath, ac y byddwch yn ailadrodd wrthynt i gyd bwysigrwydd parchu ceisiadau'r Pwyllgor i ymddangos.

Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb mewn pryd ar gyfer cyfarfod olaf ein Pwyllgor ar gyfer y tymor hwn ar 17 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi at y Llywydd yn ei rhinwedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes oherwydd natur ddifrifol y mater hwn.

Yn gywir



Buffy Williams AS

Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Copi: Y Llywydd, Cadeirydd, Y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1

Meysydd cyfrifoldeb gweinidogol perthnasol sydd y tu allan i gyfrifoldeb y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fel y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc:

- Goruchwylio GIG Cymru
- Diogelu Iechyd
- Gwella iechyd
- Iechyd y cyhoedd
- Anghydraddoldebau iechyd
- Gofal sylfaenol
- Profiad cleifion, eu cynnwys a llais y dinesydd
- Integreiddio
- Gordewdra

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Fel y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc:

- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Atal hunanladdiad
- Niwroamrywiaeth
- Anabledd dysgu
- Gwasanaethau caethiwed
- Effaith gamblo cymhellol ar iechyd
- Tybaco a fepio
- Camddefnyddio sylweddau



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yng Nghymru
- Iechyd menywod
- Gwasanaethau gwella iechyd a llesiant

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:
FM-PO-637-2025

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr ynghylch presenoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl a Llesiant mewn sesiwn craffu cyffredinol.

Rwy'n cydnabod dymuniad y Pwyllgor i gael y tri Gweinidog yn bresennol ac yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd rydych wedi'i ddangos wrth geisio ystyried dyddiaduron gweinidogol. Hoffwn eich sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd craffu gan y Pwyllgor ac yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith y mae pob pwyllgor Senedd yn ei wneud.

Rhoddodd swyddogion wybod i'r Pwyllgor ddydd Iau y byddent yn darparu dyddiadau ar gael erbyn ddoe (dydd Llun) gyda dyddiadau ar gael ar gyfer y tri Gweinidog. Fel y cytunwyd, anfonwyd ymateb at glerc y Pwyllgor ddoe gan gynnig 4 Mawrth fel dyddiad addas ac rwy'n gobeithio y bydd y dyddiad hwn yn gyfleus i'r Pwyllgor. Os nad yw'r dyddiad hwn yn addas, rydym yn parhau'n agored i drafod trefniadau amgen.

Diolch am eich dull adeiladol ar y mater hwn.

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3.16

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

9 Rhagfyr 2025

Gwaith Ieuenctid yng Nghymru – Cynnydd a'r Camau Nesaf

Annwyl Lynne

Rydym yn ysgrifennu i ofyn am eglurder ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwaith ieuenctid yng Nghymru, yn dilyn pryderon diweddar a fynegwyd gan gynrychiolwyr y sector. Fel y cofiwch, cynhaliodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd ymchwiliad i waith ieuenctid yn 2016, yn ystod eich cyfnod fel Cadeirydd. Tynnodd yr ymchwiliad hwnnw sylw at bwysigrwydd model cynaliadwy ar gyfer gwaith cyflawni ieuenctid a gosododd y sylfaen ar gyfer datblygiadau dilynol, gan gynnwys yr argymhellion a gyhoeddwyd yn yr adroddiad *Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru* (Medi 2021) gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a gwaith y Bwrdd Gweithredu Gwaith Ieuenctid.

Mae gohebiaeth ddiweddar gan gynrychiolwyr y sector, gan gynnwys Keith Towler, wedi codi pryderon ynghylch cyfeiriad y cynigion y bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt ym mis Hydref 2024. Yn sgil y pryderon hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni, a mynd i'r afael â'r pwyntiau allweddol a ganlyn:

1. Sut mae'r diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid yn cyd-fynd â'r dyheadau am fodel cynaliadwy o ddarparu gwaith ieuenctid fel y nodir yn yr adroddiad "*Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru*"? Pa gamau a gymerir i sicrhau bod y diffiniad yn adlewyrchu gweledigaeth y sector ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori?
2. Er bod y sector yn croesawu creu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, mae pryderon wedi'u codi ynghylch dull o'r brig i lawr canfyddedig. Sut y bydd Llywodraeth

Cymru yn sicrhau bod y corff newydd yn gweithredu fel model partneriaeth gwirioneddol, gan gydweithio â CWYVS, CLlLC a rhanddeiliaid eraill?

3. Nodwn nad yw'r ymatebion ymgynghori llawn wedi'u cyhoeddi, a all Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'r fframwaith statudol terfynol, yn benodol y rhai a lywiwyd gan yr ymatebion ymgynghori? A ellir darparu'r ymatebion ymgynghori llawn i gynorthwyo â thryloywder?

4. Os yw'r fframwaith newydd i fynd rhagddo heb fawr o newid o'r hyn a amlinellwyd yn ymgynghoriad y llynedd, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gyda ni bod y cynigion hyn: mewn perygl o greu rhwystrau i sefydliadau gwirfoddol, o bosibl yn gosod gofynion cymhwyso 'afrealistig', ac yn brin o eglurder a hyblygrwydd digonol i sicrhau gweithrediad cyson ledled Cymru?

5. O ystyried y bydd bron i ddeng mlynedd ers ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor erbyn diwedd tymor y Senedd hon, beth yw'r amserlen ar gyfer gweithredu'r cam nesaf pwysig iawn hwn o bolisi gwaith ieuenctid? Sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd i sicrhau atebolrwydd?

Mae gwaith ieuenctid yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi plant a phobl ifanc ledled Cymru ac rydym yn awyddus i sicrhau bod dull Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu arbenigedd y sector ac yn adeiladu ar y sylfeini a'r dull cydweithredol a osodwyd dros y degawd diwethaf.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb erbyn 22 Ionawr.



Buffy Williams AS

Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

James Owen

Prif Weithredwr Medr

10 Rhagfyr 2025

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

Annwyl James,

Ers i ni glywed tystiolaeth lafar gennych yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, mae wedi dod i sylw rhai Aelodau y gallai fod gan rai sefydliadau addysg bellach fwy o fyfyrwyr nag o leoedd. Yn amlwg, mae hyn yn peri pryder i ni.

Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch sylw at effaith bosibl poblogrwydd cynyddol colegau yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Nododd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ei bod wedi cynnal cyfarfod â chi, a'ch bod wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai hyn ddod yn bwysau ychwanegol ar y sector. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog nad oeddent am weld dysgwyr ar restrau aros am leoedd mewn coleg.[1]

Yn y cyd-destun hwn, hoffem gael rhagor o wybodaeth am restrau aros ar gyfer lleoedd i fyfyrwyr mewn colegau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn:

1. Faint o golegau sy'n defnyddio rhestrau aros ar gyfer cyrsiau sydd â gormod o fyfyrwyr wedi tanysgrifio ar eu cyfer?

2. Ydych chi'n gwybod faint o fyfyrwyr ledled Cymru sydd ar restr aros am le mewn coleg? Os felly, a oes gennych unrhyw ddadansoddiad daearyddol o'r rhestrau aros hynny a pha gyrsiau sydd â gormod o fyfyrwyr wedi tanysgrifio ar eu cyfer?

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd, Cofnod y Trafodion, paragraffau 214 a 216

3. Pa gamau y mae Medr yn eu cymryd i leihau'r niferoedd sy'n aros am le ac, yn y pen draw, i sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr ar restr aros am le mewn coleg?

Rwy'n anfon copi o’r ohebiaeth hon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a CholegauCymru.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb erbyn 7 Ionawr.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Copi at: Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

ColegauCymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon